View metadata, citation and similar papers at core.ac.uk

brought to you by CORE

provided by University of Wales Trinity Saint David

# DARPARIAETH GYMRAEG A DWYIEITHOG

# YN Y SECTOR TWRISTIAETH YNG NGHYMRU

**Robert Michael Lewis, MA (Cantab), MSc, PhD**

**Cynhaliwyd yr ymchwil hwn dan nawdd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac fe'i cyflwynwyd er mwyn bodloni'n rhannol ofynion ar gyfer gradd**

**MRes Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd**

**yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd,**

**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

**Cyfarwyddwr Astudiaethau: Dr Hywel Glyn Lewis**

**Mawrth 2016**

**CRYNODEB**

Mewn ymateb i strategaeth iaith Llywodraeth Cymru *Iaith fyw: iaith byw* a'r strategaeth dwristiaeth *Partneriaeth ar gyfer twf*, datblyga Croeso Cymru ystod o bolisïau a gweithgareddau i hyrwyddo a hybu defnydd y Gymraeg a dwyieithrwydd ym maes twristiaeth.

Yn Rhan 1 y traethawd, gosodir y cyd-destun o safbwynt polisi, cynllunio iaith, marchnata, twristiaeth ddiwylliannol a chanfyddiadau. Ffocws Rhan 2 yw'r ymchwil gwreiddiol, sef ymchwil **ansoddol** ar ffurf cyfweliadau dwfn â sbectrwm o fusnesau twristiaeth, ac ymchwil **meintiol** ar ffurf dau gwestiwn ar Arolwg Poblogaeth Prydain Fawr parthed natur cyfraniad ieithoedd lleol yn gyffredinol, a'r iaith Gymraeg yn benodol, i'r profiad gwyliau.

Ar sail yr **ymchwil ansoddol**, y **prif newidynnau** sydd yn effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog mewn busnesau yw:

- Cefndir ieithyddol y perchnogion/rheolwyr a'u hagwedd at y Gymraeg
- Proffil ieithyddol yr ardal
- Proffil y cwsmeriaid: tarddiad daearyddol a gofynion y cwsmeriaid
- Blaenoriaethau marchnata a brand y busnes

Darpara'r **ymchwil meintiol** y dystiolaeth ganlynol:

- Tuedda'r ymatebwyr i fod llawer yn fwy positif am gyfraniad i'r profiad gwyliau nag yn negyddol ond roedd ymateb dau ymhob pump o'r ymatebwyr yn niwtral.
- Bu gwahaniaeth mawr yn yr atebion yn ôl grwpiau oedran. Gellir casglu bod y grwpiau ifanc yn sylweddol fwy agored i gyfraniad ieithoedd na'r grwpiau hŷn.
- Cafwyd gwahaniaeth sylweddol rhwng atebion menywod a dynion. Gellir casglu bod menywod yn gyffredinol yn fwy agored i gyfraniad ieithoedd na dynion.
- Nid oedd cymaint o wahaniaeth rhwng atebion y grwpiau sosio-economaidd ag y disgwylwyd yn sgil ymchwil blaenorol.

Awgryma'r dystiolaeth y byddai defnydd dethol o Gymreictod fel rhan annatod o'r brand yn berthnasol ac yn apelgar i'r segmentau dethol ond rhaid cydnabod na fyddai defnydd Cymreictod yn effeithiol ymhlith rhai segmentau/grwpiau.

Cynhwysir argymhellion ar gyfer cynllun gwaith ymarferol ac ymchwil pellach.

Cyfrif geiriau: 31,137 (+ Nodiadau a Chyfeiriadau)

MYNEGAI I'R CYNNWYS

TUDALEN


<u>RHAN 1</u>

**CYFLWYNIAD** 1

**Amcanion a chwmpas yr astudiaeth** 1

**Natur yr astudiaeth** 3

**Y CYD-DESTUN A'R CEFNDIR YMCHWIL** 4

**Y CYD-DESTUN POLISI** 4

- **Deddfwriaeth** 4
- **Strategaethau** 5

**YSTYRIAETHAU MARCHNATA** 8

- **Datblygu brand Cymru** 8
- **Cysylltiad rhwng y brand a'r cynnyrch** 10
- **Naws lle** 11

**YSTYRIAETHAU IEITHYDDOL** 13

- **Ecoleg iaith** 13
- **Peuoedd defnydd** 14
- **Dwylosia** 14
- **Bywioldeb iaith** 15
- **Cynllunio iaith** 16
- **Swyddogaeth ieithyddol** 17
- **Ffactorau economaidd** 18
- **Epocaliaeth ac hanfodaeth** 19
- **Newid paradeim** 20

**TWRISTIAETH DDIWYLLIANNOL** 22

**CANFYDDIADAU AC AGWEDDAU** 30

- **Canfyddiadau'r defnyddwyr** 30
- **Canfyddiadau'r diwydiant** 38
- **Newid ymddygiad** 39

<u>RHAN 2</u>

**METHODOLEG A DADANSODDI'R DATA** 42

**Yr ymchwil ansoddol** 42

- **Y sampl (1)** 42
- **Yr astudiaeth beilot** 44
- **Y sampl (2)** 45
- **Canllawiau ar gyfer y cyfweliadau: strwythur, cynnwys, penawdau** 49

Ystyriaethau ymarferol 49
Dull recordio data ar gyfer dadansoddi 51

Yr ymchwil meintiol 51
Dadansoddi'r data 53
Ystyriaethau Moesegol ac Iechyd a Diogelwch 53

CANLYNIADAU 55

YR YMCHWIL ANSODDOL 55

Darpariaeth Gymraeg a dwyieithog bresennol 55
Manteision 58
Pwynt gwerthu unigryw 58
Cyfoethogi profiad yr ymwelwyr 58
Normaleiddio 59
Naws lle 59
Manteision economaidd 60
Manteision cymunedol 61
Y Gymraeg yn adnodd 62
Anfanteision 63
Costau 63
Dylunio 64
Diffyg adnoddau staff, sgiliau priodol 64
Anymarferoldeb a diffyg dilysrwydd 65

Y prif newidynnau sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog 65
Cefndir ieithyddol y perchnogion /rheolwyr a'u hagwedd at y Gymraeg 65
Proffil ieithyddol yr ardal 69
Proffil y cwsmeriaid: tarddiad daearyddol a gofynion y cwsmeriaid 71
Blaenoriaethau marchnata 74

Awgrymiadau gan yr ymatebwyr 76
Gwasanaeth cyfieithu 76
Graddio busnesau: cydnabod darpariaeth Gymraeg a dwyieithog 77
Anogaeth, cefnogaeth a chyngor i'r diwydiant 78
Ystyriaethau'r brand: cysondeb â'r strategaeth genedlaethol 79
Gwneud diwylliant / iaith yn fwy hygyrch 79

YR YMCHWIL MEINTIOL 80
Oedran 81
Rhyw 82
Grŵp sosio-economaidd 83
Tarddiad daearyddol o fewn Prydain 83

| | |
|---|---|
| Sylwadau air am air | 84 |
| **Cymariaethau â'r ymchwil i Rwystrau** | **85** |
| **ADSYMIAD, CASGLIADAU AC ARGYMHELLION** | **93** |
| **ADSYMIAD A CHASGLIADAU** | **93** |
| **ARGYMHELLION A'R CAMAU NESAF** | **95** |
| **NODIADAU** | **98** |
| **CYFEIRIADAU** | **100** |
| **ATODIAD 1: Canllawiau / penawdau ar gyfer cyfweliadau** | **104** |
| **ATODIAD 2: Proffiliau busnesau ac ymatebwyr yn yr ymchwil ansoddol** | **105** |


**TABLAU**


| | |
|---|---|
| **Tabl 1: Brand cenedlaethol Cymru** | **9** |
| **Tabl 2: Newid Paradeim** | **21** |
| **Tabl 3: Proffil y twristiaid diwylliannol yn Hong Kong** | **27** |
| **Tabl 4: Manylion y sampl terfynol yn yr ymchwil ansoddol** | **47-48** |
| **Tabl 5: Crynodeb darpariaeth Gymraeg a dwyieithog bresennol** | **57** |


**Siartiau bar – canlyniadau'r ymchwil meintiol**


| | |
|---|---|
| **Tabl 6: Y boblogaeth gyfan** | **89** |
| **Tabl 7: Oedran** | **90** |
| **Tabl 8: Rhyw** | **91** |
| **Tabl 9: Grŵp sosio-economaidd** | **92** |

**DARPARIAETH GYMRAEG A DWYIEITHOG YN Y SECTOR TWRISTIAETH YNG NGHYMRU**

**RHAN 1**

**CYFLWYNIAD**

**Amcanion a chwmpas yr astudiaeth**

Mewn ymateb i strategaeth iaith y Llywodraeth **Iaith fyw: iaith byw** (Llywodraeth Cymru, 2012a) ac wrth weithredu strategaeth dwristiaeth **Partneriaeth ar gyfer twf** (Llywodraeth Cymru, 2013a), datblyga Croeso Cymru (1) (cyfeiria'r rhifau mewn cromfachau at y Nodiadau, tud. 98-99) ystod o bolisïau a gweithgareddau i hyrwyddo a hybu defnydd y Gymraeg a dwyieithrwydd ym maes twristiaeth. Gellir ystyried y mentrau hyn yn rhan o broses **normaleiddio** defnydd y Gymraeg: mae twristiaeth ar flaen y gad o ran ymestyn defnydd y Gymraeg a gwrthsefyll dyfudiad iaith (gweler tud. 13-22 isod).

Yn Rhan 1 gosodir y cyd-destun o safbwynt polisi, cynllunio iaith, marchnata, twristiaeth ddiwylliannol a chanfyddiadau defnyddwyr a busnesau. Ffocws Rhan 2 yw'r ymchwil gwreiddiol.

Amcanion yr astudiaeth oedd:

1. Taflu goleuni ar y newidynnau pwysicaf sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ym maes twristiaeth
2. Cyrraedd dealltwriaeth well o agweddau at yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd ymhlith busnesau twristiaeth (yr ochr gyflenwad yn nhermau economeg) ac ymhlith defnyddwyr (yr ochr alwad)
3. Dangos y prif fylchau gwybodaeth ac awgrymu pynciau ar gyfer ymchwil pellach

Ni chynhaliwyd yr astudiaeth hon at ddibenion academaidd yn unig ond hefyd gyda'r bwriad o gymhwyso'r deilliannau mewn cyd-destun ymarferol, sef llunio darpariaeth Croeso Cymru o ran defnydd yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn y sector twristiaeth. O'r cychwyn cyntaf, felly, roedd gan y prosiect berthnasedd ymarferol uniongyrchol ac fe'i cynhaliwyd gyda chaniatâd a chefnogaeth gyflawn Croeso Cymru.

Yn 2015 bu hysbysebion teledu Croeso Cymru *Does unman tebyg i Gymru/Have you packed for Wales?* (2), hysbysebion radio, deunydd argraffedig, darpariaeth ar gyfer y wefan, cyfryngau cymdeithasol a stondinau arddangosfeydd, yn Gymraeg a Saesneg (3), yn unol â **Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg** (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn ogystal, mae'r Gymraeg a Chymreictod yn ganolog i'r brand a lansiwyd yn swyddogol yn Ionawr 2016 (gweler tud. 8-9) ac yn 2016 eto, cyflawnir pob elfen farchnata yn Gymraeg a Saesneg.

Yng Ngorffennaf 2014, mewn papur byr i'r Bwrdd Cynghori Twristiaeth, amlinellwyd pum blaenoriaeth o ran hyrwyddo defnydd y Gymraeg mewn busnesau twristiaeth, sef:

1. **Graddio**: Defnyddio cynllun sicrhau ansawdd i annog busnesau i gyflwyno'r iaith Gymraeg. Ystyried modd cydnabod iaith a diwylliant o fewn y cynllun graddio.
2. **Cyllido**: Defnyddio cynlluniau grantiau i annog darpariaeth Gymraeg a dwyieithog.
3. **Ymgysylltu rhanbarthol**: Gyda strwythur rhanbarthol newydd o fewn Croeso Cymru, mae cyfle i weithio gyda busnesau unigol a dangos enghreifftiau arfer da yn ogystal â chynnwys ystyriaethau ynghylch yr iaith Gymraeg yn y cysylltiadau arferol â'r diwydiant.
4. **Sgiliau**: Ystyried anghenion ieithyddol busnesau twristiaeth ac annog Cymry Cymraeg i ddilyn gyrfaoedd yn y diwydiant.
5. **Cadwyni / Cwmnïau Mawr:** Annog naws lle mewn gwestai sy'n rhan o gadwyn Brydeinig neu ryngwladol.

Mae cydweithredu â Swyddfa'r Comisiynydd yn ganolog i'r cynllun.

Ystyrir y Gymraeg a Chymreictod yn adnodd (gweler Ruiz, 1984) i wahaniaethu Cymru fel cyrchfan ond ar lefel busnesau unigol mae darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn hollol wirfoddol. O ganlyniad, ceir ystod o ymatebion: rhai busnesau lle mae'r iaith Gymraeg yn hollol ganolog, rhai lle mae'r iaith yn elfen i feithrin naws lle, ac eraill lle ystyrir darpariaeth ddwyieithog yn ymylol neu'n amherthnasol. Yn aml gwelir darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn gost ychwanegol. Dibynna'r dewis ynghylch rôl y

Gymraeg a dwyieithrwydd mewn busnes ar nifer o ffactorau, gan gynnwys proffil y cwsmeriaid, cyfansoddiad ieithyddol yr ardal, agwedd y perchnogion at yr iaith a blaenoriaethau marchnata. Dyma ffocws yr ymchwil gwreiddiol a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth hon.

Bwriedir i ganlyniadau'r astudiaeth hon ddarparu sail tystiolaeth a fydd yn helpu i gyfeirio gwaith Croeso Cymru. Ar yr un pryd, rhaid pwysleisio mai gwaith academaidd annibynnol a gynhaliwyd o safbwynt *ieithyddol* (yn hytrach nag o safbwynt Astudiaethau Busnes neu Farchnata) yw'r prosiect hwn. Y farn a fynegir yw barn yr awdur ac ni adlewyrcha o anghenraid farn y Llywodraeth. Yn ogystal, cymer yr awdur gyfrifoldeb llawn am unrhyw wallau neu ddiffygion yn yr ymchwil.

**Natur yr astudiaeth**

Ceir manylion technegol yr ymchwil gwreiddiol yn yr adran ar Fethodoleg ond, er mwyn sefydlu'r cefndir, roedd dwy gydran gyfategol i'r ymchwil: elfen **ansoddol** ac elfen **feintiol**. Rhoddwyd y pwyslais ar yr ymchwil ansoddol ymhlith busnesau ond roedd yr ymchwil meintiol yn gyflenwol ac ychwanegodd ddimensiwn diddorol arall i'r astudiaeth.

Cynhaliwyd yr ymchwil ansoddol ar ffurf cyfweliadau dwfn, sef sgyrsiau strwythuredig â pherchnogion/rheolwyr sbectrwm o fusnesau twristiaeth. Diben y cyfweliadau oedd ymchwilio i'r ffactorau sydd yn effeithio ar ddarpariaeth ddwyieithog ac hefyd i agweddau'r busnesau at ddarpariaeth ddwyieithog. Yn fras, cyfetyb darpariaeth i **gyflenwad** ond cynhwysa hefyd agweddau ar farchnata a chyflwyno'r cynnyrch, boed ar lefel busnes unigol neu wlad gyfan.

Cynhaliwyd yr ymchwil meintiol ar ffurf dau gwestiwn parthed natur cyfraniad ieithoedd lleol yn gyffredinol, a'r iaith Gymraeg yn benodol, i'r profiad gwyliau. Cynhwyswyd y cwestiynau ar Arolwg Poblogaeth Prydain Fawr, sef panel ar-lein sy'n rhan o Brosiect Gwerthuso Marchnata Croeso Cymru. Yn fras, cyfetyb canfyddiadau'r ymwelwyr i **alwad**, ond mae canfyddiadau'r cyhoedd hefyd yn adlewyrchu agweddau'r defnyddwyr, sydd â pherthnasedd i segmenteiddio a thargedu gwaith marchnata.

## Y CYD-DESTUN A'R CEFNDIR YMCHWIL

### Y CYD-DESTUN POLISI

Deillia sail resymegol Croeso Cymru dros hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg yn y sector twristiaeth o'r cefndir deddfwriaethol a strategaethol.

**Deddfwriaeth**

Sefydlodd **Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)** (Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 1993) yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan y Ddeddf i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith gan wneud darpariaeth ar gyfer paratoi a chymeradwyo cynlluniau iaith Gymraeg cyrff cyhoeddus.

Darparodd **Deddf Llywodraeth Cymru (2006)** (Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2006) y modd i ddosrannu pŵer o'r Senedd Brydeinig i'r Cynulliad. Rhydd y Ddeddf bwerau i'r Cynulliad i greu **mesurau** (cyfreithiau Cymreig) ac yn Atodlen 5, rhestrir ugain maes (gan gynnwys Diwylliant, Twristiaeth a'r Iaith Gymraeg) lle mae gan y Cynulliad bŵer i greu mesurau. Mae'r Ddeddf yn cadarnhau'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, ac yn Adran 78, sefydlir dyletswydd Gweinidogion Cymru (h.y. Llywodraeth Cymru) i fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg i fynegi sut y bwriadant hyrwyddo a hybu defnyddio'r iaith Gymraeg.

Rhoddodd **Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011)** (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011) statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Mesur yn:

- sefydlu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg a diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- gwneud darpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg
- creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar ffurf **safonau** iaith

Yn Ionawr 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen **Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg**. Datblygwyd safonau arfaethedig i osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Llywodraeth ei hun, parthed safonau:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

**Strategaethau**

**Y Rhaglen Lywodraethu** yw cynllun gwaith Llywodraeth Cymru (2011). O ran Diwylliant a Threftadaeth, y nod yw 'Cyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau drwy ein diwylliant a'n treftadaeth' (tud. 46). Cyfeirir at yr iaith Gymraeg fel a ganlyn:

> Mae gennym gyfrifoldeb penodol hefyd i hybu'r iaith Gymraeg. Mae ein hiaith a'n diwylliant yn helpu i wneud Cymru yn lle arbennig i fyw ynddo ac i ymweld ag ef. (tud. 47)

Cynhwysir y camau canlynol i 'Sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd' (tud. 47):

- Cyhoeddi Strategaeth a Chynllun Gweithredu pum mlynedd ar gyfer y Gymraeg (**Iaith fyw: iaith byw**).
- Cyflawni darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (gweler uchod).
- Cynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ein system addysg, ac annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Cyhoeddwyd **Iaith Pawb** (Llywodraeth Cymru, 2003) fel 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog'. Sefydlodd yr egwyddor o **brif-ffrydio**'r iaith Gymraeg wrth ddatblygu polisi gan y Llywodraeth mewn meysydd gwahanol.

Yn ogystal, cydnabuwyd yn y ddogfen y cysylltiad rhwng yr iaith Gymraeg a thwristiaeth. Dyma'r paragraffau perthnasol o'r ddogfen **Iaith Pawb** (tud. 24):

> Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yng Nghymru o safbwynt y swyddi y mae'n eu darparu, y refeniw a ddaw yn ei sgil a'r cymunedau y mae'n helpu i'w cynnal. Mae nifer fawr o gymunedau Cymraeg eu hiaith drwy'r wlad yn dibynnu'n drwm ar dwristiaeth am eu heinioes economaidd. Mae hyrwyddo cynnyrch twristiaeth "Cymru" yn ffordd bwysig ac unigryw o ddenu mwy o

ymwelwyr, ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn benderfynol y dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n sensitif i anghenion y cymunedau y gobeithiwn y byddant yn elwa o'r mewnlifiad o ymwelwyr. Mae'r iaith Gymraeg yn ffactor allweddol i'w ystyried – fel atyniad posib ynddi'i hunan ac er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r iaith o fewn y diwydiant twristiaeth.

Mae'r Gymraeg yn gyswllt grymus ag agweddau diwylliannol a chymdeithasol eraill sy'n cynnig pecyn mor wahanol i dwristiaid yng Nghymru ac yn rhoi mantais gystadleuol dros rannau eraill o'r DU. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn datblygu ei becyn cymorth 'Synnwyr o Le' fel rhan o'i strategaeth twristiaeth ddiwylliannol. Bydd hyn yn golygu dod o hyd i arfer gorau o ran sut i greu synnwyr o le, a sut i'w gynnal a'i ddefnyddio i'r eithaf, a'i rannu â'r rhai sy'n gweithio ym maes twristiaeth – a bydd yr iaith Gymraeg a diwylliant dwyieithog Cymru yn rhan ganolog o hyn.

Mae'r Bwrdd Croeso hefyd yn gweithio gyda gweithredwyr atyniadau yn y sector preifat i ddarparu gwasanaeth dehongli a thywyswyr cyfrwng Cymraeg ac i ddatblygu cronfa ddata o sefydliadau llety lle mae'r staff yn siarad Cymraeg a lle y gall siaradwyr a dysgwyr ddefnyddio'r iaith.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn annog y Bwrdd Croeso i edrych ar ffyrdd o gael mwy o siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn y diwydiant – datblygiad a fyddai'n ategu'r fenter twristiaeth ddiwylliannol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn rhoi nawdd i'r Bwrdd Croeso i ddatblygu ei System Rheoli Cyrchfan a fydd yn galluogi'r diwydiant twristiaeth i gyfathrebu yn Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg fel pwynt gwerthu. Bydd gwasanaeth cyfieithu rhad ac am ddim i'r Gymraeg ar gael i fusnesau sy'n rhoi manylion ar y system o 2003 ymlaen.

**Iaith fyw: iaith byw** (2012a) yw strategaeth gyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn y cyfnod 2012-17. Fe'i paratowyd yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae'n adeiladu ar weledigaeth **Iaith Pawb**.

Y chwe nod a maes strategol yw:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a'u hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg digidol (tud. 16)

Mae'r ddogfen yn sôn am ddwy elfen graidd i bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwireddu Cymru ddwyieithog, sef mesurau i alluogi ac annog plant a phobl eraill i **gaffael** yr iaith. Yn ail, mesurau i alluogi ac annog pobl i **ddefnyddio**'r iaith yn feunyddiol, fel creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, wrth eu gwaith, wrth dderbyn gwasanaethau, ac wrth fwynhau adloniant a hamdden (tud. 14).

Mae'r ail elfen yn berthnasol i dwristiaeth, am fod twristiaeth:

- yn cynnwys tua 8,000 o fusnesau ac yn cyflogi rhyw 123,700 (9.3% o weithlu Cymru) yn uniongyrchol ac yn helpu cynnal rhyw 206,000 o swyddi (14.9% o'r gweithlu) (4)
- yn cynnig gwasanaethau i ymwelwyr o Gymru, gweddill Prydain a thramor
- yn cynnwys cyfleusterau adloniant ac hamdden.

Cyfeiria **Iaith fyw: iaith byw** at Fesur y Gymraeg (2011) fel y sail gyfreithiol i'r safonau ar gyfer 'darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang'. (tud. 20-21)

Mae sôn eto am **brif-ffrydio**'r Gymraeg ar draws Llywodraeth Cymru:

> Bydd Llywodraeth Cymru yn prif ffrydio'r iaith ymhellach i waith datblygu gwasanaethau a datblygu polisi, gan sicrhau ar yr un pryd fod Gweinidogion a swyddogion yn ystyried y cysylltiadau rhwng eu portffolios nhw a'r iaith. I'r perwyl hwn, o dan broses polisi Llywodraeth Cymru, mae gofyn asesu effaith polisïau a gwasanaethau newydd ar y Gymraeg, gan gynnwys gweithgareddau polisi strategol. (tud. 21)

Mae'r strategaeth hefyd yn crybwyll (tud. 22) defnydd yr iaith Gymraeg fel **amod derbyn grantiau** wrth y Llywodraeth, egwyddor sydd eisoes mewn grym yn achos grantiau Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) a weinyddir gan Croeso Cymru.

**Partneriaeth ar gyfer Twf** (Llywodraeth Cymru, 2013a) yw'r strategaeth ar gyfer Twristiaeth yn y cyfnod 2013-2020, sy'n adeiladu ar y strategaeth dwristiaeth genedlaethol flaenorol ar gyfer 2006-13, sef **Cyflawni ein Potensial** (Llywodraeth Cymru, 2006). Cyflwyna **Partneriaeth ar gyfer Twf** weledigaeth lle mae'r diwydiant a Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i gynyddu gwariant ymwelwyr yng Nghymru o 10% neu yn fwy erbyn 2020. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bum prif faes:

- Hyrwyddo'r **Brand**
- Datblygu **Cynnyrch**
- Datblygu **Pobl**

- Perfformiad **Proffidiol**
- Meithrin **Lle**

**YSTYRIAETHAU MARCHNATA**

**Datblygu brand Cymru**

Cyfeiria **Partneriaeth ar gyfer Twf** at ddatblygu'r brand yn y termau hyn:

> Gall datblygu hunaniaeth genedlaethol unigryw a nodedig sbarduno buddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol mesuradwy. Yn y cyd-destun hwn, mae brandio cyrchfannau wedi tyfu'n ddull cynyddol soffistigedig o wahaniaethu rhwng cyrchfannau drwy hyrwyddo'u nodweddion a'u personoliaethau unigryw. Bydd gofyn i frand twristiaeth Cymru atgyfnerthu ac adlewyrchu sefyllfa brand ehangach Cymru. (tud. 18)

Wrth hyrwyddo brand twristiaeth Cymru, sonia'r strategaeth am neges y brand, fel a ganlyn:

> Y nod fydd datblygu brand twristiaeth clir ac apelgar i Gymru sy'n seiliedig ar ein cryfderau gwirioneddol a'n nodweddion unigryw fel cenedl. Rydym am i Gymru gael ei gweld fel lle sy'n falch o groesawu eraill i rannu ei threftadaeth, ei diwylliant, ei harddwch naturiol, ei bwyd a'i lletygarwch cynnes. (tud. 18)

Comisiynwyd yr ymgynghorydd Mike Ashton gan Lywodraeth Cymru i ddarparu argymhellion ar gyfer strategaeth frand lefel uchel. Cyflwynwyd argymhellion drafft yn Rhagfyr 2012:

- Strategaeth lle mae'r cynnyrch (h.y. llety, bwyd, atyniadau, adnoddau naturiol, profiadau ayyb) yn chwarae rôl allweddol i greu rhesymau ffres i ddarganfod Cymru
- Y cynnig bod Cymru yn llawn pethau newydd, cyffrous i'w gweld ac i'w gwneud
- Gwaith creadigol marchnata yn cynnwys rhesymau penodol dros ddod
- Harneisio'r cryfderau i greu profiadau sydd y gorau o'u math
- Datblygu profiadau eiconig

Fodd bynnag, ni soniwyd yn echblyg am iaith a diwylliant.

Mynegwyd y cam nesaf yn y broses mewn cyflwyniad mewnol Croeso Cymru yn Rhagfyr 2014, sef:

- Defnyddio twristiaeth fel banergludydd i'r brand cenedlaethol
- Defnyddio profiadau a straeon o ran cyfathrebu
- Cyflwyno cynhysgaeth o wlad, diwylliant a hanes

- Pwysleisio elfennau ffres, cyfoes, byw a chreadigol.

Crynhoir y fersiwn yma yn y tabl isod:

**Tabl 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Brand Treftadaeth Newydd** | | | |
| **Diwylliannol** | **-** | **Naturiol** | |
| **Gwreiddiol** | | **Hudol** | |
| **Creadigol** | | **Byw** | |
| **Cynigiad: Profiadau hudol mewn llefydd syfrdanol** | | | |
| **Prif themâu** | | | |
| **Treftadaeth y 21ain ganrif** | **Diwylliant Cymreig Byw** | **Tirlun anturiaethau** | **Gwlad Croeso** |
| **Strategaeth buddsoddiad a chronfeydd arloesedd** | | | |
| **Cyfres o themâu blynyddol** | | | |

Clustnodwyd 2016 fel 'Blwyddyn Antur', 2017 fel 'Blwyddyn Chwedlau', sydd o anghenraid yn cynnwys elfennau diwylliannol, a 2020, yn amodol, fel 'Blwyddyn Diwylliant Cymreig go iawn'.

Yn y fersiwn cyfredol mae gan iaith a diwylliant rôl bwysig o ran cyflwyno Cymru, sydd yn amlwg wrth ystyried y prif themâu. Mae bwriad ac uchelgais Croeso Cymru yn eglur: defnyddio iaith a diwylliant yn bositif fel adnodd marchnata, ac fel tystiolaeth o hyn, trac sain hysbyseb teledu Croeso Cymru yn 2014 ledled Prydain oedd Cerys Matthews yn canu *Mil Harddach wyt na'r rhosyn gwyn* yn Gymraeg. Fel y crybwyllwyd ar dud. 2, yn 2015 bu darpariaeth marchnata yn ddwyieithog ar draws y sianeli cyfathrebu. Yn ogystal, yn 2016 cyflawnir pob elfen farchnata yn Gymraeg a Saesneg.

Mae cyngor ar frandio hefyd yn bwysig fel elfen o wasanaeth Busnes Cymru, cangen hyrwyddo busnes Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau busnes yn 2014-15 gyda'r teitl *Cymraeg – y brand busnes* i hysbysu ac hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg mewn busnesau yng Nghymru yn gyffredinol. Elfen a bwysleisiwyd oedd rôl y Gymraeg i ddatblygu brand y busnes er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth y

gystadleuaeth ac i greu hunaniaeth - **pwynt gwerthu unigryw** sydd yn neilltuo'r cynnyrch mewn ffordd apelgar, ystyrlon ac arwyddocaol i'r defnyddwyr.

Yn ogystal, mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cynnal sawl prosiect ymchwil sydd yn dangos buddion yr iaith Gymraeg mewn sectorau penodol. Mae rhai o brif ganlyniadau adroddiad ar Werth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod (Comisiynydd y Gymraeg, 2014) yn berthnasol iawn i'r sector twristiaeth:

- Mae ymdeimlad cryf bod brand Cymraeg a Chymreig o fantais fasnachol oherwydd ei fod yn gwneud i'r cynnyrch sefyll allan (pwynt gwerthu unigryw), ac yn cynnig cyfleoedd i werthu mewn marchnadoedd newydd (tud. 6)
- Gall delwedd Gymraeg a Chymreig atgyfnerthu tarddiad y cynnyrch a bod yn arwydd o arbenigrwydd (tud. 8)

Cefnogwyd y casgliadau hyn gan ymchwil (Sillani, 2006) a gynhaliwyd yn Friûl, yng Ngogledd-Ddwyrain yr Eidal, lle siaredir, yn ogystal a'r Eidaleg, yr iaith Ffriwleg (5). Pwnc yr ymchwil oedd yr ymateb i labeli poteli gwin a'u cynnwys, rhai yn Eidaleg, rhai yn Ffriwleg a rhai yn Saesneg. Yn yr ymchwil hwn

- Roedd 95% o'r ymatebwyr o'r farn bod yr iaith ranbarthol yn addas iawn i gyflwyno cynnyrch o'r rhanbarth
- Yn y prawf lle gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ddewis un math o win i'w brofi a'i flasu, dewisodd 69% y gwin gyda'r label yn Ffriwleg

Casglwyd ar sail yr ymchwil bod gan ieithoedd lleiafrifol rôl bwysig o ran marchnata cynnyrch o'u tiriogaeth ac atgyfnerthu tarddiad y cynnyrch.

**Cysylltiad rhwng y brand a'r cynnyrch**

Ystyrir brandio yn aml yn elfen o **hyrwyddo**, sef ffordd i gyflwyno'r cynnyrch yn effeithiol ac yn gyson, ond adlewyrchir ac ymgorfforir gwerthoedd y brand yn y cynnyrch ei hun. Yng nghyd-destun twristiaeth, gellir dadlau mai'r **cynnyrch yw mynegiant ffisegol y brand**.

Mae'n rhwydd gweld yr egwyddor yma ar waith yn achos busnes unigol, e.e. gwesty/bwyty fel Yr Harbwrfeistr yn Aberaeron, lle mae naws Cymreig a Chymraeg yn ganolog i'r brand ac fe'i mynegir yn ffisegol ym mhob agwedd ar y busnes.

Yn achos gwlad gyfan, gellir ystyried y brand ar yr un llaw mewn termau mwy cysyniadol a haniaethol (e.e. elfennau mewn ymgyrch hysbysebu), ond ar y llaw arall, mae'n rhaid i'r elfennau hyn gael eu seilio ar realiti'r gyrchfan a'r profiadau y bydd y twristiaid yn eu cael yno, i'r brand fod yn argyhoeddiadol ac yn gredadwy.

Yn y sector twristiaeth fe all y cynnyrch fod yn wlad gyfan, ardal neu ddinas, neu fusnes unigol megis gwesty neu atyniad. Ar lefel busnesau unigol, mae gan y perchnogion ryddid llwyr (o fewn ffiniau cyfreithiol a'r adnoddau sydd ar gael) i greu ac i gyflwyno'r busnes ac i sefydlu polisïau ffurfiol neu anffurfiol o ran defnyddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Nid yw Cynlluniau na Safonau Iaith yn cyffwrdd â busnesau preifat ar hyn o bryd, ac felly mae darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn hollol wirfoddol. O ganlyniad, ceir ystod o ymatebion. Yn y pen draw, **dewis busnes yw hwn**.

Ar lefel gwlad gyfan neu ardal, nid oes gan yr awdurdodau twristiaeth reolaeth uniongyrchol dros y cynnyrch i gyd ond mae rhai atyniadau dan reolaeth awdurdodau cyhoeddus megis safleoedd Cadw a changhennau Amgueddfa Cymru, lle mae'r ddarpariaeth yn hollol ddwyieithog, yn unol â pholisïau dwyieithog y cyrff hynny. Ymhellach, fe all awdurdodau cyhoeddus ddylanwadu ar ddarpariaeth y sector preifat i ryw raddau drwy wneud elfennau o ddarpariaeth iaith Gymraeg a dwyieithog (e.e. arwyddion a bwydlenni) yn amod cynlluniau grantiau. Yn ogystal, fe all cyrff cyhoeddus annog defnydd yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd drwy roi gwybodaeth am y manteision posibl i'r busnes (e.e. Swyddfa'r Comisiynydd), creu pecynnau gyda chyngor a chanllawiau ynghylch meithrin naws lle (e.e. Croeso Cymru), ac esbonio pwysigrwydd y gwaith yma yng nghyd-destun y brand cenedlaethol ac ymgyrchoedd marchnata ar lefel Cymru gyfan.

**Naws lle**

Fel y sylwa Hall a Page (2014: 166):

> One of the most important concepts in humanistic geography is that of a 'sense of place'. A sense of place arises when people feel a particular attachment or personal relationship to an area in which local knowledge and human contacts are meaningfully maintained.

Cyfeiria naws lle at yr hyn sydd yn unigryw am gyrchfan (e.e. gwlad, ardal, tref neu westy/busnes llety unigol) ac sydd yn creu teimlad o le a fyddai'n amhosib ei gael yn

unrhyw fan arall. Fel y mae Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Ddiwylliannol 2012-15 Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru, 2012b) yn nodi, mae sicrhau profiad unigryw a chwbl Gymreig yn ffactor pwysig ar gyfer bodloni ymwelwyr. Cyfeirir at ganlyniadau Arolwg Ymwelwyr Cymru 2011, sy'n dangos bod

> dros draean (35%) o ymwelwyr â Chymru o'r Deyrnas Unedig yn dweud ei bod hi'n 'bwysig iawn' sicrhau bod ymweliadau yn cynnig profiadau cwbl unigryw i Gymru nad oes modd eu profi yn unman arall a dywedodd traean arall (32%) fod hyn yn eithaf pwysig. Ymysg yr ymwelwyr o dramor, credai 57% ei bod hi'n bwysig bod ymweliadau yn cynnig profiadau sy'n unigryw i Gymru.

Dadleua Pujolar (2006: 25) mai *gwahaniaeth* mewn perthynas â diwylliant yr ymwelwr (cyn belled ag y mae'r gwahaniaeth hwn yn berthnasol ac yn ddiddorol) yw sail twristiaeth ddiwylliannol. Nid yw hunaniaeth y gymuned leol o safbwynt y gymuned honno yn bwysig ond yn hytrach sut y mynegir yr hunaniaeth yma yn allanol. Fel esbonia Viallon:

> On peut même affirmer que, sans différences, il ne peut pas y avoir de tourisme, c'est l'altérité qui fonde le tourisme. La communication touristique est un discours entre l'identité et l'altérité et c'est la dimension interculturelle de cette demande qui fait son attrait. (Viallon, 2004: 193)

Wrth gwrs, mae nifer fawr o ffactorau yn cyfrannu at naws lle, gan gynnwys bwyd a diod, y tirlun, cysylltiadau â phobl, ond mae gan iaith a diwylliant rôl ganolog.

Yn **Partneriaeth ar gyfer Twf**, mae'r adran ar Feithrin lle yn sôn am gynaliadwyedd amgylcheddol, ansawdd cyfleusterau, a phrofiadau 'go iawn' er mwyn cynyddu bodlonrwydd ymwelwyr. Mae'n cyfeirio at ddiwylliant lleol a rôl cymunedau lleol ym mhroses hyrwyddo a chreu profiadau (tud. 25). Ymhellach, yn yr adran ragarweiniol lle sonnir am bwysigrwydd twristiaeth, cyfeirir at adnoddau twristaidd Cymru, gan gynnwys yr iaith a'r diwylliant, yn y termau hyn:

> Mae twristiaeth yn ymrwymo i dwf cynaliadwy, ac yn sector sy'n llwyr gydnabod bod angen diogelu a gwarchod y nodweddion hynny sy'n denu ymwelwyr i Gymru fel y dirwedd, yr iaith, y diwylliant a'r dreftadaeth, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan greu gwerth a swyddi tymor hir ar gyfer ein cymunedau i gyd. (tud. 7)

Yn y **Cynllun Gweithredu Fframwaith Blynyddoedd 1-3** (Llywodraeth Cymru, 2013b), mae sôn am 'wella enw da Cymru fel cyrchfan sy'n darparu amrywiaeth o brofiadau

unigryw – yn cynnwys treftadaeth, cerddoriaeth, y celfyddydau, bwyd, diwylliant cyfoes, hynafiaid a digwyddiadau'. (tud. 16)

Yn yr adran ar Feithrin lle (tud. 18), mae cyfeiriad echblyg at yr iaith Gymraeg pan sonnir am 'Annog mwy o fusnesau a chyrchfannau i greu naws unigryw o le i ymwelwyr sy'n defnyddio'r gorau o'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith' drwy:

1. Ddatblygu gwybodaeth a phecyn cymorth ar-lein i'r diwydiant i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau Naws am Le a chael busnesau i gymryd rhan ynddynt.

2. Darparu cyngor busnes ac astudiaethau achos i gefnogi lefelau uwch o Naws am Le a ffyrdd o ddod â'r lle yn fyw.

**YSTYRIAETHAU IEITHYDDOL**

I ddeall arwyddocâd ieithyddol ymdrechion i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y sector twristiaeth, rhaid gosod y datblygiadau mewn cyd-destun ecoleg iaith, bywioldeb ieithoedd lleiafrifol a chynllunio iaith.

**Ecoleg iaith**

Yng nghyd-destun globaleiddio, mae rhai ieithoedd yn cynyddu o ran niferoedd eu siaradwyr a'u meysydd defnydd, tra bod llawer o ieithoedd eraill yn colli tir. Yn sicr, mae nifer siaradwyr y Gymraeg wedi gostwng yn sylweddol dros y ganrif ddiwethaf. Yn ôl ystadegau cyfrifiad 1911, bu dros 977,000 o Gymry Cymraeg, ond erbyn cyfrifiad 2011, ond 562,000 oedd yn medru'r iaith (5).

Pwysleisir gan nifer o awdurdodau, gan gynnwys García (1992), Crystal (2000), Williams (1991) a Baker (2011), agwedd ecolegol ar ieithoedd a diwylliant, yn debyg i ecoleg ym myd natur. O'r safbwynt ecolegol hwn, ystyrir difodiant iaith fel colled ddifrifol o ran cyfoeth diwylliannol y byd ac hefyd o ran diwylliant ac hunaniaeth y siaradwyr. Cydnabyddir yr agwedd ecolegol ar iaith a diwylliant yn fwyfwy ar lefel ryngwladol, ac fe'i hadlewyrchir yn y mentrau a chytundebau gwahanol i ddiogelu ieithoedd a diwylliannau, megis y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol (Cyngor Ewrop, 1992), y Confensiwn Fframwaith ar Amddiffyn Lleiafrifoedd Cenedlaethol (Cyngor Ewrop, 1995), Datganiad Cyffredinol ar Amrywiaeth Ddiwylliannol (UNESCO, 2001), Confensiwn ar Ddiogelu'r Dreftadaeth

Anghyffwrddadwy (UNESCO, 2003) a'r Confensiwn ar Ddiogelu a Hyrwyddo Amrywiaeth Mynegiadau Diwylliannol (UNESCO, 2005).

Pan ddaw dwy iaith mewn cyswllt, ceir rhyngweithiad deinamig rhyngddynt. Fel arfer mae patrwm defnydd yr ieithoedd yn newid dros amser i ffafrio un iaith ar draul y llall. Mae **dyfudiad** yn cyfeirio at ostyngiad o ran bywioldeb a all arwain at **dranc** iaith. Ar yr llaw arall, gall cyfuniad o ffactorau positif arwain at **adfywiad** iaith, sef cynnydd yn ei bywioldeb. Mae ymdrechion i hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg yn y sector twristiaeth yn cyfrannu at broses adfywio.

**Peuoedd defnydd**

Cyfeiria Fishman (1972), yn ei drafodaeth ar arferion ieithyddol dwyieithogion, at **beuoedd** i ddynodi meysydd defnyddio iaith. Yn ôl Fishman, teulu, cyfeillgarwch, crefydd, addysg a chyflogaeth yw'r peuoedd pwysicaf. Rhestra Baker (2011: 5) ddeg enghraifft o beuoedd cyd-destunol, gan gynnwys siopa, cyfryngau (teledu, radio ayb), gwaith, gohebiaeth, hamdden, cyfarfodydd crefyddol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Pwysleisia Baker fod dewis yr iaith a ddefnyddir ym mhob pau yn ddibynnol ar sawl newidyn megis y siaradwr, y gwrandäwr, y sefyllfa neu gyd-destun, testun y sgwrs a'r diben. Mae cysyniad peuoedd yr un mor ddefnyddiol a dilys ar lefel gwlad neu gymdeithas gyfan lle siaredir dwy iaith. Yn ogystal, gallwn ychwanegu twristiaeth fel pau defnydd arall.

**Dwylosia**

Bathwyd y term **dwylosia** (*diglossia*) yn wreiddiol gan Ferguson (1959) i ddynodi defnydd *dwy ffurf ar yr un iaith* - ffurf 'uchel' a ffurf 'isel' o ran statws a swyddogaethau (e.e. Uchel Almaeneg ac Almaeneg y Swistir). Fodd bynnag, dewisodd Fishman (1972) y term i gyfeirio at *ddwy iaith wahanol* yn yr un wlad, yr un â statws 'uchel' a ddefnyddir ar gyfer swyddogaethau statws uchel (megis y llywodraeth, masnach ayyb), a'r llall â statws isel a ddefnyddir yn bennaf yng nghyd-destunau anffurfiol a statws isel.

Gellir dirnad sefyllfaoedd dwylosaidd yn sgil gwladychu hanesyddol tramor yn ogystal â 'gwladychu mewnol' megis yn achos Cymru a Llydaw (Khleif, 1980: 15-23). Yn

nodweddiadol, bu gan ieithoedd y gwladychwyr (e.e. Saesneg a Ffrangeg) statws uchel ac fe'u defnyddiwyd ym mhob cyd-destun swyddogol. Ar y llaw arall, bu gan yr ieithoedd brodorol statws isel, a bu tueddiad i gyfyngu defnydd yr ieithoedd hyn i beuoedd anffurfiol, answyddogol ac o statws isel.

Pan geir **dwylosia** gydag anghyfartaledd mewn perthnasau pŵer, mae tueddiad gryf i siaradwyr yr iaith 'isel' ddysgu'r iaith 'uchel' (ac felly i ddod yn ddwyieithog) am resymau offerynnol amlwg (e.e. ennill bywoliaeth, sicrhau cyflogaeth, manteisio ar gyfleoedd cymdeithasol a gwleidyddol), yn enwedig pan fedda siaradwyr yr iaith 'uchel' ar y moddion cynhyrchu yn nhermau Marcsaidd ac ar beirianweithiau pŵer. Yng Nghymru, gellir olrhain y tueddiad yma i Ddeddf Uno Cymru a Lloegr ym 1536. Yn ôl telerau'r Ddeddf, bu'n angenrheidiol i fedru siarad Saesneg i ddal unrhyw swydd gyhoeddus:

> ...from henceforth no Person or Persons that use the Welch Speech or Language shall have or enjoy any Manner Office or Fees within this Realm of England, Wales, or other of the King's Dominion, upon Pain of forfeiting the same Offices or Fees, unless he or they use and exercise the English Speech or Language. (Y Ddedf Uno, 1536, Adran 20)

O ganlyniad, yn hanesyddol ac hyd at yn ddiweddar, mae defnydd yr iaith Saesneg wedi bod yn gyffredinol ym mron pob pau 'swyddogol' megis gweinyddiaeth, masnach a busnes. Yn wir, hyd at oddeutu 1980, bu defnydd yr iaith Gymraeg ym musnesau twristiaeth yn anarferol iawn. Wrth gwrs, bu eithriadau megis rhai atyniadau sector cyhoeddus (e.e. Amgueddfa Sain Ffagan) ond cyfyngedig dros ben oedd defnydd y Gymraeg ymhlith busnesau llety ac atyniadau masnachol.

Ar wahân i'r arfer hanesyddol i ddefnyddio'r Saesneg yng nghyd-destunau masnachol, roedd efallai cyfiawnhad ymarferol hefyd: deuai mwyafrif helaeth yr ymwelwyr o Loegr a siaradai Saesneg. Un o egwyddorion gwerthu yw cyfathrebu yn iaith y farchnad, fel y mae dyfyniad enwog Cyn-ganghellor yr Almaen, Willy Brandt (7) yn tanlinellu:

> If I am selling to you, I speak your language. If I am buying, dann müssen Sie Deutsch sprechen.

**Bywioldeb iaith**

Defnyddir y term **bywioldeb iaith** i ddynodi cyflwr iaith mewn perthynas â'i defnydd mewn cyd-destunau gwahanol a'i derbyniad cyffredinol mewn cymdeithas. Mae ystod eang o newidynnau yn dylanwadu ar fywioldeb iaith:

- **Ffactorau demograffig**
- **Ffactorau ieithyddol**
- **Ffactorau addysgol**
- **Ffactorau cymdeithasol, cymunedol a diwylliannol**

Fodd bynnag, gellir cysylltu ymdrechion i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y sector twristiaeth yn bennaf â:

- **Ffactorau gwleidyddol, statws a sefydliadol** (gan gynnwys **cynllunio iaith**), a
- **Ffactorau economaidd**

Chwery **ffactorau gwleidyddol** rôl bwysig mewn perthynas â bywioldeb iaith. Soniwyd uchod am effaith negyddol y Ddeddf Uno ar yr iaith Gymraeg. Mae ddeddfwriaeth megis **Deddf yr Iaith Gymraeg** (Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 1993), **Deddf Llywodraeth Cymru** (Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2006), **Mesur y Gymraeg** (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011) wedi codi statws y Gymraeg, ac anoga strategaethau cysylltiedig megis **Iaith fyw: iaith byw** (Llywodraeth Cymru, 2012a) ei defnydd ehangach. Ond fel y sylwa Bourdieu, mae gwaith adfywio iaith yn frwydr hollol:

> Those who seek to defend a threatened language are obliged to wage a total struggle. One cannot save the value of a competence unless one saves the market, in other words, the whole set of political and social conditions of production of the producers/consumers. (Bourdieu, 1991: 57)

**Cynllunio iaith**

Mae **cynllunio iaith** gan amlaf yn ymateb o ran y llywodraeth i hybu a chefnogi'r iaith. Cyfeiria Baker (2011: 52-53) at bedair elfen mewn perthynas â chynllunio iaith yng Nghymru ar hyn o bryd: **cynllunio statws** (e.e. hybu defnydd yr iaith mewn peuoedd swyddogol, sicrhau statws swyddogol a hawliau i'r siaradwyr), **cynllunio corpws** (8), **cynllunio caffael** (9) a **chynllunio defnydd a chyfle** (creu neu wella cyfleodd i

ddefnyddio'r iaith yn ymarferol ym mywyd cymdeithasol, yn y gweithle ac ym mywyd beunyddiol yn gyffredinol).

O bersbectif cynllunio iaith, gellir lleoli bwriadau Croeso Cymru i hybu darpariaeth iaith Gymraeg a dwyieithog yn bennaf yn y pedwerydd categori ond mae'r gwaith yn cyfrannu at y categori cyntaf hefyd, sef codi statws yr iaith. O ran cyflogaeth yn y sector a defnydd yr iaith gan Gymry Cymraeg ar eu gwyliau neu deithiau eraill yng Nghymru, gellir ystyried y gwaith arfaethedig yn rhan o broses **normaleiddio** defnydd y Gymraeg ym maes twristiaeth, pau a ddominyddwyd yn hanesyddol gan ddarpariaeth uniaith Saesneg (gweler Villatoro (2010) am fanylion proses normaleiddio, sef rhoi blaenoriaeth i'r Gatalaneg i 'gywiro' dominyddiaeth hanesyddol y Sbaeneg yng Nghatalonia).

**Swyddogaeth ieithyddol**

Wrth swyddogaeth ieithyddol, golygir at ba ddiben ac i ba bwrpas y defnyddir yr iaith. Y rheswm mwyaf amlwg a chyffredin yw i gyfathrebu gwybodaeth ffeithiol. Sail y defnydd, felly, yw **defnyddioldeb** a'r angen sylfaenol yw bod y gynulleidfa darged yn deall y cyfathrebiad.  Dyma'r rheswm y gwneir mwyafrif y cyfathrebiadau ynghylch twristiaeth yn iaith y farchnad (neu drwy gyfrwng iaith a ddeellir gan gynulleidfa eang - Saesneg gan amlaf).

Fodd bynnag, mae gan ieithoedd swyddogaethau diddorol **symbolaidd** eraill. Tyn Pujolar (2006: 31-33) sylw at ddefnydd helaeth o ieithoedd tramor ym myd hysbysebu er mwyn:

- Denu sylw a gwneud i'r cynnyrch sefyll allan
- Creu newydd-deb
- Uniaethu â'r gwerthoedd a gysylltir â'r iaith honno neu'r wlad lle y'i siaredir, e.e. Vorsprung durch Technik  yn hysbysebion ceir Audi.  Pwrpas defnydd yr Almaeneg yw pwysleisio tarddiad y cynnych ac enw da yr Almaen o ran ansawdd technoleg a dibynadwyedd y cynnyrch

Fel y sylwa Pujolar (2006: 31-34), nid yw'r darllenwyr o reidrwydd yn deall iaith y cyfathrebiadau: y nod yw cyfathrebu delwedd.  Gall iaith fod yn adnodd o ran

marchnata a datblygu.  Yn y sector twristiaeth, fe all defnydd symbolaidd y Gymraeg fod yn effeithiol

- fel adnodd marchnata (e.e. rhan o frand Cymru)
- fel adnodd datblygu (e.e. rhan o waith meithrin lle a gwahaniaethu'r cynnyrch)
- er mwyn codi statws a phresenoldeb gweladwy'r iaith yn rhan annatod o'r Gymru gyfoes (gweler y drafodaeth ar epocaliaeth a hanfodaeth isod)
- Creu hunaniaeth / delwedd i'r cynnyrch (e.e. labeli bwyd a diod)
- Cyfoethogi profiad yr ymwelwyr

**Ffactorau economaidd**

Fel y pwysleisia Ó Riagáin (2000), Hornberger a King (2001) a Spolsky (2004), mae ffactorau **economaidd** yn ganolog i ffyniant iaith leiafrifol.  Cynhwysa **Giles, Bourhis a Taylor** (1977) statws economaidd ymhlith y ffactorau  sy'n effeithio ar fywioldeb iaith. Ymhellach, sonia Crystal (2000) am gyfoeth economaidd cymharol siaradwyr yr iaith leiafrifol fel un o'r ffactorau a all gefnogi ffyniant yr iaith honno.

Cydnebydd Dylan Phillips (2014) gyfraniad pwysig twristiaeth i economi Cymru, yn enwedig i economi rhai ardaloedd gwledig yn y fro draddodiadol Gymraeg. Fodd bynnag, honna fod cyflwr presennol rhai cyrchfannau poblogaidd megis Llandudno, Rhyl ac Abersoch yn profi mai pris hir-dymor twristiaeth yw erydu iaith a chymuned. Noda fod diffyg ymchwil ar effaith twristiaeth ar iaith a diwylliant yn rhyfedd, yn enwedig am fod canran sylweddol o dwristiaeth yn Ewrop mewn ardaloedd lle siaredir ieithoedd lleiafrifol. Ar sail ymchwil, awgryma mai mewnfudo yw'r bygythiad pennaf i iaith a chymunedau'r Fro Gymraeg, ond dengys fod cysylltiad rhwng mewnfudo a thwristiaeth am fod mwyafrif helaeth y mewnfudwyr wedi treulio gwyliau yn yr ardal ac, ymhellach, fod cydberthynas rhwng prynu cartrefi gwyliau a'r penderfyniad i ymddeol yn yr un ardal. Casgla fod gan dwristiaeth rôl o ran creu swyddi a hyrwyddo hunaniaeth yn seiliedig ar yr iaith a diwylliant a allai fod o les mawr i'r iaith. Noda fod yr ymatebwyr yn ymwybodol o fanteision twristiaeth o ran yr economi a chyflogaeth ac yr oeddynt yn hapus i weld datblygiad pellach ar yr amod ei fod yn cael ei reoli'n lleol. Credai ymatebwyr hefyd y dylid gwneud yn fwy o'r Gymraeg yn y sector twristiaeth.

Cyfeiria Baker (2011: 425-426) at waith Strubell (2001), sy'n dangos canologrwydd ffactorau economaidd a'u heffaith ar ddatblygiadau ym meysydd cysylltiedig. Drwy ddefnyddio trosiad 'Olwyn Gatrin', sef troell 'rinweddol' gynyddol, dadleua fod cynnydd o ran canfyddiad defnyddioldeb a statws iaith yn arwain at gynnydd yn y cymhelliant i ddysgu a defnyddio'r iaith. Yn ei dro, arwain hyn at ragor o bobl yn dysgu'r iaith, a chynnydd yn y galwad am nwyddau a gwasanaethau yn yr iaith. Arwain hyn at gynnydd yn nefnydd a gwasanaethau yn yr iaith, ac unwaith eto at ganfyddiad defnyddioldeb a statws uwch i'r iaith.

**Epocaliaeth ac hanfodaeth**

Gellir ystyried ymdrechion i ehangu defnydd iaith leiafrifol i beuoedd ychwanegol o safbwynt **epocaliaeth** (epochalism) ac **hanfodaeth** (essentialism) sydd yn gysyniadau canolog yng ngwaith dylanwadol Geertz (1993) ar ddiwylliant ac ôl-wladychiaeth. Cyferbynna Geertz epocaliaeth (sef ysbryd yr oes, moderniaeth, cynnydd cymdeithasol a thechnolegol) â hanfodaeth (sef pwyslais ar y ffordd draddodiadol, frodorol, ar werthoedd traddodiadau'r gymuned). Gellir dirnad cysylltiad agos â chysyniad dwylosia Fishman (gweler tud. 14-15), lle mae gan un iaith statws uchel a'r llall statws isel.

Fel y trafodwyd uchod, yn sgil Deddf Uno 1536, bu tueddiad i fabwysiadu'r Saesneg ym mheuoedd swyddogol a masnachol (epocaliaeth) ac i ddiraddio'r Gymraeg i beuoedd y gymuned, y teulu a chrefydd (hanfodaeth).

Ys dywed Geertz (1993: 241-242):

> ...the "language issue" turns precisely on the essentialism-epochalism dilemma.
>
> The underlying issue .... is not whether this or that language is "developed" or "capable of development"; it is whether this or that language is psychologically immediate and whether it is an avenue to the wider community of modern culture.

Mae'r ddeddfwriaeth a'r strategaethau diweddar i gyd yn helpu i godi statws y Gymraeg ac i hyrwyddo ei defnydd. Gellir dirnad yn yr ymdrechion i ehangu defnydd y Gymraeg i beuoedd lle nad oedd ei phresenoldeb yn arferol (e.e. twristiaeth), ddymuniad i newid y ffiniau ieithyddol blaenorol. Gellir dadlau bod y craidd disgyrchiant yn newid o bwyslais ar hanfodaeth i gyfeiriad epocaliaeth ac, yn rhan o'r

symudiad hwn,  gellir dirnad dymuniad i ddarparu rôl fwy cyfoes, cyfredol a gweithredol i'r Gymraeg.

**Newid paradeim**

Gellir ystyried y symudiad o bwyslais ar hanfodaeth i bwyslais mwy cyfoes, gweithredol, epocalaidd, yn rhan o newid paradeim ehangach a amlygir ar draws nifer o ddimensiynau rhyng-gysylltiedig. Gellir mynegi hyn ar ffurf cyfres o gontinwa ar sail cyferbyniadau deuol.  Er bod Tabl 2 o anghenraid yn gorsymleiddio, dengys y prif dueddiadau  yn eglur ac yn gryno, gan gyflwyno cyd-destun tanorweddol hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector twristiaeth.  Gellir dirnad symud pwyslais tuag at ochr dde'r tabl. Gwelir patrwm tebyg ar draws rhanbarthau Ewrop (e.e. Catalonia, Gwlad y Basg).

**Tabl 2**

| | Yr hen baradeim | → | Paradeim newydd |
|---|---|---|---|
| **Llywodraeth:** | **Model y genedl-wladwriaeth (neu ymerodraeth)** | **→** | **Model datganoli** |
| | **Gwladychu mewnol** | **→** | **Hunanbenderfyniad** |
| **Pŵer** | **Pŵer canolog** | **→** | **Pŵer wedi'i ddatganoli** |
| **Iaith** | **Un iaith swyddogol ar lefel y genedl-wladwriaeth** | **→** | **Cydnabyddiaeth sawl iaith ranbarthol a hawliau i'w siaradwyr** |
| | **Pwyslais ar un iaith yn unig** | **→** | **Cefnogaeth swyddogol i ieithoedd lleiafrifol** |
| | **Statws uchel i'r iaith fwyafrifol** | **→** | **Statws cynyddol i ieithoedd lleiafrifol** |
| | **Defnydd yr iaith fwyafrifol** | **→** | **Defnydd ieithoedd lleiafrifol ym mheuoedd statws uchel mewn nifer cynyddol o beuoedd** |
| **Ideoleg: Agwedd at ieithoedd lleiafrifol** | **Problem** | **→** | **Adnodd** |
| **Diwylliant** | **Cymathu i brif ffrwd y genedl-wladwriaeth** | **→** | **Plwraliaeth** |
| **Addysg** | **Cymathu, unieithrwydd** | **→** | **Plwraliaeth, dwy- ac amlieithrywydd** |
| **Pwyslais** | **Undod cenedlaethol ar lefel y wladwriaeth** | **→** | **Plwraliaeth** |
| **Hunaniaeth** | **Ar lefel y wladwriaeth** | **→** | **Ar lefel 'ranbarthol' (o safbwynt y wladwriaeth)** |
| | **Prydeindod** | **→** | **Cymreictod** |
| **Symbolau** | **Jac yr Undeb** | **→** | **Y Ddraig Goch** |

Gellir dadansoddi'r sefyllfa yn nhermau gwrthdaro dau baradeim, yr un paradeim yn gysylltiedig â Phrydeindod, yr ymerodraeth Brydeinig a lle canolog y Saesneg, y llall yn

gysylltiedig â Chymreictod, datganoli ac ymestyn (normaleiddio) defnydd yr iaith Gymraeg ar draws peuoedd 'newydd'.

Ar lefel Brydeinig, erys y pwyslais ar yr hen baradeim trechol, ond yng Nghymru (fel mewn rhanbarthau eraill yn Ewrop megis Catalonia a Gwlad y Basg), mae'r llanw yn troi'n raddol i ffafrio'r paradeim newydd.
Yn achos Cymru, er y gellir dirnad tueddiad graddol o ran newid meddylfryd i gyfeiriad ochr dde'r tabl, nid yw hwn yn hollol gyson. Mae agweddau nodweddiadol sy'n gysylltiedig â'r hen baradeim yn dal i fod yn ddylanwadol. Gellir ystyried twristiaeth, felly, fel blaen y gad o ran y gwrthdaro rhwng y paradeimau hyn.

**TWRISTIAETH DDIWYLLIANNOL**

Mae'n bosibl olrhain gwreiddiau twristiaeth ddiwylliannol i'r Rhufeiniad ac yn sicr i draddodiad y Daith Fawr. Yn ystod cyfnod o bron dwy ganrif - o tua 1660 i 1840 a dyfodiad y rheilffyrdd - bu'r Daith Fawr yn boblogaidd fel defod newid byd i orffen addysg meibion y bendefigaeth Seisnig (yn bennaf). Prif bwrpas ymgymryd â'r Daith Fawr oedd profi etifeddiaeth ddiwylliannol yr Henfyd clasurol, sef gwreiddiau'r Gwareiddiad Gorllewinol, yn ogystal â thrysorau diwylliannol y Dadeni Dysg. Bu'r Daith Fawr, a oedd yn para yn nodweddiadol am sawl mis neu hyd y oed sawl blywyddyn, yn nodweddiadol yn cynnwys ymweliadau estynedig â dinasoedd fel Rhufain a Fenis ac, felly, yn rhoi'r cyfle i brofi eu cyfoeth celfyddydol, pensaernïol ac hanesyddol. Yn ogystal, roedd y Daith yn rhoi'r cyfle i'r uchelwyr ifanc gymysgu yng nghylchoedd pendefigaidd cyfandir Ewrop.

Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, estynnid traddodiad y Daith Fawr i gynnwys rhagor o deithwyr dosbarth canol, yn enwedig yn sgil gwelliannau trafnidiaeth megis datblygiad y rheilffyrdd ac agerlongau, a bu'r diwydiant teithio masnachol, e.e. cwmnïau fel Thomas Cook, a Wagons-Lits yn chwarae rôl ymarferol bwysig ym mhroses dod â theithio o fewn cyrraedd cynulleidfa lawer ehangach ac, felly, yn ei democrateiddio.

Yng nghyd-destun twristiaeth gyfoes, fel y sylwa Tighe (1986), cydnabuwyd twristiaeth ddiwylliannol yn gategori ar wahân yn y 70au pan sylweddolodd marchnatwyr ac ymchwilwyr fod rhai pobl yn teithio yn benodol i gael dealltwriaeth ddyfnach o

ddiwylliant neu dreftadaeth y cyrchfan. Yn gyntaf, ystyrid twristiaeth ddiwylliannol yn weithgaredd graddfa fychan ac arbenigol. Credid bod y math twristiaeth yn nodweddu teithiau nifer fychan o dwristiaid addysgedig a chymharol gyfoethog a edrychai am rywbeth ar wahân i dywod, haul a môr. Erbyn heddiw, cydnabyddir twristiaeth ddiwylliannol yn weithgaredd proffil uchel marchnad dorfol.

Yn ôl Mc Kercher a du Cros (2012: 1), yn dibynnu ar y cyrchfan, y ffynhonnell a'r diffiniad, gellir ystyried rhwng 35% a 70% o dwristiaid rhyngwladol yn dwristiaid diwylliannol. Os seilir y diffiniad ar weithgareddau'r twristiaid, mae ffigurau Croeso Cymru yn cefnogi'r farn hon: yn ôl Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, ffynhonnell ystadegau swyddogol ar dwristiaeth dros nos gan drigolion Prydain i gyrchfannau ledled Prydain, mae rhyw 35% i 40% o deithiau i Gymru yn cynnwys rhyw elfen ddiwylliannol (e.e. ymweliad â chastell), a dengys Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013 fod 61% o ymwelwyr tramor yn ymweld â chastell (yn codi i 68% ymhlith Americanwyr) a 56% o dramorwyr yn ymweld (neu yn bwriadu ymweld) ag amgueddfa yn ystod eu harhosiad yng Nghymru.

Tyn Font a Vidal-Folch (2003) sylw at y ffaith bod tri allan o bob pedwar o dwristiaid sy'n ymweld â Barcelona yn gwneud o leiaf un ymweliad diwylliannol, a gwêl Pujolar (2006: 15) dwristiaeth ddiwylliannol fel 'allwedd i'r dyfodol', gan dynnu sylw at y ffaith bod twristiaid sy'n ymddiddori mewn diwylliant yn dueddol o wario yn fwy ac o beri llai o effaith niweidiol ar yr amgylchfyd. Pwysleisia Pujolar rôl diwylliant fel ffactor i wahaniaethu rhwng cyrchfannau ac, felly, adnodd o ran marchnata.

Ar lefel fyd-eang, mae awdurdodau twristiaeth a sefydliadau megis UNESCO a'r World Tourism Organization (WTO) yn ystyried twristiaeth diwylliannol yn un o'r elfennau pwysicaf ym mhroses hybu amrywiaeth diwylliannol a datblygiad economaidd. Ymhellach, mae Confensiwn ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anfaterol UNESCO (2003) yn sôn am iaith fel rhan annatod o'r dreftadaeth yma.

Y farn gyffredinol yw bod twristiaeth ddiwylliannol ar gynnydd ac fe'i crybwyllir yn strategaethau awdurdodau twristiaeth niferus. Tyn Richards (2003) sylw at ffigurau Grŵp Treftadaeth Ewrop sy'n dangos cynnydd o 100% yn nifer yr ymweliadau ag amgueddfeydd, henebion a safleoedd archeolegol rhwng 1977 a 1997, ac i

amcangyfrifon eraill sy'n awgrymu cynnydd o 25% mewn ymweliadau ag amgueddfeydd ac henebion ar draws Ewrop rhwng 1982 a 1995 (Richards, 1996). Noda Richards fod sawl rheswm am y cynnydd sylweddol hwn, gan gynnwys:

- Cynnydd yn nifer y dwristiaid yn gyffredinol
- Cynnydd y diddordeb mewn diwylliant oherwydd cynnydd mewn lefelau addysg
- Cynnydd ym mhwysigrwydd cysyniad treftadaeth, efallai yn gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio
- Datblygiad atyniadau diwylliannol newydd, dychmygus a gwelliant yn nulliau dehongli diwylliant
- Buddsoddiad sylweddol mewn datblygiadau diwylliannol, e.e. fel rhan o brosiectau datblygu economaidd a gyllidwyd gyda chymorth yr Undeb Ewropeaidd.

Awgryma Mc Kercher a du Cros (2012: 1) fod pob taith yn cynnwys elfen ddiwylliannol am fod teithio, o'i hanfod, yn ymwneud â symud i leoliad ac amgylchfyd diwylliannol arall, boed dinas gyfagos neu bentref ar yr ochr arall i'r byd. Yng Nghynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Ddiwylliannol 2012-2015 (CG ar DDd) (Llywodraeth Cymru, 2012b) cytuna Croeso Cymru fod twristiaeth ddiwylliannol, fel diwylliant ei hun, yn gysyniad cynhwysfawr ac agored:

> Cred Croeso Cymru fod twristiaeth ddiwylliannol yn golygu twristiaeth y mae diwylliant yn rhan annatod ohoni, sef pob twristiaeth mewn gwirionedd. Yn ymarferol, mae pob agwedd ar ddiwylliant Cymru yn cyfrannu at dwristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru gan gynnwys:
>
> Celfyddydau perfformio, gweledol a llenyddol, amgueddfeydd, treftadaeth adeiledig a chymdeithasol, tirweddau a gerddi hanesyddol, crefftau, pensaernïaeth, dylunio, ffilm, crefydd, darlledu a bwyd. Mae'r rhain oll yn cynnwys y Gymraeg a'r Saesneg, mathau traddodiadol, cyfoes, newydd, proffesiynol ac amatur o fynegiant diwylliannol.

Ymhellach, tyn CG ar DDd sylw at brofiadau diwylliannol cyffredinol neu gefndirol a rhai penodol:

> Gall profiadau diwylliannol ymwelwyr fod yn gyffredinol yn bennaf (teimlad o le, iaith, lletygarwch lleol, bwydydd a diodydd lleol, tirluniau a golygfeydd a

chyswllt â chrefftau lleol, cerddoriaeth), neu'n benodol (fel ymweliadau ag atyniadau treftadaeth, gwyliau ac orielau neu amgueddfeydd).

Er nad oes cytundeb llwyr ynghylch diffinio twristiaeth ddiwylliannol, awgryma Mc Kercher a du Cros (2012: 3-6) fod pedwar categori llydan o ddiffiniadau:

- rhai sy'n cysylltiedig â **rheolaeth twristiaeth** (e.e. ffurf ar dwristiaeth diddordeb arbennig a marchnata/rheoli atyniadau penodol)
- rhai sy'n canolbwyntio ar **gymhelliant yr ymwelwyr** (10)
- rhai sy'n canolbwyntio ar **brofiad yr ymwelwyr**
- ac, yn fwyaf cyffredinol, rhai sy'n canolbwyntio ar **agweddau ymarferol** megis natur y safleoedd a'r atyniadau y mae twristiaid yn ymweld â nhw, neu'r gweithgareddau y mae'r twristiaid yn cymryd rhan ynddynt.

Sail y 'diffiniadau ymarferol' yw patrwm ymddygiad gweladwy'r twristiaid, e.e. y safleoedd y maent yn ymweld â nhw. Gan fod twristiaeth ddiwylliannol yn cynnwys ymweliadau ag asedau diwylliannol a threftadaethol (megis cestyll, adeiladau hanesyddol, henebion, safleoedd archeolegol, orielau celf, amgueddfeydd, eglwysi, perfformiadau, gwyliau diwylliannol ayyb), mae tueddiad cryf, am resymau ymarferol fel mesur ac asesu proffil y farchnad, i weld twristiaeth ddiwylliannol yn gyfystyr ag ymweliadau â safleoedd a gweithgareddau diwylliannol yn y categorïau hyn.

Er bod y cyrchddull yn ddefnyddiol o ran mesur y ffenomen (yn feintiol o leiaf), mae sawl diffyg iddo hefyd. Yn bennaf:

- O'r persbectif hwn, mae *cymryd rhan* yn bwysicach na chymhelliant yr ymwelwr, pwrpas yr ymweliad na dyfnder y profiad; ond, mewn gwirionedd, mae'r agweddau dyfnach yma'n amhosib i'w hasesu heb gynnal ymchwil penodol.
- Mae'r mesuriadau yn tueddu i fod yn feintiol, heb elfen ansoddol (e.e. ar gymhellion y twristiaid)
- Nid yw cysylltu twristiaeth diwylliannol ag ymweliadau â chategorïau safleoedd penodol (ac mae dewis y categorïau ei hun yn fympwyol) yn cymryd i ystyriaeth yr agweddau cyffredinol, anffurfiol ar brofiadau diwylliannol (megis teimlad o

le, iaith, lletygarwch lleol, bwydydd a diodydd lleol ayyb) y sonnir amdanynt yn y dyfyniad o CG ar DDd uchod.

Er gwaethaf diffygion y diffiniadau 'ymarferol' hyn, maent yn rhoi amcan o ystod a maint y ffenomen. Ar y llaw arall, o safbwynt marchnata a darpariaeth ar gyfer ymwelwyr, nid yw'n synhwyrol anwybyddu cymhellion a bwriadau'r twristiaid.

Nid yw'r elfen ddiwylliannol yr un mor bwysig i bob twrist diwylliannol ac y mae'n bosib, mewn termau bras, i rannu twristiaid diwylliannol yn ôl pwysigrwydd yr elfen ddiwylliannol o ran cymhelliant i deithio.  Awgryma McKercher a du Cros (2012: 139-147) deipoleg o bump grŵp o dwristiaid diwylliannol.  Mae'r deipoleg yn cymryd i ystyriaeth ddau ddimensiwn allweddol:

- pwysigrwydd yr elfen ddiwylliannol yn y penderfyniad i ymweld â'r cyrchfan
- dyfnder y profiad a geisir

I'r **twristiaid diwylliannol bwriadus**, diwylliant yw'r prif reswm am ymweld â'r cyrchfan, ac mae'r profiad a geisir yn ddwfn.

I'r **twristiaid diwylliannol ymweliadol**, mae diwylliant yn rheswm pwysig am ymweld, ond mae'r profiad a geisir yn tueddu i fod yn fwy arwynebol.

Er nad yw **twristiaid diwylliannol serendipaidd** yn teithio yn bennaf am resymau diwylliannol, maent, trwy gymryd rhan, yn cael profiad dwfn.

I'r **twristiaid diwylliannol digwyddol**, mae diwylliant yn dueddol o fod yn gymhelliant gwan i ymweld â'r cyrchfan ac, o ganlyniad, mae'r profiad a geisir yn dueddol o fod yn arwynebol.

Nid yw **twristiaid diwylliannol damweiniol** yn teithio am resymau diwylliannol ond maent yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau. Mae'r profiad a geisir yn dueddol o fod yn arwynebol.

Wrth gwrs, mae'r categorïau yma yn fympwyol, ond maent yn ddefnyddiol er mwyn dangos fel mae cymhellion a phrofiadau twristiaid diwylliannol yn gwahaniaethu.

Disgrifia Mc Kercher a du Cros (2012: 147-148) astudiaeth o dwristiaeth ddiwylliannol yn Hong Kong yn 1999. Ymhlith sampl o 2,066 o dwristiaid rhyngwladol yn ymadael â

Hong Kong, roedd traean (33.3%) wedi cymryd rhan mewn rhyw elfen o dwristiaeth ddiwylliannol yn ystod eu hymweliad. Dangosir y canrannau o dwristiaid a fu'n cyfateb i'r categorïau gwahanol yn Tabl 3.

O'r traean o dwristiaid a ymgymerodd â rhyw elfen ddiwylliannol yn ystod yr arhosiad, bu lleiafrif (11.8%, h.y. llai na 4% o'r sampl cyfan) yn dwristiaid diwylliannol bwriadus, ond nodwyd bod pwysigrwydd diwylliant yn uchel yn achos y twristiaid diwylliannol ymweliadol hefyd (30.7% - rhyw 10% o'r sampl gyfan).

Fel y nodwyd uchod, nid yw'r ffigurau hyn, sydd yn seiliedig ar natur gweithgareddau'r ymwelwyr, yn adlewyrchu'r rhyngweithiad anffurfiol gyda diwylliant y cyrchfan (e.e. teimlad o le, iaith, lletygarwch lleol, bwydydd a diodydd lleol, tirluniau a golygfeydd ayyb).

**<u>Tabl 3</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dwfn** ↑ **Dyfnder y profiad** | **Twristiaid diwylliannol serendipaidd**<br><br>**6.2%** | | **Twristiaid diwylliannol bwriadus**<br><br>**11.8%** |
| **Arwynebol** | **Twristiaid diwylliannol damweiniol**<br><br>**27.9%** | **Twristiaid diwylliannol digwyddol**<br><br>**23.5%** | **Twristiaid diwylliannol ymweliadol**<br><br>**30.7%** |
| **Isel** → **Uchel**<br>**Pwysigrwydd yr elfen ddiwylliannol yn y penderfyniad i ymweld â'r cyrchfan** | | | |

Ar sail canfyddiadau ymchwil grwpiau ffocws ar dwristiaeth ddiwylliannol a gynhaliwyd yn 2003 gan Fwrdd Croeso Cymru, mae gan nifer sylweddol o ymwelwyr ddiddordeb mewn dysgu am ddiwylliant y mannau y maent yn ymweld â nhw, er nad yw llawer o ymwelwyr yn ystyried eu hunain yn dwristiaid diwylliannol. Yn CG ar DDd, rhennir y twristiaid diwylliannol i dri grŵp llydan:

- **Twristiaid diwylliannol pur** - y gweithgareddau diwylliannol yw'r prif reswm pam y mae'r ymwelwyr hyn wedi dewis y cyrchfan a dyma brif ffocws yr ymweliad. Mae’r twristiaid diwylliannol pur yn cyfateb i’r twristiaid diwylliannol bwriadus yn y deipoleg uchod.

- **Twristiaid diwylliannol hamddenol** – mae'r ymwelwyr hyn yn gwybod o'r dechrau y bydd gweithgareddau diwylliannol yn rhan annatod o'u hymweliad ond nid ydynt yn penderfynu beth yn union i'w wneud nes iddynt gyrraedd. Mae diwylliant yn creu cyd-destun i gyrchfan a gall fod ymysg y prif resymau dros ymweld â chyrchfan. Mae’r twristiaid diwylliannol hamddenol yn cyfateb i’r twristiaid diwylliannol ymweliadol yn y deipoleg uchod.

- **Twristiaid diwylliannol ar hap** – mae’r rhain weithiau’n gwneud gweithgareddau diwylliannol, ond yn aml ar hap yn hytrach na'u cynllunio ymlaen llaw. Nid ydynt yn rhoi llawer o sylw i agweddau diwylliannol penodol cyn penderfynu ble i fynd. Mae’r twristiaid diwylliannol ar hap yn cyfateb i’r twristiaid diwylliannol digwyddol, damweiniol a serendipaidd yn y deipoleg uchod.

Er nad yw CG ar DDd yn meintioli’r grwpiau hyn, mae’r ffigurau a gyhoeddwyd yn CG ar DDd yn arwyddocaol: yn 2010 gwariwyd £144 miliwn ar wyliau gan drigolion Prydain yng Nghymru lle roedd diwylliant (sef ymweliadau â chestyll, adeiladau hanesyddol, safleoedd archeolegol, eglwysi, amgueddfeydd, orielau celf, cyngherddau, perfformiadau, gwyliau diwylliannol ayyb) y prif reswm am ddod. Cyfetyb £144 miliwn i ryw 10% o bob gwariant gan ymwelwyr Prydeinig a fu’n aros dros nos yn 2010. Dyma’r twristiaid diwylliannol pur neu fwriadus. Mewn termau bras iawn, felly, **gellir ystyried rhyw 10% o ymwelwyr Prydeinig sy’n aros dros nos yng Nghymru yn dwristiaid diwylliannol pur**.

Ymhellach gwariwyd £590 miliwn (rhyw 40% pob gwariant gan dwristiaid Prydeinig fu’n aros dros nos yn 2010) ar arosiadau yr oedd gweithgaredd diwylliannol yn rhan ohonynt. Mae’r £590 miliwn yn cynnwys y £144 miliwn a wariwyd gan y twristiaid diwylliannol pur, ac felly, y ganran ychwanegol a wariwyd gan y gweddill – y twristiaid

hamddenol neu ar hap – yw rhyw £446 miliwn, neu 30% o bob gwariant gan ymwelwyr Prydeinig y flwyddyn honno. Mewn termau bras iawn felly, **gellir casglu bod rhyw 30% o ymwelwyr Prydeinig sy'n aros yng Nghymru yn dwristiaid diwylliannol hamddenol neu ar hap.**

Megis yn achos yr arolwg yn Hong Kong, nid yw'r ffigurau ar ymwelwyr â Chymru yn adlewyrchu cysylltiad anffurfiol gyda diwylliant y cyrchfan (e.e. teimlad o le, iaith, lletygarwch lleol, bwydydd a diodydd lleol, tirluniau a golygfeydd ayyb). O ganlyniad, maent yn rhoi darlun rhannol, un dimensiwn yn unig.

Er bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y categorïau diwylliannol a restrwyd uchod, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gwariant gan dwristiaid o dramor na chwaith ymwelwyr undydd, ac felly gellir eu hystyried yn geidwadol.

Fel yr awgryma CG ar DDd, mae ymwelwyr tramor yn fwy tebygol o grybwyll elfennau diwylliannol penodol (e.e. ymweld â safleoedd hanesyddol) fel prif reswm dros ymweld â Chymru ac, felly, yn fwy tebygol o fod yn dwristiaid diwylliannol 'pur'. Yn Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013, bu 77% o ymatebwyr tramor (teithwyr gwyliau a hamdden yn ystod yr haf) yn crybwyll 'Ymweld â llefydd / safleoedd hanesyddol / atyniadau penodol' (y categori pwysicaf) ymhlith y resymau dros ddod i Gymru.

**Mae'n rhesymol i gasglu bod rhwng 40% a 50% o ymwelwyr tramor â Chymru yn dwristiaid diwylliannol o ran eu cymhellion i ymweld, ac efallai traean o'r rhain yn dwristiaid diwylliannol 'pur'.**

Er nad oes cwestiwn penodol ar agweddau at yr iaith a diwylliant Cymraeg wedi bod yn Arolwg Ymwelwyr Cymru, cynhwysir cwestiwn yn Arolwg Ymwelwyr yr Alban yn 2011-12 (VisitScotland, 2013) parthed diddordeb yn yr iaith a diwylliant Gaeleg. Roedd 13% o ymwelwyr â 'diddordeb mawr' (sy'n cyfateb yn fras i ganran y twristiaid diwylliannol 'pur' yn achos Cymru), 38% â 'pheth diddordeb' (yn debyg i'r traean o dwristiaid diwylliannol hamddenol neu ar hap yng Nghymru), 32% 'heb lawer o ddiddordeb' a 14% â 'dim diddordeb o gwbl'. Fel yng Nghymru, roedd diddordeb uwch ymhlith ymwelwyr tramor: 22% â 'diddordeb mawr'.

Fodd bynnag, mae iaith yn holl bwysig i **dwristiaeth ieithyddol**, h.y. ymweld â gwlad er mwyn dysgu neu ymarfer iaith, gan amlaf drwy gymryd cwrs astudiaeth. Ar lefel fyd-eang, mae'r farchnad hon yn sylweddol iawn.  Tyn Pujolar (2006: 36) sylw at y ffaith bod rhyw 1.3 miliwn o fyfyrwyr yn cymryd cyrsiau Saesneg yn flynyddol, ac y mae'r Deyrnas Unedig (gan gynnwys rhai ysgolion iaith a phrifysgolion yng Nghymru) yn meddu ar tua hanner y farchnad yma. O gymharu, amcangyfrifir gan FEDELE (2005) (ffederasiwn y sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau Sbaeneg yn Sbaen ar gyfer tramorwyr), bod rhyw 130,000 o fyfyrwyr yn mynychu cyrsiau ieithyddol yn Sbaen yn flynyddol.

Cynigir cyrsiau mewn ieithoedd lleiafrifol hefyd, wrth gwrs, gan gynnwys y Gymraeg (e.e. ysgolion haf y prifysgolion, cyrsiau Nant Gwrtheyrn), yr Aeleg (e.e. cyrsiau Sabhal Mòr Ostaig), yr Wyddeleg (e.e. Oideas Gael) a'r Llydaweg (e.e. Kamp Etrekeltiek ar Vrezhonegerien). Er bod ychydig o filoedd o fyfyrwyr yn mynychu'r cyrsiau hyn, o'u cymharu â nifer a maint yr ysgolion iaith Saesneg, maent ar raddfa fychan iawn. Fodd bynnag, maent yn dangos bod potensial gydag ieithoedd i fod yn atyniad a rheswm pwysig dros ymweld â gwlad.

## CANFYDDIADAU AC AGWEDDAU

### Canfyddiadau'r defnyddwyr

Cynhaliwyd yr ymchwil ansoddol ffurfiol cyntaf ym maes twristiaeth yng Nghymru gan gwmni Schlackman ar gyfer Bwrdd Croeso Cymru yn 1984 (BCC, 1985). Prif amcanion y gwaith oedd ymchwilio i'r ffactorau a oedd yn effeithio ar ddewis gwyliau a dod i ddealltwriaeth well o ddelwedd Cymru fel gwlad ac fel cyrchfan. Cynhaliwyd wyth grŵp ffocws yng Nghanolbarth a De Ddwyrain Lloegr.

Roedd gan fwyafrif y rhai a oedd yn ystyried Cymru fel cyrchfan gwyliau ddelwedd bositif o wlad sy'n cynnig:

- cyfleoedd i ymlacio, i gerdded ac i fwynhau gweithgareddau awyr agored
- llawer o bethau i'w gweld ac i'w gwneud, gyda synnwyr o hanes
- traethau hyfryd (ymhlith pobl oedd yn gyfarwydd â Chymru)
- cysylltiadau awyr agored a iechyd da

Ymhlith y canfyddiadau negyddol roedd:

- tywydd annibynadwy a thebygolrwydd o law
- argraff llwydni llechi ac oerfel
- gor-gyfarwydd-dra, blinder â gwlad a gysylltai â gwyliau plentyndod
- diffyg llety safonol am bris tebyg i dramor
- diffyg adloniant gyda'r hwyr o'r math anffurfiol a brofwyd dramor
- natur tawedog, anghyfeillgar rhai Cymry

Parthed y pwynt olaf, sylwa'r adroddiad:

> Fears about unfriendly people may be an unprompted reaction on the part of those people who have not been to Wales and they do not reflect actual experiences. Thus, while the existence of a distinctive Welsh language is a positive asset in overseas markets, some English people still seem to find strange the notion that Wales is a bilingual country, with the Welsh language being used naturally and freely in everyday life. (tud. 6)

O ran cymhellion, un o'r goblygiadau pwysicaf a nodwyd yn yr adroddiad oedd:

> It is clear from the research that the majority of English visitors come to Wales not because of Wales' folklore or cultural appeals, but rather because Wales combines a whole range of very positive factors (scenery, things to see and do) within a context of general accessibility, and a level of familiarity. Folklore, culture, traditions and Welsh heritage asepects, are, of course, seen quite differently by overseas people and are indeed regarded very positively. (tud. 8)

Cynhaliwyd cyfres o chwech grŵp ffocws yn 2003 gan gwmni Keydata ar gyfer Bwrdd Croeso Cymru (2003), mewn cyswllt â thwristiaeth ddiwylliannol. Roedd yr ymchwil yn arwyddocaol o ran rhannu'r twristiaid diwylliannol i dri grŵp llydan: Twristiaid diwylliannol pur, hamddenol ac ar hap, gyda'r mwyafrif yn y ddau gategori olaf.

Roedd canfyddiadau positif o Gymru fel cyrchfan awyr agored, ond amlygwyd anwybodaeth gyffredinol o adnoddau diwylliannol Cymru.

Unwaith eto, rhestrwyd teimlad ymhlith y canfyddiadau negyddol, gan amlaf ar sail achlust ystrydebol, fod rhai Cymry yn anghroesawgar. Yn benodol:

> Many felt, whether they had experience of the situation or not, that some Welsh people use the language as a means to alienate tourists, by switching to Welsh when in their presence. Whether this is true or not there remains a strong view that this does happen.
>
> The majority felt that the language is an interesting facet of Welsh life and one that should be encouraged. However, whilst they would like to perhaps know

> more about it, most would definitely be put off if information and printed materials were not also provided in English. (tud. 47)

Roedd sylw'r cwmni ymchwil (nid o anghenraid barn BCC) yn ddiddorol:

> Given the persistence of the negative stereotype, it is probably most beneficial in any communication with the English tourist to avoid stressing the language differences. Reminding potential tourists of the language differences may only seek to re-enforce (sic) the stereotype. (tud. 10)

Cynhaliwyd ymchwil pellach yn 2009, y tro hwn gan Strategic Marketing ar gyfer Croeso Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Fel yn 2003, twristiaeth ddiwylliannol oedd thema'r ymchwil a gynhaliwyd ar ffurf 11 grŵp ffocws yn ardal Llundain, Birmingham, Manceinion yn ogystal ag yn Nulyn, Bae Colwyn a Chaerdydd.

Fel yn 2003, gwahaniaethwyd rhwng twristiaid diwylliannol pur, hamddenol ac ar hap. Yn gyffredinol, roedd y canlyniadau yn debyg iawn i 2003: y prif ganfyddiad o Gymru fel cyrchfan oedd lle i dreulio gwyliau actif neu hamddenol yn yr awyr agored, yng nghefn gwlad neu ger traeth. Nid oedd darlun eglur o adnoddau diwylliannol Cymru. Cysylltwyd Cymru â hanes, mwyngloddio, cestyll, rygbi, corau.

Roedd y grwpiau yng Nghymru yn falch o'r iaith. Edmygai'r grwpiau yn Nulyn y Cymry am siarad Cymraeg.

Derbyniwyd i raddau helaeth egwyddor defnydd y Gymraeg fel iaith arall ar arwyddion, bwydlenni ayyb.

Roedd rhai aelodau o'r grwpiau yn Lloegr yn hoffi clywed y Gymraeg. Fodd bynnag, crybwyllwyd ym mhob grŵp yn Lloegr hanes am 'rywun a aeth i Gymru a dechreuodd y trigolion siarad Cymraeg' gyda'r pwrpas (honedig) o'u cau allan.

Fel y sylwyd yn yr adroddiad:

> There an is often unvoiced feeling that the Welsh can and therefore should speak English – because they can, and especially when the English are about. Some say it's impolite, and feel excluded by it, and unwanted when they hear it. (tud. 51)

Dyma ddyfyniad nodweddiadol air-am-air gan ymatebydd o grŵp hŷn yn Birmingham:

> I like to hear them speaking but I don't like to feel as though they're speaking about me and I don't know what they're talking about.

> My view on this is that if you're going to a foreign country that speaks a foreign language, it is courteous to make an effort to learn the language and speak and try and read. When you're in Wales, given that probably more than 50% of Welsh people don't speak Welsh, why the hell should I?....Most Welsh people speak English, that's their native tongue if you like....just seems an odd thing to do as part of the United Kingdom. (tud. 51)

Mynega'r dyfyniad ar ffurf gryno gredoau, ofnau a rhagfarnau rhai Saeson parthed yr iaith Gymraeg. Gellir aralleirio'r dyfyniad i ddangos y disgwrs tanorweddol, fel a ganlyn:

1. Mae'r iaith Gymraeg yn ddiddorol a gwahanol ond nid wyf yn ei deall. Teimlaf fod hyn yn fy nghau allan ac rwy'n drwgdybio eu bod yn siarad amdanaf. Mae'n fygythiad, felly.
   = estrongasedd, drwgdybiaeth, colled rheolaeth.

2. Rwy'n parchu ieithoedd gwledydd tramor a'u siaradwyr. Ond mae Cymru yn rhan o'r Deyrnas Unedig, fy ngwlad i, lle siaredir Saesneg. Mae llai na hanner y Cymru yn medru siarad Cymraeg beth bynnag, felly nid yw'r iaith lawer o werth. Dylai'r Cymry siarad Saesneg.
   = hegemoni, olion gwladychu mewnol, byd-olwg paradeim trechol y genedl-wladwriaeth/ymerodraeth Brydeinig.

Yn y prosiect nesaf, ymchwiliwyd i rwystrau gwahanol rhag ymweld â Chymru, er mwyn meintioli a phroffilio rhannau'r farchnad yr effeithiwyd arnynt gan y rhwystrau yma.

Yn 2012 comisiynwyd cwmni TNS gan Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru, 2013c) i archwilio graddau'r rhesymau ymhlith poblogaeth Prydain sy'n rhwystro pobl rhag ymweld â Chymru. Rhan bwysig o'r ymchwil oedd ymchwil meintiol ar ffurf arolwg omnibws ar-lein (2,098 o ymatebwyr yn adlewyrchu poblogaeth Prydain o ran proffil demograffig ac yn cyfateb i boblogaeth 47.125 miliwn o oedolion). Roedd y canlyniadau o'r croesdablau'n ddadlennol iawn.

- Allan o boblogaeth o 47.125 miliwn o oedolion, ni fyddai 18.84 miliwn (40%) yn ystyried gwyliau yng Nghymru.

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi hyd at bum rheswm (heb awgrymiadau) pam nad oeddent yn ystyried Cymru fel cyrchfan. Ymhlith yr 18.84 miliwn a wrthodai Cymru, crybwyllwyd y rhesymau canlynol:

| | |
|---|---|
| Canfyddiad o dywydd gwaeth na gweddill y DU | 15% |
| Rhy bell i deithio | 11% |
| Rhannau eraill o Brydain yn fwy apelgar | 9% |
| Yn well ganddynt math arall o wyliau | 9% |
| Diffyg gwybodaeth am Gymru | 8% |

Crybwyllwyd 'Pobl yn anghyfeillgar/digroeso' gan 6% o'r gwrthodwyr, ond nid yw'r farn yma o anghenraid yn gysylltiedig â'r iaith. Fodd bynnag, **crybwyllwyd 'Mae defnydd yr iaith Gymraeg yn gwneud i fi deimlo nad oes croeso imi' gan 3%, sydd, ar ôl mwyhau'r sampl yn gymesur â'r boblogaeth, yn cyfateb i 540,000 o bobl, h.y. 1.15% o boblogaeth gyfan Prydain.**

Y cam nesaf oedd dadansoddi'r tablau i archwilio proffil y lleiafrif y mae'r iaith yn rhwystr iddynt rhag dod i Gymru. Roedd y canlyniadau yn ddadlennol dros ben. Mae'r wybodaeth isod yn cyfeirio at gyfansoddiad y 540,000 o bobl a soniodd am yr iaith fel rhwystr.

**Tarddiad daearyddol**

| | |
|---|---|
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 25% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 23% |
| Yr Alban | 14% |
| Swydd Efrog | 11% |
| Gogledd-Orllewin Lloegr | 6% |
| De-Ddwyrain Lloegr | 5% |
| De-Orllewin Lloegr | 5% |
| Gogledd-Ddwyrain Lloegr | 4% |
| Dwyrain Lloegr | 4% |
| Llundain | 2% |
| Cymru | 0% |

Diddorol sylwi bod bron hanner y rhai a soniodd am yr iaith fel rhwystr yn byw yng Nghanolbarth Lloegr (o gymharu â dim ond 10% o'r gwrthodwyr ar y cyfan) a thrigfan 21% oedd rhanbarthau Gogledd Lloegr (Swydd Efrog, Gogledd-Orllewin a Gogledd-Ddwyrain Lloegr).

Daw canran syfrdanol uchel o'r Alban hefyd, ond rhaid cofio mai pellter (y soniwyd amdano gan 24% o'r Albanwyr a wrthodai Cymru) yw'r ffactor pwysicaf yn eu hachos nhw.

Mae'r ganran isel o Lundain y mae'r Gymraeg yn rhwystr iddynt efallai yn adlewyrchu natur cosmopolitanaidd y ddinas a chyfarwydd-deb â sefyllfaoedd dwy- neu amlieithog. Er i 11% o'r gwrthodwyr cyffredinol ddod o Lundain, dim ond 2% o'r rhai a grybwyllodd yr iaith oedd yn byw yno. Megis yn Ne-Ddwyrain Lloegr hefyd, er i 16% o'r gwrthodwyr cyffredinol ddod o'r ardal yna, dim ond 5% o'r rhai a grybwyllodd y Gymraeg fel rhwystr a drigai yno.

Nid oedd neb o Gymru yn gwrthod gwyliau yng Ngymru oherwydd yr iaith.

**Oedran**

| | |
|---|---|
| 16-35 | 16% |
| 34-54 | 34% |
| 55-64 | 21% |
| 65+ | 30% |

Gwelwyd yr iaith yn rhwystr rhag dod i Gymru yn fwyaf gan ymatebwyr yn y grwpiau oedran hŷn. Er i broffil oedran gwrthodwyr Cymru yn gyffredinol ddangos sgiw i'r grwpiau hŷn (38% dros 55 oed), roedd 51% y rhai a grybwyllodd yr iaith dros 55 oed, a 30% ohonynt yn 65 neu'n hŷn. Awgryma hyn feddylfryd a seiliwyd ar baradeim y genedl-wladwriaeth/ymerodraeth Brydeinig (gweler tud. 19-22, gan gynnwys Tabl 2).

**Gradd sosio-economaidd**

| | |
|---|---|
| AB | 9% |
| C1 | 32% |
| C2DE | 59% |

Gwelir y gwrthwynebiad cryfaf i'r iaith ymhlith y grwpiau sosio-economaidd is (C2DE): daw 59% o'r rhai a grybwyllodd yr iaith fel rhestr o'r grwpiau hyn o gymharu â 48% o'r gwrthodwyr yn gyffredinol. Perthyn 18% o'r gwrthodwyr yn gyffredinol i'r grwpiau AB, ond ymhlith y gwrthodwyr a soniodd am yr iaith fel rhwystr, daw ond 9% o'r grwpiau AB. Mae'r canlyniadau yn awgrymu bod gradd sosio-economaidd (a'r ffactorau cysylltiedig megis lefel addysg) yn newidynnau pwysig o ran agwedd at yr iaith.

**Ffactorau demograffig eraill**

Roedd yr ymatebwyr gwryw yn fwy tebygol o grybwyll yr iaith fel rhwystr na'r menywod: roedd 55% o'r rhai a soniodd am yr iaith fel rhwystr yn ddynion, mewn cyferbyniad â 47% o'r gwrthodwyr yn gyffredinol.

O ran profiad o wyliau yng Nghymru, nid oedd gan 95% o'r rhai a grybwyllodd yr iaith brofiad o wyliau yng Nghymru yn y tair blynedd diwethaf.

O'r proffil uchod, gellir casglu bod yr iaith yn rhwystr yn bennaf i bobl hŷn (yn enwedig dynion), o'r grwpiau sosioecnomaidd is, yn bennaf o Ganolbarth a Gogledd Lloegr, heb unrhyw brofiad diweddar o Gymru.

Aeth yr ymchwil gam ymhellach ar ffurf arolwg poblogaeth ar-lein arall gyda 3,508 o ymatebwyr, gan ofyn yr un cwestiwn, ond y tro yma gydag atebion awgrymedig (hyd at bum dewis). Unwaith eto, roedd yr ymatebion yn ddadlennol.

| | |
|---|---|
| Rhannau eraill o Brydain yn fwy apelgar | 49% |
| Canfyddiad o dywydd gwaeth na gweddill y DU | 34% |
| Diffyg gwybodaeth am Gymru | 29% |
| Diffyg gwybodaeth am gyrchfannau Cymru | 27% |
| Mae defnydd yr iaith Gymraeg yn gwneud i fi deimlo nad oes croeso imi | 25% |
| Yn well ganddynt math arall o wyliau | 23% |
| Hen-ffasiwn, diffyg cyfleusterau cyfoes | 16% |
| Mae rhannau o Gymru'n anneniadol | 16% |

Crybwyllwyd yr iaith ymhlith y rhwystrau gan chwarter y gwrthodwyr, sydd, ar ôl mwyhau'r sampl i fod yn gymesur â'r boblogaeth, yn cyfateb i 4.62 miliwn o bobl. Y tro hwn, gofynnwyd y cwestiwn i'r sampl gyfan, nid yn unig y gwrthodwyr. Awgryma'r ymateb mai ymhlith *y gwrthodwyr* y gwelwyd yr iaith yn broblem: er i 12% o'r boblogaeth (5.65 miliwn o bobl) gynnwys yr iaith ymhlith y rhwystrau rhag dod i Gymru, roedd y mwyafrif helaeth (82%) ohonynt yn wrthodwyr gwyliau yng Nghymru yn gyffredinol.

Awgryma'r canlyniadau'r fod yr iaith yn rhwystr i nifer cyfyngedig gyda phroffil nad yw'n cyfateb i segmentau targed Croeso Cymru, ond hefyd bod yr iaith yn ennyn teimlad greddfol negyddol ehangach. Felly, wedi mwyhau'r sampl yn gymesur â'r boblogaeth, soniodd rhyw 540,000 o bobl am yr iaith yn rhwystr rhag dod i Gymru, ond mae'n elfen (neu ragfarn) reddfol negyddol yn seice 12% o'r boblogaeth gyfan.

Gan ddefnyddio eu meddalwedd segmenteiddio arbenigol, rhannodd TNS boblogaeth Prydain i naw segment bras, gan awgrymu bod pump ohonynt (pedwar o'r rhain yn amrywiadau ar 'Fforwyr annibynnol', segment dethol blaenorol Croeso Cymru) yn cynnig y potensial gorau o ran marchnata gwyliau yng Nghymru, sef:

**Fforwyr actif teuluol** (6% o boblogaeth Prydain)
94% dan 50 oed, 67% ABC1: 'I like to learn about the local way of life and culture of the places I visit'

**Fforwyr cyn-deuluol** (8% o boblogaeth Prydain)
72% dan 35 oed, 69% ABC1: 'I like to learn about the local way of life and culture of the places I visit'

**Teuluoedd ifanc â chyllideb gyfyngedig** (15% o boblogaeth Prydain)
Rhwng 25-29 oed: cyfleusterau i blant a gwerth am arian yn bwysig

**Fforwyr diwylliannol hŷn** (14% o boblogaeth Prydain)
96% 40+ oed, ABC1: 'I like to learn about the local way of life and culture of the places I visit'

**Fforwyr golygfaol hŷn** (15% o boblogaeth Prydain)

95% 40+ oed; pwyslais daearyddol Cymru a Chanolbarth Lloegr; teithwyr annibynnol; hoffi cefn gwlad, golygfeydd

Mae gan y segmentau hyn berthynas amlwg â thwristiaeth ddiwylliannol (gweler tud. 27-28).
Roedd yr iaith yn rhwystr posib i'r Fforwyr golygfaol hŷn yn unig, ond hyd yn oed yn y grŵp yma, y prif rwystr oedd y farn bod 'Rhannau eraill o Brydain yn fwy apelgar'.

Darpar yr ymchwil meintiol a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth bresennol wybodaeth fanylach ynghylch canfyddiadau'r farchnad Brydeinig o ieithoedd yn gyffredinol, a'r Gymraeg yn benodol, o ran eu cyfraniad i'r profiad gwyliau.

**Canfyddiadau'r diwydiant**

Cynhaliwyd ymchwil ymhlith busnesau twristiaeth yng Nghymru gan Greg Thomas (2014) i asesu'r cysylltiad rhwng defnydd iaith ac hydwythedd yn nirwasgiad economaidd 2008-13. Awgryma'r astudiaeth fod defnydd yr iaith Gymraeg yn creu naws lle a bod ei heffaith yn bwysig o ran cydlyniad cymunedol, adeiladu rhwydweithiau a pherthnasau busnes ac, felly, yn ategu hydwythedd i ryw raddau. Ond tynnodd rhai busnesau sylw at gostau ychwanegol darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar adeg pan frwydrant i oroesi. Awgryma'r astudiaeth nad yw defnydd yr iaith Gymraeg yn arwain at effeithiau economaidd uniongyrchol gwahanol i'r busnes: wynebai busnesau Cymraeg/dwyieithog broblemau tebyg i'r busnesau uniaith Saesneg. Fodd bynnag, ystyrid y Gymraeg yn adnodd pwysig o ran marchnata a chreu rhwydweithiau lleol.

Tyn astudiaeth ddiweddar (Bruyèl-Olmedo a Juan-Garau, 2015) ar dirlun ieithyddol cyrchfannau twristaidd ym Mallorca, sylw at ddiffyg presenoldeb yr iaith frodorol swyddogol - y Gatalaneg - yn y rhyngwaith rhwng twristiaid a'r diwydiant. Casglant fod grym gyriadol y farchnad dorfol ryngwladol a'r statws isel a roddir i'r iaith gan y diwydiant lleol, yn rhwystrau rhag defnydd pellach o'r iaith mewn twristiaeth fel ased arall i'r cyrchfan ac i gyfoethogi'r profiad gwyliau.

Fel yr awgryma'r astudiaeth ar Mallorca, mae agweddau busnesau twristiaeth at ddarpariaeth ieithyddol yn ganolog, a dyma ffocws yr ymchwil gwreiddiol.

Mae tarddiad a natur y farchnad yn achos pob busnes yn ddylanwadol iawn o ran natur darpariaeth ieithyddol. Ymchwilir yn fanylach i'r alwad am ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn yr astudiaeth bresennol, ond rhy ymchwil diweddar fraslun o'r sefyllfa bresennol.

Er y gellir dirnad cynnydd yn nefnydd y Gymraeg ers yr 80au gan fusnesau twristiaeth, nid yw ei defnydd yn gyffredinol neu'n gyson. Yn Arolwg Busnesau Twristiaeth (Llywodraeth Cymru 2013d), roedd 55% o'r sampl o 400 o fusnesau (croestoriad ar draws y sectorau llety ac atyniadau) yn cynnig rhyw elfen o wasanaeth Cymraeg, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Staff sy'n siarad Cymraeg | 41% |
| Taflenni/deunydd argraffedig Cymraeg | 24% |
| Arwyddion Cymraeg | 24% |
| Gwefan Gymraeg | 9% |
| Bwydlenni Cymraeg | 6% |
| Gwybodaeth yn y Gymraeg ar y safle | 3% |

Cadarnhawyd yn y prif arolygon bwysigrwydd y farchnad Gymreig:

- Arosiadau dros nos gan drigolion Prydain: 23% ohonynt gan drigolion Cymru (11)
- Teithiau gwyliau i gyrchfannau ym Mhrydain gan drigolion Cymru: 41% i gyrchfannau yng Nghymru (11)
- Teithiau undydd i gyrchfannau yng Nghymru: 78% gan drigolion Cymru (12).

**Pe ystyrid 20% yn Gymry Cymraeg, cyfetyb y ffigurau yma i 460,000 ymweliad dros nos, a rhyw 14 miliwn o deithiau undydd gan Gymry Cymraeg – marchnad sylweddol, felly.**

**Newid ymddygiad**

Darpar Cooper (1989: 98) nifer o gwestiynau sylfaenol perthnasol i gynllunio iaith, gan gynnwys:

Pwy i'w dargedu?

Pa ymddygiad mae angen effeithio arno?

I ba bwrpas?

Dan ba amgylchiadau a sut (e.e. gorfodaeth, awdurdod, hyrwyddo, perswadio)?

Trwy ba ddulliau a phrosesau penderfynu?

Gyda pha ddeilliannau?

Gellir ystyried hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y sector twristiaeth yn elfen o gynllunio iaith. Golyga hyn ymyriad bwriadol swyddogol gan y Llywodraeth (Croeso Cymru) er mwyn newid ymddygiad. Y prif ffocws o ran newid ymddygiad yw busnesau (yr ochr gyflenwad) ond hefyd y defnyddwyr er mwyn annog galwad uwch am ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Fel y sylwa Strubell (2001), rhaid ystyried rhyngweithiad ffactorau cyflenwad a galwad.

Disgrifia Chin a Benne (1976) dair strategaeth gyffredinol ar gyfer newid:

- Strategaeth **empeiraidd-resymegol** (yn seiliedig ar y dybiaeth bod pobl yn rhesymegol ac yn newid eu hymddygiad yn ôl yr hyn sydd yn fanteisiol iddynt)
- Strategaeth **normadol ail-addysgu** (yn seiliedig ar y dybiaeth bod ymddygiad y mwyafrif yn cydymffurfio â normau cymdeithasol, ac felly, focysir ymdrechion ar newid y normau hyn)
- Strategaethau **pŵer-gorfodol** (yn seiliedig ar y dybiaeth bod newid yn bosibl drwy orfodaeth, e.e. drwy ddeddfwriaeth)

Cyfeiria French a Bell (1990: 85-86) at bwysleisiau gwahanol y tair strategaeth uchod: gwybodaeth, addysgu a deddfwriaeth, yn y drefn honno. Gan amlaf, mewn ymgyrchoedd cyhoeddus, defnyddir elfennau o'r ddwy strategaeth gyntaf, megis hyrwyddo manteision rhyw ymddygiad penodol, yn ogystal â defnyddio esiamplau arfer da er mwyn newid normau yn y grŵp a dargedir. Gellir defnyddio dulliau pŵer gorfodol (e.e. deddfwriaeth, safonau iaith) i orfodi newid, ond tueddir i annog newid gwirfoddol.

Cyrchddull cyfredol a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU o ran newid ymddygiad yw **MINDSPACE** (13) (Institute for Government / Cabinet Office, 2010), system a seiliwyd ar ddamcaniaeth ymddygiad. Awgryma'r ddogfennaeth nad yw ymdrechion i *newid meddyliau* ar sail tystiolaeth ffeithiol sy'n dangos manteision ac anfanteision rhyw ymddygiad bob amser yn effeithiol am nad yw pobl yn ymateb yn rhesymegol. Ar y llaw arall, mae cyrchddulliau sy'n seiliedig ar *newid y cyd-destun* lle gwneir penderfyniadau yn fwy tebygol o arwain at newid ymddygiad, am fod cysylltiad agosach â'r ffordd mae unigolion yn ymateb i ffactorau allanol.

Awgryma Schein (2010: 23-34) dair lefel o ymrwymiad sefydliadol fel arwydd o ba mor ddwfn yw derbyniad a mynegiant diwylliant y sefydliad, sef

- Arteffactau (e.e. arwyddion gweladwy)
- Gwerthoedd a fabwysiadwyd (e.e. polisi swyddogol)
- Tybiaethau sylfaenol tanorweddol (pa mor bell y mynegir diwylliant y sefydliad ar lefel ymarferol bob dydd; pa mor bell y cymerir pethau yn 'ganiataol' ('taken-for-grantedness')).

Maentumia Schein fod y lefel gyntaf yn gymharol arwynebol, yr ail yn ddyfnach, ond cyrhaeddir y drydedd lefel ond pan ymgorfforir y polisi yn awtomatig ar lefel anffurfiol (e.e. o ran polisi dwyieithog, sicrhau bod pob cyfathrebiad anffurfiol yn awtomatig yn ddwyieithog). (Gweler Atodiad 2 am asesiad lefel ymrwymiad sefydliadol y busnesau a gynhwyswyd yn yr ymchwil ansoddol. Yn ogystal â'r tair lefel, ychwanegwyd Lefel 0 i ddynodi prin/dim darpariaeth.)

**RHAN 2**

**METHODOLEG A DADANSODDI'R DATA**

Amlinellir amcanion yr astudiaeth yn y Cyflwyniad (tud. 1-3) a lluniwyd yr ymchwil gyda'r amcanion hyn mewn golwg. Bwriedir i ganlyniadau'r astudiaeth ddarparu sail tystiolaeth i helpu cyfeirio gwaith Croeso Cymru, yn enwedig gyda busnesau twristiaeth.

Roedd dwy gydran gyfategol i'r ymchwil: elfen **ansoddol** ac elfen **feintiol**. Gosodwyd y pwyslais ar yr ymchwil ansoddol ymhlith busnesau twristiaeth, ond cynhaliwyd elfen feintiol i dynnu ciplun o ganfyddiadau defnyddwyr Prydeinig.

**Yr ymchwil ansoddol**

Cynhaliwyd yr ymchwil ansoddol ar ffurf cyfweliadau dwfn, sef sgyrsiau strwythuredig â pherchnogion/rheolwyr sbectrwm o fusnesau twristiaeth. Diben y cyfweliadau oedd ymchwilio i'r ffactorau sy'n effeithio ar ddarpariaeth ddwyieithog ac i agweddau'r busnesau at ddarpariaeth ddwyieithog. Yn fras, cyfetyb darpariaeth i **gyflenwad**, ond cynhwysa hefyd agweddau ar farchnata a chyflwyno'r cynnyrch, boed ar lefel busnes unigol neu wlad gyfan.

**Y sampl (1)**

Nodwedd ymchwil ansoddol yw dyfnder a manylder y wybodaeth yn hytrach na maint y sampl ond roedd rhaid cynnwys croestoriad priodol o fusnesau er mwyn cyrraedd dealltwriaeth well o ystod yr agweddau at ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Roedd diben ymarferol yr ymchwil, sef taflu goleuni ar y newidynnau pwysicaf sy'n effeithio ar y ddarpariaeth honno, yn ffactor buddiol o ran penderfynu maint a chyfansoddiad y sampl. Y prif feini prawf ar gyfer llunio'r sampl oedd:

1. Graddfa defnydd y Gymraeg/dwyieithrwydd yn y busnes

- Cynnwys nifer o enghreifftiau lle mae darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn ganolog
- Cynnwys nifer o enghreifftiau lle ceir defnydd rhannol o'r Gymraeg a dwyieithrwydd

- Cynnwys rhai enghreifftiau heb bwyslais cryf (os o gwbl) ar ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog

Er angen cael enghreifftiau o arfer da, roedd rhaid cynnwys ambell fusnes 'sgeptigol' hefyd i gael dealltwriaeth o'r rhwystrau.

2. Dosbarthiad rhwng y sectorau gwahanol (llety, atyniadau, gwasanaethau eraill)

3. Maint y busnesau

4. Dosbarthiad daearyddol - rhanbarthau Cymru

5. Proffil ieithyddol yr ardal – rhai yn y Fro draddodiadol Gymraeg, rhai mewn ardaloedd 'cymysg' o ran iaith, rhai mewn ardaloedd Seisnigaidd

6. Cynnal rhai cyfweliadau yn Gymraeg, rhai yn Saesneg, yn ôl dewis yr ymatebydd.

Ystyriwyd rhai ffactorau eraill megis proffil ieithyddol y perchnogion/rheolwyr a'r staff a chynnwys cymysgedd o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus, ond penderfynwyd yn erbyn defnyddio'r meini prawf hyn i ddewis y sampl am y rhesymau canlynol:

- Roedd yn anodd sefydlu proffil ieithyddol manwl ymlaen llaw cyn cysylltu â'r busnesau. Yn lle, cynhwyswyd cwestiwn ar broffil ieithyddol y perchnogion/rheolwyr a'r staff yn y canllawiau ar gyfer y cyfweliadau.
- Mae rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (megis Cadw a'r Amgueddfa Genedlaethol) gynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yn unol â'u Cynlluniau Iaith (Safonau Iaith o Ebrill 2016 ymlaen). Ffocws gwaith Croeso Cymru i hyrwyddo a hybu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yw busnesau sector *preifat*, lle mae'r ddarpariaeth yma'n wirfoddol. Fodd bynnag cynhwyswyd un cyfweliad â chorff cenedlaethol sector cyhoeddus (Cadw) er mwyn galluogi cymariaethau â busnesau sector preifat.

O brofiad ymchwil personol blaenorol (Lewis, R.M., 1980 a 2010), fel cyfranogwr arbenigol yn ymchwil ansoddol Greg Thomas (2014), ac o brofiad cynllunio, comisiynu a rheoli'r prosiectau ymchwil ansoddol y cyfeiriwyd atynt yn barod ar ran Bwrdd Croeso Cymru (1985 a 2003) a Croeso Cymru (2009), amcangyfrifwyd y byddai oddeutu deg cyfweliad strwythuredig o ryw 45 munud o hyd ar gyfartaledd yn ddigonol i greu

darlun strwythuredig o'r agweddau at ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ymhlith busnesau twristiaeth, ac i ddod i adnabod y prif newidynnau sy'n effeithio ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, penderfynwyd cynnal astudiaeth beilot i wirio ymarferoldeb y cyrchddull yma ac i brofi'r canllawiau drafft ar gyfer y cyfweliadau.

I ddechrau cyfansoddi'r sampl, ymgynghorwyd â chydweithwyr yn Nhîm Ymgysylltu Rhanbarthol (y rhyngwyneb rhwng  Croeso Cymru â'r diwydiant) er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf, yn enwedig parthed lefel defnydd y Gymraeg a dwyieithrwydd gan y busnesau. Yn y sector llety, awgrymwyd **Gwesty Cymru**, Aberystwyth a'r **Goeden Eirin** ger Caernarfon fel enghreifftiau o fusnesau lle mae'r Gymraeg yn ganolog, ac o ran atyniadau, **Gelli Gyffwrdd** (Greenwood Forest Park), Y Felinheli a **Folly Farm** yn Sir Benfro, lle ceir, yn y ddau, ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog anarferol a dychmygus. Y pedwar busnes hyn oedd man cychwyn y sampl.

**Yr astudiaeth beilot**

Penderfynwyd cynnal un cyfweliad fel astudiaeth beilot cyn trefnu rhagor er mwyn

- profi ymarferoldeb cyrchddull cynnal cyfres o gyfweliadau dwfn
- profi addasrwydd strwythur a chynnwys y cyfweliadau a grynhowyd ar ffurf canllawiau drafft (penodau/pynciau i'w trafod)
- cael syniad gwell o hyd tebygol y cyfweliadau
- profi ymarferoldeb recordio'r sgyrsiau ar beiriant recordio digidol

Daeth cyfle gwych i gynnal y peilot ar 25 Tachwedd 2014, yn sgil un o ddigwyddiadau Busnes Cymru i hybu defnydd y  Gymraeg ymhlith busnesau yn gyffredinol. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Ngwesty'r Parc, Aberystwyth ac roedd Huw Roberts, perchennog Gwesty Cymru yn un o'r tri siaradwr.  Ar ôl cysylltu'n anffurfiol dros y ffôn ac esbonio cefndir yr astudiaeth hon, cadarnhaodd Huw Roberts ei fod yn fodlon iawn i gymryd rhan yn y prosiect drwy roi cyfweliad. Roedd rhaid egluro mai hwn fyddai'r cyfweliad cyntaf i gyd, ac felly'n arbrofol; ond ni welodd Huw unrhyw broblem o gwbl ac roedd yn awyddus i helpu. Awgrymodd wneud hyn dros ginio yng Ngwesty Cymru ar ôl y digwyddiad yng Ngwesty'r Parc. Anfonwyd y canllawiau drafft gyda'r penodau a phynciau i'w trafod ato ymlaen llaw. Rhoddodd ganiatâd i recordio'r sgwrs ar beiriant recordio digidol.

Yn ogystal â bod yn brofiad diddorol a phleserus, roedd y cyfweliad peilot yn llwyddiannus o ran cadarnhau:

- ymarferoldeb y cyrchddull
- bod strwythur a chynnwys y canllawiau yn briodol ac yn addas at y diben: doedd dim angen newid y drafft gwreiddiol (gweler Atodiad 1)
- ymarferoldeb defnyddio'r peiriant recordio

Roedd hyd y cyfweliad (ychydig dros awr a hanner) ychydig yn fwy nag oeddwn yn disgwyl, ond rhaid ystyried natur hamddenol y cyfweliad yma, y ffaith mai hwn oedd y cyfweliad cyntaf ac yn arbrofol, a rôl canolog y Gymraeg a dwyieithrwydd yn y busnes (14). Fodd bynnag, roedd hyd y cyfweliadau yn ffactor ymarferol i'w gymryd i ystyriaeth, yn enwedig gyda gwrando ar y recordiadau a chymryd nodiadau manwl mewn golwg. Cymerodd y gwaith hwn rhyw bedair awr a hanner, sef tair gwaith hyd y cyfweliad ei hunan, heb sôn am waith dadansoddi. Roedd yn amlwg y byddai cynnal mwy na dwsin o gyfweliadau dwfn o'r math yma yn anymarferol o ran amser.

**Y sampl (2)**

Yn ystod y cyfweliad gyda Huw Roberts, awgrymodd gynnal cyfweliad â busnes arall (Yr Harbwrfeistr, Aberaeron) lle mae darpariaeth ddwyieithog hefyd yn ganolog. Drwy ddilyn yr awgrymiad yma, cymerwyd cam i gyfeiriad egwyddor '**samplu pelen eira**' neu '**samplu cadwyn**', ffurf ar **samplu di-debygolrwydd** lle ni ddewisir y sampl o ffrâm ond datblyga'r sampl yn organig gan ddefnyddio awgrymiadau'r cyfranogwyr. Prif fantais y dull yma yw dewis ymatebwyr sy'n berthnasol i ddiben yr ymchwil, yn enwedig os ydynt yn anodd i'w lleoli mewn rhestrau arferol. Ymhlith yr anfanteision, tuedda'r sampl i beidio â bod yn gynrychiadol o'r bydysawd (yn y cyd-destun hwn, busnesau twristiaeth yng Nghymru) ac mae perygl y byddai'n cynnwys ymatebwyr cymharol debyg i'w gilydd. Fodd bynnag, er y dilynwyd awgrymiadau'r cyfranogwyr, yn wirioneddol roedd dull dewis y sampl yn agosach at **samplu bwriadus** (Cohen, Mannion a Morrison 2011: 155-161) lle seilir y dewis ar ddiben yr ymchwil. Drwy gyfuniad o ymgynghori â chydweithwyr ac ag aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymchwil Twristiaeth (15), trwy ymchwil cefndirol ar y rhyngrwyd, ac awgrymiadau'r

cyfranogwyr, roedd yn bosib cael amcan eithaf eglur o natur ac addasrwydd busnesau at ddiben yr ymchwil, ac roedd yn hawdd cyrraedd targed o 10-12 o fusnesau.

Gellir amddiffyn a chyfiawnhau y dull samplu hwn am y rhesymau canlynol:

1. Nid ymchwil meintiol oedd hwn ond ymchwil ansoddol. Nid oedd manylrwydd ystadegol yn bwysig ond, yn hytrach, perthnasedd, cyfoeth a manylder y barn a fynegid gan yr ymatebwyr.

2. Nid oedd cyffredinoladwyedd (generalisability) y canlyniadau mor bwysig â'u cymhwysadwyedd (relatability), sef i ba raddau roedd y data'n addas i'w cymhwyso at bwrpasau ymarferol (Bassey, 1981). Am y rheswm hwn, nid oedd angen i'r sampl fod yn hollol gynrychiadol o fydysawd busnesau twristiaeth i gyd.

3. Er ei fod yn bwysig cael croestoriad o fusnesau yn y sampl, ffocws yr astudiaeth oedd defnydd y Gymraeg a darpariaeth Gymraeg a dwyieithog y busnesau yn hytrach na'u nodweddion cyffredinol.

Gweler Tabl 4 am fanylion y sampl terfynol.

**Tabl 4**

| Dyddiad | Enw'r busnes | Enw a swydd yr ymatebydd | Sector(au) | Rhanbarth | Proffil ieithyddol yr ardal: Canran siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2011) <10% 10-30% 30-50% 50-70% >70% | Proffil darpariaeth Gymraeg/ Dwyieithog y busnes: Uchel, Canolig, Isel | Rhesymau am ddewis | Wyneb-yn-wyneb (w-y-w) Ffôn<br><br>Lleoliad y cyfweliad | Iaith y cyfweliad | Hyd y cyfweliad (munudau) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 Tach. 2014 | Gwesty Cymru, Aberystwyth | Huw Roberts, Perchennog | Gwesty/Bwyty | Canolbarth | 50-70% | Uchel | Awgrymwyd gan dîm CC | w-y-w | Cymraeg | 94 |
| 8 Rhagfyr 2014 (a galwad mewn person 18 Rhagfyr 2014) | Y Goeden Eirin | John Rowlands Perchennog | Gwely a Brecwast | Gogledd | >70% | Uchel | Awgrymwyd gan dîm CC | Ffôn (a sgwrs ddilynol w-y-w) | Cymraeg | 48 |
| 10 Rhagfyr 2014 | Folly Farm | Zoë Wright Rheolwraig Marchnata | Atyniad | De-Orllewin | 10-30% | Canolig | Awgrymwyd gan dîm CC | Ffôn | Saesneg | 61 |
| 10 Rhagfyr 2014 | Portmeirion | Robin Llywelyn Rheolwr Gyfarwyddwr | Gwesty ac Atyniad | Gogledd | >70% | Uchel | Awgrymwyd gan John Rowlands | Ffôn | Cymraeg | 32 |
| 15 Rhagfyr 2014 | Llansantffraed Court | Mike Morgan Cyfarwyddwr/ Perchennog | Gwesty/Bwyty | De-Ddwyrain | 10-30% | Canolig/Isel | Aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymchwil CC | w-y-w | Saesneg | 116 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 Rhagfyr 2014 | Cadw | Catrin Elis Pennaeth Marchnata a Datblygu Twristiaeth | Corff Treftadaeth Cenedlaethol – Atyniadau Hanesyddol | Cenedlaethol | 10-30% proffil cenedlaethol | Uchel | Fel enghraifft o gorff cenedlaethol cyhoeddus | w-y-w | Cymraeg | 58 |
| 17 Rhagfyr 2014 | Gwesty'r Vale | Stephen Leeke Rheolwr Gyfarwyddwr | Gwesty/Bwyty Cyfleusterau Chwaraeon/ Sba | De-Ddwyrain | 10-30% | Isel | Aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymchwil CC | w-y-w | Saesneg | 54 |
| 18 Rhagfyr 2014 | Labyrinth y Brenin Arthur | Ian Rutherford Rheolwr Gyfarwyddwr | Atyniad | Canolbarth | 30-50% | Canolig/ Uchel | Aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymchwil CC | w-y-w | Saesneg | 42 |
| 19 Rhagfyr 2014 | Gelli Gyffwrdd (Greenwood Forest Park) | Stephen Bristow Rheolwr Gyfarwyddwr | Atyniad awyr agored | Gogledd | >70% | Canolig/ Uchel | Awgrymwyd gan dîm CC | w-y-w | Saesneg | 75 |
| 19 Rhagfyr 2014 | Nia Rhys Jones | Nia Rhys Jones<br><br>Tywysydd Bathodyn Glas, aelod WOTGA (cymdeithas y dywysyddion) | Tywysydd Bathodyn Glas a Darlithydd mewn Twristiaeth | Gogledd | >70% | Isel (o ran busnes presennol) | Fel enghraifft o Dywysydd Bathodyn Glas | w-y-w | Cymraeg | 74 |
| 22 Rhagfyr 2014 | Yr Harbwrfeistr, Aberaeron | Glyn Heulyn Perchennog | Gwesty/Bwyty | De-Orllewin | 50-70% | Uchel | Awgrymwyd gan Huw Roberts | Ffôn | Cymraeg | 33 |
| 16 Ionawr 2015 | Gwesty'r Ambassador, Llandudno | David Williams Perchennog | Gwesty | Gogledd | 10-30% | Isel | Awgrymwyd gan Nia Rhys Jones | Ffôn | Saesneg | 45 |

**Canllawiau ar gyfer y cyfweliadau: strwythur, cynnwys, penawdau** (gweler Atodiad 1)

Profwyd y canllawiau drafft yn yr astudiaeth beilot. Dewiswyd y penawdau a'r is-bynciau i sefydlu proffil a chefndir y busnesau a'u cwsmeriaid, lefel/natur y ddarpariaeth Gymraeg/dwyieithog bresennol, agweddau'r busnes at ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, naws lle ayyb ac, felly, i ymchwilio i'r newidynnau sy'n effeithio ar y ddarpariaeth hon. O safbwynt ymarferol, er mwyn strwythuro'r canllawiau, roedd rhaid rhagweld rhai o'r newidynnau pwysicaf (proffil y busnes; proffil ieithyddol y perchnogion/rheolwyr a'r staff; proffil y cwsmeriaid; cyfansoddiad ieithyddol yr ardal; agwedd y perchnogion at yr iaith; a blaenoriaethau marchnata), ond hefyd bod yn agored i newidynnau eraill wrth gynnal y cyfweliadau. Anfonwyd y canllawiau at yr ymatebwyr ymlaen llaw.

Er i'r canllawiau roi strwythur i'r cyfweliadau, roedd yn bosib newid trefn y penawdau yn ôl amgylchiadau unigol pob cyfweliad a gadael i'r sgwrs ddatblygu'n naturiol. Yn y fordd yma, nid oedd y strwythur yn rhwystro'r ymatebwyr rhag cyfleu gwybodaeth ac roedd yn bosib gofyn cwestiynau ychwanegol yn ôl yr angen (gweler Longhurst, 2003). Roedd rhai pynciau o ddiddordeb mawr i rai ymatebwyr, ond yn amherthnasol i eraill.

Dylanwadwyd ar yr ymchwil i ryw raddau gan **ddamcaniaeth seiliedig**. Yn y cyrchddull yma, a gysylltir â Barney Glaser (1998), symudir o'r data a gasglwyd i gyfeiriad damcaniaeth. Mae'r cyrchddull felly yn **anwythol** yn ei hanfod, ac fe weithia mewn ffordd groes i ymchwil yn y traddodiad positifaidd, lle defnyddir fframwaith damcaniaethol sydd eisoes yn bodoli. Er nad oedd llunio damcaniaeth ffurfiol yn amcan yn y prosiect hwn, roedd angen dadansoddi'r data a seilio casgliadau ymarferol parthed y newidynnau sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Un nodwedd o gasglu data yn ôl dull damcaniaeth seiliedig yw hyblygrwydd: rhaid bod yn agored i ganiatáu newidiadau (e.e. trefn y penawdau) wrth gynnal yr ymchwil. Roedd y canllawiau yn addas at y ddiben ac yn cynnwys digon o hyblygrwydd i gasglu ystod eang o wybodaeth.

**Ystyriaethau ymarferol**

Am resymau ymarferol, cynhaliwyd 7 cyfweliad wyneb-yn-wyneb, a 5 dros y ffôn. Cyfartaledd hyd y cyfweliadau oedd 61 munud. Er i bob cyfweliad fod yn hollol

foddhaol o ran ansawdd a chyfoeth y data a gasglwyd, ar y cyfan roedd y rhai wyneb-yn-wyneb yn fwy hamddenol ac yn hwy (cyfartaledd hyd 85 munud o gymharu â 44 munud dros y ffôn), oherwydd yr elfen gymdeithasol ac, o bosib, y ffaith fy mod wedi gwneud ymdrech amlwg i deithio pellter i gynnal y cyfweliadau.

Roedd pob ymatebydd yn y sampl yn fodlon iawn i gyfrannu yn yr ymchwil. Cafwyd un gwrthodiad yn unig (gwesty yn y Canolbarth, a awgrymwyd fel enghraifft o westy bach safonol nad oedd yn mabwysiadu delwedd Gymreig) ac un gwahoddiad heb ymateb (atyniad hanesyddol a awgrymwyd fel enghraifft o atyniad newydd lle roedd y Gymraeg yn bwysig i ddelwedd y busnes).

Cynhaliwyd 6 chyfweliad yn Gymraeg a 6 yn Saesneg. Nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng hyd y cyfweliadau o ran iaith er bod cyfartaledd hyd y rhai Saesneg rywfaint yn uwch (65 munud o gymharu â 56 munud i'r rhai Cymraeg) oherwydd hyd un o'r cyfweliadau Saesneg (bron dwy awr). Hwylusodd recordio'r cyfweliadau (wyneb-yn-wyneb a dros y ffôn) y broses yn sylweddol am nad oedd rhaid cymryd nodiadau manwl yn ystod y cyfweliad ac roedd yn bosib cyfeirio yn ôl at y recordiadau sain wrth gymryd nodiadau a dadansoddi. Cytunodd pob ymatebydd i ddefnydd y peiriant recordio heb unrhyw broblem.

Cynhaliwyd 12 o gyfweliadau i gyd er mwyn sicrhau croestoriad perthnasol a digonol (gweler tud. 42-43).

Yn ychwanegol, cynhaliwyd dau gyfarfod defnyddiol iawn â Swyddfa'r Comisiynydd:

1. Gyda Carys Morgan (Swyddog Hybu a Hwyluso), Gethin Edwards (Uwch Swyddog Hybu a Hwyluso) ac Osian Bowyer (Swyddog Polisi ac Ymchwil) ar gychwyn yr ymchwil er mwyn trafod amcanion, cynnwys a deilliannau'r astudiaeth,
2. Gyda Carys Morgan i roi adborth ar y gwaith maes ac i drafod y canlyniadau, y casgliadau a'r argymhellion dros dro.

**Dull recordio data ar gyfer dadansoddi**

Ar ôl cynnal y cyfweliadau roedd rhaid nodi'r data drwy wrando ar y recordiadau a chymryd nodiadau i hwyluso cyfeirio at y data a dechrau'r gwaith dadansoddi. Ni thrawsgrifwyd pob gair o'r recordiadau ond cymerwyd nodiadau manwl gan gynnwys dyfyniadau priodol (gweler Atodiad 2) ac, wrth ddadansoddi, os nad oedd pwnc yn eglur, roedd bob amser yn bosib dychwelyd at y recordiadau sain.

Dylanwadwyd ar y cyrchddull dadansoddi gan brofiad ymchwil personol blaenorol (Lewis, R.M., 2010) lle crynhowyd ystod eang o ddata o ddadansoddiadau unigol ar ffurf templedi er mwyn hwyluso cymharu'r atebion a'r prif themâu ar draws y sampl cyfan. Roedd y dull hewristig yma eto'n ddefnyddiol.

Y cam nesaf oedd dehongli'r data a grynhowyd ar y templedi dadansoddol. Dilynwyd yn fras ac yn anffurfiol drefn dadansoddi damcaniaeth seiliedig.

Defnyddiwyd **codio agored** anffurfiol er mwyn cysyniadoli ar lefel gyntaf haniaethu, h.y. archwilio'r nodiadau yn fanwl iawn er mwyn sefydlu'r themâu a'r cysyniadau pwysicaf, a'u marcio mewn lliwiau gwahanol i'w cysylltu'n rhwyddach. Mewn gwirionedd, hwyluswyd y broses yn fawr gan strwythur a threfn y canllawiau ond roedd sawl enghraifft lle bu'r ymatebwyr, wrth ymhelaethu'n naturiol ar drafodaeth ar un thema, yn rhoi sylwadau ar bwnc a restrwyd mewn man arall yn y canllawiau. Y cam nesaf oedd mireinio gan ddefnyddio **codio detholus**, h.y. ystyried y prif themâu yn fanlyach er mwyn ymchwilio i'r newidynnau craidd. Crynhowyd y canfyddiadau ar y sail yma er mwyn eu cyflwyno'n systematig yn ôl thema.

**Yr ymchwil meintiol**

Bu sylwadau ynghylch yr iaith Gymraeg yn ymgodi mewn ymchwil ansoddol blaenorol (Bwrdd Croeso Cymru, 1985 a 2003, a Croeso Cymru/Cyngor Celfyddydau Cymru, 2009), ac aseswyd proffil (gweler tud. 30-38) pobl a soniai am yr iaith fel rhwystr rhag treulio gwyliau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2013c), ond ni ofynnwyd erioed o'r blaen gwestiwn penodol ar gyfraniad y Gymraeg mewn perthynas â gwyliau yng Nghymru.

Er rhoddwyd y pwyslais yn yr astudiaeth hon ar yr ymchwil ansoddol fel modd uniongyrchol i ymchwilio i agweddau busnesau twristiaeth at ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, cynhaliwyd elfen o ymchwil meintiol cyflenwol i dynnu ciplun o ganfyddiadau defnyddwyr. Cynhwyswyd dau gwestiwn ar Arolwg Poblogaeth Prydain Fawr, cydran o waith gwerthuso marchnata Croeso Cymru (16), am gyfnod o 8 wythnos yn olynol, rhwng Ionawr a Mawrth 2015 gyda tua 100 cyfweliad bob wythnos (cyfanswm o 842 ymateb). Seilir yr arolwg ar banel ar-lein Research Now (tua 408,000 o gyfranogwyr) gydag aelodaeth sydd yn adlewyrchu poblogaeth Prydain Fawr o ran proffil demograffig, sosio-economaidd, oedran ayyb. Dewisir y 100 cyfranogwr bob wythnos i adlewyrchu proffil poblogaeth Prydain, gyda manylder cynyddol bob wythnos.

Roedd dau reswm ymarferol am ddewis y cyrchddull hwn. Yn gyntaf, roedd yn bosib cael sampl sylweddol yn fwy ac o ansawdd well nag y byddai'n bosibl ar sail arolwg meintiol graddfa fechan annibynnol o'r math sy'n nodweddiadol o draethodau academaidd.

Yn ail, lluniwyd yr ymchwil gyda chyd-destun polisi a darpariaeth go iawn mewn golwg. Bwriedid integreiddio'r ymchwil yma gyda rhaglen ymchwil arferol Croeso Cymru er mwyn sicrhau synergeddau ymarferol, e.e. dulliau segmenteiddio'r farchnad a galluogi cymariaethau.

Fodd bynnag, roedd gan y cyrchddull gyfyngiadau:

- Focyswyd ar ddefnyddwyr *Prydeinig* yn unig. Tuedda ymwelwyr o dramor i roi mwy o bwyslais ar ddiwylliant y cyrchfan (gweler y drafodaeth ar Naws lle, tud. 11-12).
- Byddai agweddau'r farchnad fewnol yng Nghymru at ddefnydd y Gymraeg/dwyieithrwydd llawer yn fwy positif. Ni soniodd neb o Gymru (gweler tud. 34) am yr iaith fel rhwystr rhag treulio gwyliau yng Nghymru, a gweler tud. 39 am fanylion maint a phwysigrwydd y farchnad Gymreig a Chymraeg.

Cynhwyswyd dau gwestiwn paralel i brofi a fyddai gwahaniaeth rhwng agweddau at ieithoedd tramor ac agweddau at y Gymraeg:

**Thinking about holidays and short breaks in general, how would seeing and hearing the local language contribute to your visit?**

**Positively**
**Somewhat positively**
**Neither positively nor negatively**
**Somewhat negatively**
**Negatively**
**Don’t know**

**Thinking about holidays and short breaks in Wales, how would seeing and hearing the Welsh language contribute to your visit?**

**Positively**
**Somewhat positively**
**Neither positively nor negatively**
**Somewhat negatively**
**Negatively**
**Don’t know**

Yn ogystal, cynhwysywd cyfle i roi sylwadau ar gyfraniad ieithoedd lleol i’r profiad gwyliau.

**Please provide any comments you have on how local languages can contribute to your holiday experience?**

**Dadansoddi’r data**

Amlinellwyd a datblygwyd y croesdablau gan ddefnyddio meddalwedd Q i gynhyrchu’r croesdablau gydag atebion posibl y ddau gwestiwn ar yr ochr a’r newidynnau proffil (oedran, rhyw, trigfan, manylion sosio-economiadd, ayyb) ar draws pennau’r colofnau. Allgludwyd hyn i Excel a defnyddiwyd Excel i greu siartiau bar. Cynhwyswyd y niferoedd crai er mwyn galluogi dadansoddiadau pellach yn ôl yr angen.

**Ystyriaethau Moesegol ac Iechyd a Diogelwch**

Cynhaliwyd yr astudiaeth yn unol ag egwyddorion y Brifysgol a Fframwaith Moeseg Ymchwil ESRC.

Rhoddwyd y cyfle i bob ymatebydd gadw unrhyw sylwadau yn gyfrinachol os oedd angen ond rhoddodd pob ymatebydd ganiatâd llwyr a diamod i gynnal a recordio’r cyfweliadau ar beiriant recordio digidol ac i ddyfynnu o’r cyfweliadau. Cynhaliwyd y

cyfweliadau wyneb-yn-wyneb yn y busnesau a'r rhai dros y ffôn o swyddfa Croeso Cymru yn Nhrefforest.

**CANLYNIADAU**

**YR YMCHWIL ANSODDOL**

**Darpariaeth Gymraeg a dwyieithog bresennol**

Fel y sylwyd yn barod, ar hyn o bryd mae darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn hollol wirfoddol ar lefel busnesau preifat ac, o ganlyniad, ceir ystod o ymatebion: rhai busnesau lle mae'r iaith Gymraeg yn hollol ganolog, rhai lle mae defnydd yr iaith yn rhannol (e.e. fel cydran naws lle), ac eraill lle ystyrir darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn ymylol neu'n amherthnasol. (Gweler Atodiad 2 am broffil y busnesau a'r ymatebwyr.)

Cynhaliwyd 6 chyfweliad yn Gymraeg (Gwesty Cymru, Y Goeden Eirin, Portmeirion, Yr Harbwrfeistr, Cadw a Nia Rhys Jones fel Tywysydd Bathodyn Glas). Yn achos y pedwar busnes cyntaf, mae eu darpariaeth yn hollol ddwyieithog, naill ai gyda'r ddwy iaith ochr yn ochr (e.e. y bwrdd du y tu ôl i'r bar gyda'r fwydlen) neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (e.e. gwefannau). Mae pob gwasanaeth ar gael trwy gyfrwng y ddwy iaith.

Mae Cadw yn gorff cenedlaethol llywodraethol ac yn unol â'r Cynllun iaith, mae'r ddarpariaeth i gyd yn ddwyieithog, eto gyda'r ddwy iaith ochr yn ochr (e.e. rhai byrddau dehongli yn yr henebion) neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (e.g. teithiau clywedol, rhai llyfrynnau). Fodd bynnag, nid yw'r staff yn yr henebion o reidrwydd yn siarad Cymraeg.

Gweithia Nia Rhys Jones fel darlithydd mewn Twristiaeth yng Ngholeg Llandrillo Menai. Yn 2008 ymgymhwysodd fel Tywysydd Bathodyn Glas. Gwêl hi dywys twristiaid 'fel gyrfa mewn efallai deng mlynedd'. Mae hi'n tywys trwy gyfrwng y Gymraeg 'fel bo'r gofyn' a soniodd am aelodau eraill o Gymdeithas y Tywysyddion oedd yn gweithio yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhaliwyd 6 chyfweliad yn Saesneg (Folly Farm, Gelli Gyffwrdd, Labyrinth y Brenin Arthur, Llansantffraed Court, Gwesty'r Vale a Gwesty'r Ambassador, Llandudno). Ceir darpariaeth Gymraeg a dwyieithog sylweddol yn y tri busnes cyntaf – i gyd yn y sector

atyniadau – ond nid yw pob elfen yn ddwyieithog.

Ceir rhai elfennau dwyieithog yn Llansantffraed Court fel cydran o naws lle. Rhoddwyd pwyslais mawr ar fwyd o Gymru. Mae mwyafrif yr arwyddion yng Ngwesty'r Vale yn ddwyieithog, eto fel cydran o naws lle. Ceir peth pwyslais ar gynnyrch Cymreig, ond prif bwyslais y busnes o ran marchnata yw natur ac ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaeth. Yn y ddau fusnes yma, mae defnydd y Gymraeg yn symbolaidd yn bennaf.

Fel mwyafrif y gwestai yn Llandudno, prif farchnad yr Ambassador yw Gogledd Lloegr ac mae cysylltiadau hirsefydlog â nifer o gwmnïau coetsis. Rhoddir pwyslais ar y cyfleusterau, y gwasanaeth, natur gyfeillgar, deuluol y gwesty, ei leoliad yn Llandudno ac ar werth am arian. Ni ddefnyddir yr iaith Gymraeg fel rhan o'r cyflwyniad heblaw am ambell air neu ymadrodd achlysurol.

Gweler Tabl 5 am grynhoad o ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog bresennol y 12 busnes.

**Tabl 5**

**Crynodeb darpariaeth Gymraeg a dwyieithog bresennol**

**C = Cymraeg**
**D = Dwyieithog**
**S = Saesneg**

**DS: Weithiau ceir darpariaeth** C+S a **D** (e.e. rhai llyfrynnau Cymraeg a Saesneg a rhai dwyieithog)

| | Gwasanaethau | Gwefan | Arwyddion | Hysbysebion | Llyfrynnau | Bwydlenni | Darpariaeth arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwesty Cymru** | D | C+S | D | D | D | C+S | |
| **Y Goeden Eirin** | D | C+S | - | - | D | C+S | |
| **Portmeirion** | D | C+S | D | D | D | D | |
| **Yr Harbwrfeistr** | D | C+S | D | D | D | D | |
| **Cadw** | D | C+S | D | C+S | C+S | - | Teithiau clywedol yn rhai safleoedd C+S Gwasanaeth addysgol C+S |
| **Nia Rhys Jones** | D | S (WOTGA – cymdeithas y tywysyddion) | - | - | - | - | Dysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg i'w grwpiau a dehongli diwylliant Cymreig C+S |
| **Folly Farm** | D (rhannol) | S | D (rhannol) | S (+rhai C) | S (+rhai C) | - | Llwybr Cymraeg (crynodebau C) Llwybr Dysgwyr Cymraeg D Rhaglen addysgol allanol C+S |
| **Gelli Gyffwrdd** | D (rhannol) | S (gyda pheth C) | D (mwyafrif) | S (gyda pheth C) | S (gyda pheth C) | S | Cerrig y Cerddi: detholiad o farddoniaeth Gymraeg wedi'i gerfio ar 16 maen llechi C (+ cyfieithiadau S) |
| **Labyrinth y Brenin Arthur** | D (rhannol) | C +S (y brif wefan) | D (mwyafrif) | S | S | S | Teithiau tanddaearol C+S Chwedlau Coll y Cylch Cerrig C+S |
| **Llansantffraed Court** | S | S | S | S | S | S gyda phenawdau C | Rhagolygon tywydd D Llofnodion e-bost D |
| **Gwesty'r Vale** | S | S | D | S | S | S | |
| **Gwesty'r Ambassador** | S | S | S | S | S | S | |

Awn i'r afael i drafod y prif newidynnau sy'n effeithio ar natur y ddarpariaeth ond, yn gyntaf, ystyriwn fanteision ac anfanteision canfyddedig darpariaeth Gymraeg a dwyieithog a adroddwyd gan yr ymatebwyr yn yr ymchwil ansoddol.

## Manteision

### Pwynt gwerthu unigryw

Ystyrir defnydd yr iaith Gymraeg yn **rhan annatod o'r busnes** gan y pedwar busnes llety lle cynigir pob gwasanaeth yn ddwyieithog (Gwesty Cymru, Y Goeden Eirin, Portmeirion a'r Harbwrfeistr). Dyma naws y busnesau yma: mae'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn ganolog i'w darpariaeth ac i'w hathroniaeth fusnes.

Soniodd sawl ymatebydd am ddarpariaeth ddwyieithog fel modd gwahaniaethu'r busnes oddi wrth y gystadleuaeth ac, felly, creu pwynt gwerthu unigryw (unique selling point=USP). Fel esboniodd Huw Roberts, Gwesty Cymru:

> Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i naws y busnes, yn rhan annatod, yn hanfodol. Defnyddir yr iaith i gyfathrebu ond hefyd fel USP i wahaniaethu'r busnes. Mae'r iaith yn hanfodol ym mhroses creu naws y busnes ei hunan. Mae'r iaith yn darparu rhan annatod o 'wead' y lle.

Cytunodd Robin Llywelyn, Portmeirion fod defnydd y Gymraeg

> yn dangos gwahaniaeth rhwng y busnes a busnesau eraill sy'n cadw at wasanaeth uniaith Saesneg

ac ymhellach fod y Gymraeg 'yn rhoi stamp ar y cynnyrch', yn rhan o frandio, felly.

Sylwodd John Rowlands, Y Goeden Eirin, fod Cymreictod 'yn codi o'r cefndir diwylliannol, yn beth naturiol i'r ardal' ac hefyd 'yn rhan o gynaliadwyedd'. Cytunodd fod 'manteision marchnata yn bodoli, ond efallai nid yn fwriadol neu'n bennaf', ond pwysleisiodd Zoë Wright, Folly Farm, fanteision marchnata defnydd y Gymraeg:

> It's a USP. It differentiates Folly Farm from similar farm park attractions elsewhere in the UK and from other atractions of all kinds in Wales. Not many attractions in Wales have embraced the Welsh language as we have.

Soniodd hefyd am rôl y Gymraeg o ran adeiladu'r brand a gwahaniaethu hir-dymor.

### Cyfoethogi profiad yr ymwelwyr

Cysyllta Glyn Heulyn, Yr Harbwrfeistr, fanteision gwahaniaethu'r busnes â chyfoethogi profiad y gwesteion.

> Rwy'n credu bach iawn o fusnesau yn Nghymru sy'n gwneud popeth yn ddwyieithog, felly mae lot o Gymry yn gwybod eu bod yn dod i'r gwesty a bod pawb yn siarad Cymraeg. Mae'n fantais fawr i ni fel busnes. Hefyd mae pobl o dramor neu o Loegr....yn dod a gweld popeth yn ddwyieithog ac mae fe'n rhoi mwy o sbeis i'w gwyliau nhw, yn dangos eu bod nhw mewn gwlad wahanol.

Soniodd John Rowlands, Y Goeden Eirin, fod llawer o westeion di-Gymraeg yn cymryd diddordeb yn yr iaith. Yn aml bydd sgwrs yn dechrau am ystyr ac ynganiad enwau lleoedd. Er y gallai'r diddordeb yma fod yn arwynebol, gwêl hyn yn bositif. Esboniodd hefyd fod rhai gwesteion wedi dysgu peth Cymraeg ac felly bod yr iaith yn atyniad yn ei hun.

**Normaleiddio**

Cytuna Robin Llywelyn, Portmeirion fod darpariaeth Gymraeg yn ychwanegu gwerth i'r siaradwyr Cymraeg, ond hefyd, yn ôl ymchwil a gynhaliwyd, fod 97.5% o gwsmeriaid yn gyffredinol yn cefnogi'r ddarpariaeth. Gwêl Robin Llywelyn ddefnydd y Gymraeg yn ei fusnes yn rhan o normaleiddio dwyieithrwydd:

> Mae gennym iaith ein hunain a'r Saesneg fel iaith cyfathrebu rhyngwladol. Mae'r iaith yn annog diddordeb ymhlith cwsmeriaid di-Gymraeg. Mae defnydd y Gymraeg yn rhoi'r iaith yn ei gwir le. Mae'n osgoi gwatwar – dim cuddio dan garthen. Peth hollol naturiol.

Soniodd Huw Roberts, Gwesty Cymru, hefyd am normaleiddio defnydd y Gymraeg sydd hefyd yn codi statws yr iaith:

> Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r busnes, USP y gwesty. Mae elfennau gweledol (bwydlenni, englyn Mererid Hopwood ayyb), ac mae'r gwesteion yn clywed yr iaith. Maen nhw'n ymddiddori - wrth eu boddau. Dyma normaleiddio sefyllfa'r iaith.

**Naws lle**

Ymhlith y busnesau i gyd – nid yn unig y busnesau dwyieithog – mae cytundeb bod yr iaith yn gydran o naws lle. Cymharodd Mike Morgan ddefnydd yr iaith yn ei westy, Llansantffraed Court, â darpariaeth ddwyieithog Portmeirion a Gwesty Cymru (mae'r tri gwesty yn aelodau o grŵp marchnata *Welsh Rarebits* a gyfarwyddir gan Mike Morgan).

> Our use of the Welsh language has a different role and emphasis from Portmeirion, where a large number of customers would be Welsh-speaking.

> Similarly Gwesty Cymru – a business decision for them. At Llansantffraed Court the use of Welsh is entirely part of sense of place, to build atmosphere, part of the difference , to say ‘We’re not in the Thames Valley but in Monmouthshire, Wales’.

Yn Llansantffraed Court, rhoddir pwylais mawr ar fwyd lleol - elfen bwysicaf creu naws lle yn y busnes hwnnw:

> It’s part of sense of place, it differentiates the business. The local emphasis can lead to financial benefits and I can prove it. If I put ‘Andrew Morgan’s, Middleton Farm, Bwlch, pedigree Welsh Black’ instead of just ‘Welsh beef’, I can charge more for that piece of beef than if I’d left that description out. I’m saying, ‘You can trust me’ and the customers are positively disposed to enjoy that beef more.

Yng Ngwesty’r Vale hefyd, er i’r pwyslais fod ar ansawdd y cyfleusterau ffisegol a lefel gwasanaeth, cytuna Stephen Leeke fod naws lle yn eithaf pwysig. Mae arwyddion dwyieithog yn cyfrannu ond fel yn Llansantffraed Court, mae cynnyrch lleol yn chwarae rôl bwysig o ran creu naws lle.

Gwêl Ian Rutherford, Labyrinth y Brenin Arthur, fod yr iaith Gymraeg yn cryfhau naws lle ac yn gwahaniaethu’r atyniad oddi wrth atyniadau yn Lloegr. Pwysleisiodd naws Gymreig y chwedlau a adroddir ar y teithiau tanddaearol.

**Manteision economaidd**

Mae tystiolaeth sy’n dangos manteision economaidd yn bwysig iawn, yn enwedig pan fydd busnesau yn ystyried darpariaeth ddwyieithog yn gost ychwanegol. Tynnodd Zoë Wright, Folly Farm, sylw at lwyddiant ysgubol y digwyddiadau Cyw, a drefnwyd mewn cyd-weithrediad â S4C. Gwelir cynnydd sylweddol yn nifer yr ymweliadau ar y dyddiau arbennig yma, lle targedir siaradwyr Cymraeg (teuluoedd â phlant ifanc). Ar ddiwrnod arferol, daw rhyw 3,000-3,500 o ymwelwyr, ond ar ddiwrnodau Cyw ceir 5,000-6,000, cynnydd o rhyw 2,000 o ymwelwyr.

Soniodd hefyd fod yr atyniad wedi gwneud yn well yn ystod y dirwasgiad diweddar oherwydd roedd yn bosib, oherwydd y ddarpariaeth ddwyieithog, fanteisio ar farchnadoedd lleol ac adeiladu cadwyni cyflenwad lleol.

Yn ogystal, soniodd Catrin Elis, Cadw, am lwyddiant y digwyddiad yn Hydref 2014 a drefnwyd gan Urdd Gobaith Cymru yng Nghastell Caerffili i godi arian at Eisteddfod yr

Urdd yn 2015.  Daeth dros 3,000 o ymwelwyr i'r safle, dros 500 o oedolion, 1,500 o blant a 1,000 o fyfyrwyr.  Dros y penwythnos cyfan cafwyd 3,410 o ymwelwyr i'r safle, o'i gymharu â 713 dros yr un penwythnos yn 2013, sef cynnydd o 79%, a dros 2,500 o ymwelwyr ychwanegol.

Pan ofynnwyd ynghylch manteision economaidd, cytunodd Huw Roberts, Gwesty Cymru, Glyn Heulyn, Yr Harbwrfeistr a Robin Llywelyn, Portmeirion, ei fod yn amhosib dweud pa wahaniaeth a fyddai pe na bai darpariaeth ddwyieithog, am fod y ddarpariaeth wedi bod ar gael ers sefydlu'r busnes (neu ers 30 mlynedd yn achos Portmeirion).  Serch hynny, tynnodd y tri sylw at y ffaith bod eu busnesau'n llwyddiannus.  Dywedodd Huw Roberts fod ei drosiant dros £700,000 o'i gymharu â tharged o £500,000, fod y busnes yn cynnal 22 o deuluoedd a bod canran uchel (hyd at 90%) o'r gwariant yn aros yn yr economi lleol.

Gellir cyferbynnu'r sylwadau hyn am fanteision economaidd dwyieithrwydd â chasgliad Greg Thomas (2014) nad oedd busnesau dwyieithog wedi ymdopi'n well neu'n waeth yn nirwasgiad 2008-13 na busnesau uniaith Saesneg.  Serch hynny, nid yw'r canlyniadau hyn o reidrwydd yn gwrthddweud rhai Greg am eu bod yn adlewyrchu perfformiad ar ddyddiau arbennig neu broffidioldeb cyffredinol yn hytrach na pherfformiad yn y dirwasgiad yn benodol.  Mae busnesau llwyddiannus (e.e. Gwesty'r Vale a Gwesty'r Ambassador) lle ni cheir llawer o ddarpariaeth ddwyieithog.

Casglodd Greg Thomas hefyd fod y busnesau dwyieithog wedi manteisio yn y dirwasgiad yn bennaf o ran adeiladu rhwydweithiau lleol, uniaethu â'r gymuned a bod mewn sefyllfa well i ennill busnes lleol. Casglodd fod defnydd yr iaith Gymraeg yn fantais o ran creu naws lle ac adeiladu brand y busnesau dwyieithog. Cytuna canlyniadau'r astudiaeth bresennol â'r casgliadau hyn.

**Manteision cymunedol**

Categori pwysig arall o fanteision a adroddwyd yn y cyfweliadau oedd  rhai cymunedol. Sylwodd Robin Llywelyn, Portmeirion, fod y polisi dwyieithog yn 'dangos bod yn busnes yn rhan o'r gymuned, yn apelio at hanner miliwn o siaradwyr Cymraeg'.

Soniodd Steve Bristow, Gelli Gyffwrdd, am ddarpariaeth Gymraeg fel ffordd o gysylltu â'r gymuned:

> It's enlightened self-interest. You do it not only for commercial reasons but also because you believe in it....You see the influences that affect a business. I've always believed we should be working with the Welsh language. You realise how much the local population appreciated this. Once you have established trust, if there were difficulties, they'd rally round and support.

Pwysleisiodd Mike Morgan, Llansantffraed Court, effeithrwydd adeiladu rhwydweithiau cyflenwad lleol:

> It's the right thing to do but also pays back financially....Using local suppliers does really repay in the longer term. For example, a daughter may have a wedding, or a relative may be having a party, and they'll think of Llansantffraed Court. It builds a network.

Barn Ian Rutherford, Labyrinth y Brenin Arthur, yw bod darpariaeth ddwyieithog 'y peth iawn i'w wneud'. Mae hefyd elfen o gyfrifoldeb i'r ddarpariaeth:

> A business in Wales, in a Welsh-speaking area and I guess we could have come in for some criticism if we didn't.

Cytunodd Zoë Wright, Folly Farm, fod elfen o osgoi beirniadaeth i resymeg eu darpariaeth ddwyieithog:

> If I'm completely honest, (also) to counteract complaints. These are, however, small in number but we can explain our Welsh language policy and the programme of activity planned.
>
> It generates good will....Welsh visitors like to see the Welsh language on site. It reinforces identity.

Sylwodd hefyd fod y busnes wedi gwneud yn well yn y dirwasgiad o'i gymharu ag atyniadau lleol eraill, drwy allu buddio o farchnadoedd lleol Cymreig ac adeiladu rhwydweithiau cyflenwad lleol.

Roedd John Rowlands, Y Goeden Eirin, yn ymwybodol iawn o rôl defnydd yn Gymraeg fel elfen o gynaliadwyedd ddiwylliannol, sy'n adlewyrchu cenhadaeth y busnes:

> Byw yn wyrdd, yn gynaliadwy, a'r iaith, Cymreictod a diwylliant yn rhan o hyn.

**Y Gymraeg yn adnodd**

Ystyria Nia Rhys Jones fod yr iaith yn adnodd pwysig wrth ddehongli Cymru i'w grwpiau:

> Pan dwi ar y bws, rwy'n gallu dweud am Bortmeirion, bod popeth yn ddwyieithog ac yng Nghaernarfon bod 95% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Hefyd rwy'n rhoi gwersi bach Cymraeg.

Yn yr un modd, soniodd John Rowlands, Y Goeden Eirin, fod y llyfrau Cymraeg yn y tŷ yn ennyn diddordeb ymhlith y gwesteion, fel y mae englyn Mererid Hopwood yn y bwyty yng Ngwesty Cymru, ac yn creu cyfle i siarad am yr iaith.

**Anfanteision**

**Costau**

Crybwyllwyd gan sawl busnes, gan gynnwys rhai sydd wedi mabwysiadu dwyieithrwydd, gostau ychwanegol darpariaeth ddwyieithog. Barn Catrin Elis, Cadw, yw bod '*syniad* o gost' yn rhwystr, yn hytrach na'r costau eu hunain. Soniodd am enghraifft Plas Llanelli lle talwyd £20,000 am lestr arbennig ond nid oedd bwydlen Gymraeg ar gael, a fyddai wedi costio £20 i'w chyfieithu. Teimlodd fod

> ....angen codi ymwybyddiaeth nad yw rhoi darpariaeth Gymraeg cymaint o fyrdwn ag yw pobl yn ei feddwl. Mae pobl yn clywed 'Cymraeg' ac yn meddwl 'Faint o bres?'

Er bod mor gryf dros blaid defnydd yr iaith, cytunodd Huw Roberts, Gwesty Cymru, nad yw'n rhwydd bob amser.

> Mae'n waith caled i ddechrau. Pan sefydlon ni, cawson help gan Fwrdd yr Iaith i gyfieithu termau. Pa gefnogaeth sydd ar gael nawr? .....Does dim mantais yn syth: mae'n rhywbeth hirdymor.

Soniodd am bolisi dwyieithog John Lewis, Tesco a Starbucks (Aberystwyth) yn adlewyrchu newid cefndirol a bod y llanw yn troi. Roedd o'r farn bod gan y cwmnïau mawr yr adnoddau i gyflawni er credant hefyd mai dyma'r peth iawn i'w wneud.

Wrth drafod agwedd negyddol rhai busnesau at gostau dwyieithrwydd, sylwodd Robin Llywelyn, Portmeirion:

> Maen nhw yn y busnes anghywir os 'dy nhw eisiau denu pobl ac ennill ewyllys da. Mae'r costau uwch o bosib yn cynyddu gwerth y cynnyrch, yn fy marn i.

Fodd bynnag, roedd persbectif a phryderon Stephen Leeke, Gwesty'r Vale, yn wahanol:

> I guess it's a return on investment thing. I would love Welsh to be more prominent than it is but the fact is that the local population don't speak it, our staff don't speak it. Very few of our customers speak it. It's not easy from a

> business perspective to implement a Welsh speaking strategy. If we wanted to make more of a provision, it would actually cost us quite a lot of money to get everything translated as there aren't any people in the business who could translate it.

Ym marn Zoë Wright, Folly Farm, yr unig ddadl yn erbyn darpariaeth ddwyieithog yw'r costau.

**Dylunio**

Soniodd Glyn Heulyn, Yr Harbwrfeistr, am broblemau dylunio ac amser staff:

> Mae'n cymryd amser i sgrifennu pob bwrdd du ddwywaith. Ar y fwydlen, mae'n rhaid gwneud yn siwr bod lle i'r ddwy iaith. Lot haws defnyddio dim ond un iaith ond 'yn ni'n ymwybodol bod rhaid gwneud.... Mae costau ychwanegol achos mae'n cymryd mwy o amser o ran dylunio ac o ran amser staff.

Profiad Robin Llywelyn, Portmeirion, yw bod

> ychydig o waith ychwanegol i ddarparu fersiwn mewn dwy iaith, ychydig waith meddwl wrth gynllunio bwydlenni, taflenni, llyfrynnau a hysbysebion er mwyn sicrhau defnydd cytbwys, gweddus, taclus a chreadigol o'r ddwy iaith.

Tynodd sylw at sefyllfa debyg yng Nghanada o ran defnydd y Ffrangeg a'r Saesneg.

Crybwyllodd Ian Rutherford, Labyrinth y Brenin Arthur, gostau ychwanegol a phroblem dylunio llyfrynnau:

> Leaflets would have to be twice as big.

Fodd bynnag, wrth drafod bwydlenni a deunydd argraffedig dwyieithog, barn Catrin Elis, Cadw, yw bod y costau cyfieithu yn fach ac yn wirioneddol ddim yn broblem i fusnesau. O ran dylunio, rhaid meddwl am wneud y pethau yma'n wahanol.

**Diffyg adnoddau staff, sgiliau priodol**

Yn achos Portmeirion, er bod digonedd o staff sy'n siarad Cymraeg, defnyddir cyfieithwyr proffesiynol i sicrhau safonau. Cydnebydd Robin Llywelyn fod cyfieithu ac ysgrifennu copi yn sgiliau arbennig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gwêl Zoë Wright, Folly Farm, ddiffyg siaradwr Cymraeg rhugl yn ei thîm o ran gwneud newidiadau bob dydd ar y wefan. Soniodd hefyd am anawsterau wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Lleolir yr atyniad yn Ne Sir Benfro, ar ochr dde ffin ieithyddol hanesyddol y Landsger, a nid oes llawer o siardwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal. Mae'n

daith hanner awr o ardal Gymraeg Gogledd Sir Benfro i Folly Farm, a 35-40 munud o Gaerfyrddin.

**Anymarferoldeb a diffyg dilysrwydd**

Oherwydd diffyg staff sy'n siarad Cymraeg, a diffyg galwad am ddarpariaeth ddwyieithog, gwêl Stephen Leeke, Gwesty'r Vale, ei bod yn amhosibl gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhellach, mynegodd bryder ynghylch dilysrwydd darpariaeth ddwyieithog yn ei westy.

> We try to be authentic. It would be disingenuous to a certain extent to make ourselves out to be Welsh speakers. Despite the fact that everone comes from a 20-mile radius, they won't find anyone that can speak Welsh, and that, untimately, is a problem.
>
> I don't think we'd ever overplay the Welsh language if none of our staff were able to speak it. There'd be an expectation in Welsh-speaking visitors that they could.
>
> If Wales has the Welsh language at the forefront of the brand, it has to back it up.

**Y prif newidynnau sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog**

Mae cyfuniad o newidynnau yn effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog mewn busnesau, ac yn yr adran yma crynhoir y prif newidynnau ar sail tystiolaeth yr ymchwil ansoddol. Fel y cawn weld, mae'r ffactorau hyn yn rhyngberthynol, ond gellir dirnad pwyslais gwahanol o ran yr ymateb ymarferol yn ôl amgylchiadau gwahanol pob busnes.

**Cefndir ieithyddol y perchnogion /rheolwyr a'u hagwedd at y Gymraeg**

Er i'r newidyn hwn fod yn amlwg, mewn gwirionedd mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth nag y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf ac mae newidynnau eraill weithiau yn lliwio natur y ddarpariaeth. Fel y sylwyd yn barod, mae darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn hollol wirfoddol yn achos busnesau preifat ac, o ganlyniad, ceir ystod o ymatebion.

Er bod gan bob un o'r ymatebwyr gydymdeimlad â'r Gymraeg, mae amgylchiadau'r busnesau yn wahanol o ran proffil ieithyddol yr ardal, tarddiad y cwsmeriaid a'r adnoddau staff sydd ar gael. Serch hynny, mae dyfyniad gan Mike Morgan,

Llansantffraed Court, yn crynhoi yr hyn sy'n hanfodol i ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog lwyddiannus:

> There's need for someone with a bit of gumption to drive it from within the business.

Un o amodau sylfaenol darpariaeth lwyddiannus yw **rhywun mewn awdurdod yn y busnes sydd â'r weledigaeth, y gallu a'r ewyllys i yrru'r agenda. Rhaid i'r perchennog/rheolwr fod yn gefnogol i'r Gymraeg *ac* yn fodlon ei mabwysiadu yng nghyd-destun y busnes**, serch unrhyw anfanteision posibl a amlinellir uchod.

Ys dywed Glyn Heulyn, Yr Harbwrfeistr:

> Os nad oes gyda nhw gariad at yr iaith ac o blaid y peth, anodd iawn gwneud rhywbeth. Rhaid iddo ddod wrthyn nhw o'r diwedd.

Cynhaliwyd 6 o'r 12 cyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg – mamiaith yr ymatebwyr.

| **Ymatebydd** | **Busnes** |
|---|---|
| Huw Roberts | Gwesty Cymru |
| John Rowlands | Y Goeden Eirin |
| Robin Llywelyn | Portmeirion |
| Glyn Heulyn | Yr Harbwrfeistr |
| Catrin Elis | Cadw |
| Nia Rhys Jones | Tywysydd Bathodyn Glas / Coleg Menai |

Daw'r 6 ymatebydd o'r Fro draddodiadol Gymraeg (gweler Atodiad 2 am broffil yr ymatebwyr) ac maent i gyd yn gryf o blaid yr iaith Gymraeg. Yn achos Gwesty Cymru, Y Goeden Eirin, Portmeirion a'r Harbwrfeistr, mae darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn hollol ganolog, yn rhan annatod o'r ddarpariaeth.

Mae Cadw yn gorff llywodraethol ac, felly, yn cynnig darpariaeth hollol ddwyieithog yn unol â gofynion swyddogol, ond mae Catrin Elis o'r farn y byddai'r sefydliad sy'n gyfrifol dros dreftadaeth Cymru - a'r Gymraeg yn rhan annatod ohoni - yn ddwyieithog hyd yn oed os nad oedd yn orfodol.

Mae Nia Rhys Jones yn tywys trwy gyfrwng y Gymraeg 'fel bo'r gofyn'. Mae rhai aelodau eraill o Gymdeithas y Tywysyddion (WOTGA) yn gweithio yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, ond ar hyn o bryd cysyllta Nia yn fwy â'r llongau mordaith (yn enwedig o'r Almaen) sy'n dod i mewn i Gaergybi ac o ganlyniad, nid yw'r Gymraeg yn ganolog i'w gwaith tywys ar y foment.

Roedd 2 o'r 6 ymatebydd cyfrwng Saesneg yn Gymry di-Gymraeg a 4 yn enedigol o Loegr.

| **Ymatebydd** | **Busnes** |
|---|---|
| Stephen Leeke | Gwesty'r Vale |
| David Williams | Gwesty'r Amabassador |
| Mike Morgan | Llansantffraed Court |
| Zoë Wright | Folly Farm |
| Ian Rutherford | Labyrinth y Brenin Arthur |
| Stephen Bristow | Gelli Gyffwrdd |

Ganwyd Stephen Leeke yng Nghaerdydd ac fe'i magwyd ger Gwesty'r Vale. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Sherborne a Phrifysgol Sheffield, lle astudiodd Sbaeneg a Chatalaneg. Treuliodd flwyddyn ym Mhrifysgol Valencia ac ysgrifennodd draethawd ar y Gatalaneg. Sylwodd, 'I didn't have the opportunity of learning Welsh at school. I would have, had I had the opportunity'. Serch hynny, mae ganddo ambell air ac ymadroddiad yn Gymraeg, ac o'i brofiad o'r Gatalaneg, mae ganddo ddealltwriaeth fanwl o statws ieithoedd lleiafrifol. Fodd bynnag, pwynt gwerthu unigryw'r busnes yw *ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaeth*. Cyfyngir darpariaeth ddwyieithog i arwyddion yn y gwesty, defnydd symbolaidd felly sydd, gyda bwydydd a diodydd Cymreig, yn cyfrannu at naws lle.

Fel y crybwyllwyd uchod (gweler dyfyniad ar dud. 63-64), mae Stephen Leeke yn sgeptigol am ymarferoldeb darpariaeth Gymraeg. Er bod ganddo gydymdeimlad â'r Gymraeg, gwêl yr iaith yn ymylol i'r busnes a darpariaeth Gymraeg yn anymarferol:

> Why would we want to do it? For the sense of place thing? But is it authentic? Can we back it up? I'm not sure there's an answer other than educate the

> children so that in 20 years you could do it. Today most people would feel Welsh rather than British. I think it's due to more education in Welsh, Welsh-medium.

Daw David Williams o ardal Llandudno a siarada 'dipyn bach' o Gymraeg. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd uchod (tud. 56), prif farchnad yr Ambassador yw Gogledd Lloegr ac mae gan y gwesty gysylltiadau hirsefydlog â nifer o gwmnïau coetsis, a gwêl ddarpariaeth ddwyieithog yn amherthnasol i'w gwsmeriaid. Yn hytrach, rhoddir pwyslais ar y cyfleusterau, y gwasanaeth, natur gyfeillgar, deuluol y gwesty, ei leoliad, ac ar werth am arian.

Fel Stephen Leeke, mae ganddo gydymdeimlad â'r Gymraeg, ond ni wêl hi'n berthnasol i'r busnes:

> The Welsh Language is here and we all hope it's here to stay, whether we speak it or not. It's part of the culture of Wales. But the welcome is the most important thing. I'm sure you're well aware that some people have a perception that they're not welcome in Wales but they change their mind when they've been. So we've got to get that message over, that you're always welcome.

Er i'r ddau fod yn gefnogol i'r Gymraeg mewn egwyddor, gellir ystyried eu cefnogaeth yn feddyliol neu'n emosiynol yn hytrach nag yn ymddygiadol. Mae cefnogaeth feddyliol neu emosiynol yn gyffredin iawn yn Iwerddon, lle mae gan fwyafrif y Gwyddelod agweddau positif at yr Wyddeleg, ond prin iawn yw'r rhai sy'n defnyddio'r iaith fel cyfrwng bob dydd. (Gweler hefyd Appel a Muysken (1987) am drafodaeth ar y cyferbyniad rhwng agweddau meddlyiol ac ymddygiadol at ieithoedd.)

Er y ganwyd Mike Morgan yn Swydd Gaerwrangon, brodorion o Bont-y-Pŵl oedd ei dad a'i dadcu ac mae ganddo gydymdeimlad amlwg â Chymreictod. Gwna ddefnydd o'r iaith Gymraeg a lluniau/ffotograffau o'r ardal ond, yn bennaf, fwydydd a diodydd lleol i greu naws lle (gweler tud. 60).

Mae un aelod o'r staff yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd, Alys, sy'n gyfrifol dros Adnoddau Dynol a'r swyddfa flaen. Dywedodd Mike ei bod hi'n 'frwdfrydig iawn' dros yr iaith Gymraeg, a'i wedi bod yn gyfrifol am gyflwyno llofnodion e-bost dwyieithog a geiriau Cymraeg yn anffurfiol i'r staff. Er i Mike fod yn gefnogol, mae'n amharod i fynd

yn rhy bell: petai Alys yn gadael, ni fyddai'r gallu ieithyddol ar gael i barhau â'r mentrau hyn.

Mae Zoë Wright, Folly Farm, yn enedigol o Gaint, yn byw yng Nghrymych, Gogledd Sir Benfro, 'surrounded by Welshness'. Mae ei phlant yn mynychu'r ysgol Gymraeg leol ac mae hi'n dysgu Cymraeg. Mae ganddi agwedd bositif iawn at yr iaith Gymraeg.

Ers ymuno yn 2008, mae Zoë wedi cefnogi a phledio achos y Gymraeg yn y busnes. Esboniodd fod rhaid iddi gyfiawnhau pob darpariaeth i'r cyfarwyddwyr.

Ganwyd Ian Rutherford ym Manceinion ac fe'i magwyd yn Buckinghamshire. Medra ddilyn sgyrsiau syml a thestunau ysgrifenedig, ond ni ddisgrifia ei hun yn rhugl. Daeth i Ogledd Cymru yn 1972. Priododd â merch o Ddolgellau. Mae ganddo gydymdeimlad amlwg â'r Gymraeg, a adlewyrchir yn y ddarpariaeth ar y safle (gweler Tabl 5), serch galwad gyfyngedig am wasanaethau Cymraeg.

Astudiodd Stephen Bristow ym Mhrifysgol Bangor a dychwelodd i Ogledd Cymru gyda'i wraig, Andrea, o Fienna, i sefydlu'r busnes. Mae ganddo beth Gymraeg ac mae ei wraig wedi meistroli Cymraeg llafar. Adewyrchir cefnogaeth Stephen mewn datblygiadau diddorol fel Cerrig y Cerddi, detholiad o farddoniaeth Gymraeg (dewiswyd yn bennaf gan Myrddin ap Dafydd, Gwasg Carreg Gwalch) wedi'i cherfio ar 16 llechen fawr, a agorwyd gan Alun Ffred Jones AC (gweler Tabl 5).

> I've always encouraged the use of Welsh amongst our staff. We recognise the importance of it. It's a wonderful language to listen to even if you're, like me, unable to speak it or understand it properly. I love the sound of Welsh and love to hear my staff interacting with visitors in the Welsh language. I think it's incredibly important. It's one of the key USPs (to use the jargon) that separates Wales from the rest of the world. We have this wonderful language and we should be making the most of it. We see it as a huge positive, a positive advantage rather than a hurdle to be overcome.

Adlewyrcha geiriau Stephen safbwynt iaith yn adnodd (gweler Ruiz, 1984).

**Proffil ieithyddol yr ardal**

Mae'r newidyn yma'n bwysig am ddau brif rheswm: gofynion a disgwyliadau'r farchnad leol, a chronfa ddigonol o staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn cyflawni

darpariaeth Gymraeg (gweler Tabl 4, tud. 47-48 am fanylion canrannau'r siaradwyr Cymraeg yn ardal y busnesau).

Lleolir dau o'r 4 busnes hollol ddwyieithog (Portmeirion a'r Goeden Eirin) yng Ngwynedd, mewn ardaloedd lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, a'r ddau arall (Gwesty Cymru a'r Harbwrfeistr) yng Ngheredgion, lle mae rhwng 50-70% o'r boblogaeth yn Gymry Cymraeg.

Fel y sylwodd Huw Roberts, Gwesty Cymru, er bod ond 10% o westeion y gwesty'n siaradwyr Cymraeg, mae hyd at 60% o gwsmeriaid y bwyty yn byw'n lleol, ac mae canran uchel o'r rhain yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r sefyllfa yn debyg yn achos yr Harbwrfeistr yn Aberaeron.

Mae cwsmeriaid lleol hefyd yn bwysig i Bortmeirion (y gwesty a'r atyniad), er amcangyfrifir nad yw ond 10% o'r cwsmeriaid i gyd o ran nifer (a 95% y staff) yn Gymry Cymraeg. Fel yn achos y Goeden Eirin, mae darpariaeth ddwyieithog yn rhan annatod o'r busnes ac yn dangos eu bod yn rhan o'r gymuned.

Mae'r farchnad leol yn bwysig iawn yn achos Gelli Gyffwrdd, Y Felinheli. Yn y gwanwyn a'r hydref mae rhyw 60% o Gymru (a'r mwyafrif helaeth yn Gymry Cymraeg), ac yn y tymor brig, mae rhyw 40% yn Gymry Gymraeg. Ystyria Stephen Bristow ymateb i'r ddarpariaeth Gymraeg yn y termau hyn:

> Tremendous. If we didn't do it, people would be very unhappy. We've sold 4,700 season tickets so far, mostly local. It's very popular for local people. People feel comfortable. We're part of the community.

Mae rhyw hanner y staff parhaol ac 80% o'r staff tymhorol yn siaradwyr Cymraeg.

Lleolir Labyrinth y Brenin Arthur, Corris, mewn ardal lle mae canran uchel (70%+) o siaradwyr Cymraeg, er lleiafrif o'r cwsmeriaid sy'n Gymry Cymraeg. Cwsmeriaid craidd yr atyniad yw pobl (o Loegr yn bennaf) ar eu gwyliau yn Y Bermo, Aberdyfi a'r ardal. Does dim llawer o boblogaeth leol ac mae'r trefi mawr yn rhy bell i ffwrdd i ddenu llawer o deithwyr undydd. Serch hynny, mae darpariaeth yr atyniad yn ddwyieithog i raddau helaeth.

Soniodd Nia Rhys Jones am fwyty Dylan's ym Mhorthaethwy. Perchnogion y busnes llwyddiannus hwn sy'n cyflogi 40 yn y tymor brig ac yn arbenigo mewn bwyd môr lleol,

yw David Evans a Robin Hodgson, o Swydd Efrog. Er nad ydynt yn Gymry, mae'r busnes yn ddwyieithog oherwydd gofynion y farchnad leol lle mae'r mwyafrif helaeth yn Gymry Cymraeg. Ar sail llwyddiant ysgubol y bwyty, mae'r perchnogion yn ystyried agor bwytai tebyg mewn pump lleoliad yng Ngogledd Cymru.

Er y lleolir Folly Farm yn Ne Sir Benfro, ar ochr dde ffin y Landsger lle nid oes canran uchel o siaradwyr Cymraeg, mae rhyw 60% yr ymwelwyr yn deithwyr undydd ac mae'r farchnad o fewn Cymru yn bwysig iawn. Dyma un o'r rhesymau pam y datblygwyd darpariaeth ddwyieithog yno. Fel yr adroddwyd uchod (tud. 64-65), profwyd problemau wrth geisio recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, sydd yn rhwystr rhag datblygiad pellach.

Rhwystr mawr rhag rhagor o ddarpariaeth ddwyieithog yng Ngwesty'r Vale yw diffyg staff sy'n siarad Cymraeg (neb ar y tîm reolaeth a dyrnaid yn unig ymhlith y staff parhaol). Mae canfyddiad o ganran gymharol isel o siaradwyr Cymraeg ymhlith y cwsmeriaid hefyd, ond cyfaddefodd Stephen Leeke nad yw hynny'n golygu nad oes galwad o gwbl ond, yn hytrach, bod y cwsmeriaid yn hapus gyda'r ddarpariaeth bresennol.

Er nad yw canran y siaradwyr Cymraeg yn nhref Llandudno mor uchel ag yn rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru, mae siaradwyr niferus yn yr ardal ehangach. Y prif rheswm am ddiffyg darpariaeth ddwyieithog yng Ngwesty'r Ambassador yw tarddiad daearyddol y cwsmeriaid – y mwyafrif o Ogledd Lloegr.

**Proffil y cwsmeriaid: tarddiad daearyddol a gofynion y cwsmeriaid**

Mae cysylltiad amlwg rhwng y newidyn yma a phroffil ieithyddol ardal y busnesau, ond nid ydynt yn hollol debyg.

Yn achos atyniadau, mae'r farchnad leol yn bwysig iawn, yn enwedig allan o'r tymor. Soniodd Catrin Elis am ymchwil a gynhaliwyd gan Cadw sy'n dangos bod 25% yr ymwelwyr haf yn Gymry, ond amcangyfrifir bod y ganran yma'n codi i 60% neu'n fwy allan o dymor. Nodwyd sefyllfa debyg yn Folly Farm a Gelli Gyffwrdd. Fel y crybwyllwyd uchod, mae sefyllfa bwytai (a bwytai mewn gwestai) yn debyg am fod busnes lleol o bwysigrwydd mawr.

Mae amgylchiadau gwestai a sefydliadau llety yn wahanol am fod mwyafrif y gwesteion, bron yn ôl diffiniad, yn dod o ryw bellter. Yn achos Gwesty'r Ambassador, Llandudno, daw rhyw 94% y gwesteion o Loegr (80% o Ogledd Lloegr). Daw rhyw 70% o'r busnes o grwpiau coetsis, gyda phroffil oedran hŷn. O'r 5% o Gymru, lleiafrif sy'n Gymry Cymraeg. Daw dim ond tua 5% o'r trosiant o fusnes lleol: ciniawau bar, coffi a chyfarfodydd bach.

Fel y crybwyllwyd uchod (tud. 68), ni ystyrir darpariaeth ddwyieithog yn berthnasol i'r cwsmeriaid. Mae'r gwesty yn llwyddiannus ac mae David yn ymwybodol iawn o ofynion ei westeion:

> I think it follows a survey I saw some time ago. It listed ten priorities, from a comfortable bed, food and things and the Welsh language came down about eighth out of ten. And it's world-wide. Those are the top priorities – a comfortable room and the food.

Pan ofynnwyd am bosibilrwydd cyflwyno darpariaeth ddwyieithog i apelio'n fwy at y farchnad leol, roedd David Williams yn eglur:

> We have no evidence of that. We have people coming anyway and I think it's the facilities and the food that counts.

O ran effaith bosibl darpariaeth ddwyieithog ar ei farchnad graidd, sylwodd:

> They certainly don't want it in their face. They accept the Welsh signage on the roads and things like that, but they want to feel welcome. And unfortunately, memories are long, and some people still remark about the burning of homes and so forth.

Ac ymhellach:

> There are many people that just want the local brew they have at home. You'd be surprised how many people say 'Haven't you got such and such an ale and it's only applicable to their area.... It's a bit like those stories from Spain where the British go and have bacon and eggs....

Mae'r agwedd yma yn herio casgliad Pujolar (2006: 25) a Viallon (204: 193) (gweler tud. 8) mai *gwahaniaeth* yw sail twristiaeth, yn enwedig twristiaeth ddiwylliannol, ond fel y sylwodd David:

> It depends in what terms you think of culture, because they (the guests) come for the Welsh scenery, the castles and all those sort of things.

Mae adnoddau diwylliannol yn denu ymwelwyr, ond nid yw'r rhain o anghenraid yn ymwneud â'r iaith.  Roedd sylw David ar sut y mae'r ymwelwyr yn ystyried Llandudno yn ddadlennol:

> I think they see it as part of Britain. I think the most common remark we get is how nice it is to come to a resort that is not spoiled by commercialisation on the promenade.

Felly, o ran y farchnad hŷn yma, yn bennaf o Ogledd Lloegr, ansawdd yr amgylchedd a'r cyfleusterau sydd bwysicaf, sy'n cyd-fynd â'r dyfyniad o astudiaeth Schlackman (BCC, 1985) ar dud. 30.

Crybwyllwyd yn barod astudiaeth Bruyèl-Olmedo a Juan-Garau (2015) sy'n tynnu sylw at ddiffyg presenoldeb y Gatalaneg ym musnesau twristiaeth Mallorca.  Cytunodd Stephen Leeke, o'i brofiad o'r Gatalaneg, â chasgliad yr ymchwilwyr. Yn arwyddocaol yng nghyd-destun yr ymchwil presennol, awgrymodd yr astudiaeth honno y gallai'r iaith leol fod yn ased arall i'r cyrchfan i gyfoethogi profiad yr ymwelwyr.

Dyma'r agwedd a bwysleisir yng Ngwesty Cymru. Mae lleiafrif – rhyw 10% o'r gwesteion - yn Gymry Cymraeg, ond fel yr esboniodd Huw Roberts:

> Hyd yn oed gyda'r gwesteion di-Gymraeg, mae'r iaith yn rhan annatod o 'wead' y lle.  Mae pobl yn dod oherwydd safon y bwyd a'r llety, nid dim ond i gael gwasanaeth Cymraeg, ond mae hwn yn rhan o'r profiad, yn neilltuo'r lle - ein USP - a'r iaith Gymraeg yn cwblhau'r 'pecyn'.  Does dim profiad wedi bod o 'droi trwyn' o ran gwesteion di-Gymraeg - y gwrthwyneb.  Mae'r ymateb yn wych, pobl yn ymddiddori, mae'n ffordd i gyflwyno Cymreictod a'r iaith Gymraeg.

Roedd ymateb Robin Llywelyn, John Rowlands a Glyn Heulyn yn debyg iawn (gweler trafodaeth ar Fanteision darpariaeth ddwyieithog ar dud. 58-63).

Daw rhyw draean o westeion Llansantffraed Court o Gymru.  Mae canran y siaradwyr Cymraeg yn gymharol fychan (tua un mewn pob pump o'r traean - rhyw 5% o'r cyfanswm) ond ar gynnydd.  Fel yr adroddwyd uchod (tud. 59-60), mae naws lle yn bwysig i'r gwesty ac fe'i cyflawnwyd yn bennaf drwy ddarpariaeth bwydydd a diodydd lleol, ond mae'r Gymraeg yn gydran.

Ar wahân i ddefnyddwyr y cyfleusterau chwaraeon a sba, daw rhyw 15% y gwesteion sy'n aros yng Ngwesty'r Vale o Gymru (y mwyafrif o ardal Abertawe a'r Gorllewin). O

ystyried cyfansoddiad ieithyddol yr ardal honno, amcangyfrifir bod rhyw draean o'r rhain yn Gymry Cymraeg, h.y. rhyw 5% o'r gwesteion i gyd – yn debyg i'r ganran a adroddwyd gan Llansantffraed Court. Fel yr adroddwyd yn barod (tud. 60), pwyslais y sefydliad hwn yw ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaeth. Nododd Stephen Leeke:

> In 20 years I don't think I've fielded a complaint for lack of Welsh provision in doing what we've been doing. So does that mean there's no demand? No, it doesn't, but it's not an issue for people.

Gellir cyferbynnu sefyllfa Cadw. Derbynnir rhai cwynion gan Gymry Cymraeg am *ddiffyg* y Gymraeg, er i bob darpariaeth fod yn ddwyieithog mewn gwirionedd. Soniodd Catrin Elis am deimlad ymhlith rhai Cymry Cymraeg bod Cadw yn 'Seisnigaidd' a bod rhai pobl, wrth ddarllen testun yn un o'r llyfrynnau, yn cwyno am 'un treiglad bach, bach, bach' yn y fersiwn Gymraeg heb gydymdeimlad â'r darlun mawr: gallai camgymeriadau bach tebyg fod wedi bodoli yn y fersiwn Saesneg hefyd. Cytunodd fod dyletswydd i ddarparu gwybodaeth safonol mewn ieithwedd safonol, gywir, ac am y rheswm hwnnw defnyddir cyfieithwyr ac ysgrifenwyr copi cydnabyddedig.

Fodd bynnag, bu Robin Llywelyn, Portmeirion, yn canmol darpariaeth ddwyieithog Cadw mewn safle mewn ardal Seisnigaidd iawn - Caer a Baddonau Rhufeinig, Caerllion.

**Blaenoriaethau marchnata**

O ran ffactorau sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, gellir ychwanegu blaenoriaethau marchnata er bod cysylltiad amlwg â'r manteision/anfanteision a'r prif newidynnau eraill a drafodwyd yn barod. Yn fras, gellir dirnad tri safbwynt llydan, gyda nifer o arlliwiau/graddoliadau:

1. Busnesau lle mae'r iaith Gymraeg yn hollol ganolog, yn bwynt gwerthu unigryw ac yn rhan annatod o gyflwyniad y busnes (e.e. Gwesty Cymru, Portmeirion, Yr Harbwrfeistr, Y Goeden Eirin, Cadw)
2. Busnesau lle mae defnydd yr iaith yn bwysig ac weithiau'n sylweddol fel cydran naws lle, neu am resymau cymunedol (e.e. Gelli Gyffwrdd, Folly Farm, Llansantffraed Court)

3. Busnesau lle ystyrir darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn ymylol neu'n amherthnasol oherwydd blaenoriaethau marchnata eraill (e.e. Gwesty'r Ambassador).

Mae blaenoriaethau marchnata yn benderfyniad busnes yn y sector preifat ac mae darpariaeth ddwyieithog yn wirfoddol. Ar y llaw arall, mae darpariaeth ddwyieithog yn orfodol yn achos cyrff cyhoeddus megis Cadw.

Gellir dirnad cysylltiad agos rhwng cenhadaeth y busnes a natur y ddarpariaeth ddwyieithog (gweler Atodiad 2). Er enghraifft, cenhadaeth Gwesty Cymru yw:

> Popeth yn adlewyrchu Cymru, Ceredigion, Aberystwyth. Busnes dwyieithog – nid Cymraeg yn unig.... Hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith y gwesteion drwy siarad, gwrando, dysgu.

Cynhwysir y canlynol yng nghenhadaeth Portmeirion:

> Coleddu'r Gorffennol, Harddu'r Presennol, Adeiladu ar gyfer y Dyfodol. Cyfrifoldeb dros yr amgylchedd. Cynaliadwyedd: amgylchedd naturiol, wedi'i adeiladu, a diwylliant a iaith.

Crynhoir cenhadaeth Folly Farm fel a ganlyn:

> Addysgu a difyrru. Cynnig gwasanaeth rhagorol i'r cwsmeriaid; buddsoddi bob blwyddyn i gadw'r atyniad yn ffres a chreu atgofion teuluol gwych.

Er i'r Gymraeg fod yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth, nid yw'n elfen echblyg o ran cenhadaeth.

Yn achos Llansantffraed Court, cydnabyddir pwysigrwydd naws lle, ond cyflawnir hyn yn bennaf trwy fwyd. Fel y crynhowyd gan y perchennog, Mike Morgan: 'It's all about food'.

Rhoddwyd pwyslais ar y cyfleusterau a'r gwasanaeth gan Westy'r Vale a Gwesty'r Ambassador. Adlewyrchir y pwyslais yma yng nghenhadaeth y busnesau:

Yn achos y Vale:

1. Elw
2. Uchelgais i fod yn gyrchfan o safon ryngwladol
3. Pwyslais ar ansawdd y cyfleusterau

Ac yn achos Gwesty'r Ambassador:

> To increase the quality of the service in terms of updating the fabric of the building.

Ystyriaeth bwysig yw sut mae darpariaeth busnesau unigol yn cydgysylltu â gwaith hyrwyddo Croeso Cymru ar lefel genedlaethol, yn enwedig â'r hyn a fynegir trwy'r brand cenedlaethol (gweler tud. 8-10).

**Awgrymiadau gan yr ymatebwyr: Beth ddylai Croeso Cymru (a Swyddfa'r Comisiynydd) ei wneud i hyrwyddo defnydd y Gymraeg a dwyieithrwydd yn y sector twristiaeth?**

Cafwyd cryn drafodaeth ar y materion hyn yn y cyfweliadau ond, yn fras, soniwyd am 5 maes gwaith cyd-gysylltiedig.

**Gwasanaeth cyfieithu**

Soniodd sawl ymatebydd am wasanaeth cyfieithu cynt Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Gwerthfawrogwyd y gwasanaeth ac awgrymodd sawl ymatebydd y dylid ei ailsefydlu, o bosib dan nawdd Croeso Cymru ar gyfer y sector twristiaeth.

Barn Zoë Wright, Folly Farm oedd:

> It would help if Visit Wales could make available a central translation service for the industry, a dedicated shared service across the industry.

Soniodd hefyd am fanteision cysondeb o ran terminoleg.

Cytunodd Glyn Heulyn, Yr Harbwrfeistr:

> Mae hwnna'n syniad da achos yn aml iawn dim ond arwyddion eitha syml mae rhywun angen. Mae peryg fynd ar-lein i gael cyfieithiad Cymraeg. Byddai'n beth da os o'n nhw'n gallu ebostio Croeso Cymru neu beth bynnag i gael cyfieithiad syml, ch'mod.

Dywedodd Stephen Leeke, Gwesty'r Vale hefyd y byddai'n defnyddio'r gwasanaeth petai ar gael. Byddai arbedion o ran cost a thrafferth.

> Definitely. If a translation service were available, we would use the service – we would undoubtedly. Otherwise we would have to source translators, proofread. It's cost and hassle. We have over 50 menus, it multiplies up, that's a lot of resource. An extra layer of cost.

Awgrymodd Mike Morgan, Llansantffraed Court, gysylltiad posib rhwng yr hawl i ddefnyddio'r gwasanaeth ac aelodaeth cynlluniau graddio Croeso Cymru.

Get it as part of grading. People will begin to use the language more because of this and it will begin to snowball, especially if there is a real financial benefit.

Fodd bynnag, mynegodd Ian Rutherford, Labyrinth y Brenin Arthur, amheuon am gysylltu'r ddau.

> It depends what you want to do. If you're trying to encourage people to go into grading, I'm not sure. It might be an added incentive. But if you're trying to get people to use the Welsh language and then you say, 'Sorry, we can't provide you with a Welsh-language service because you're not graded', it would seem to be counterproductive.

**Graddio busnesau: cydnabod darpariaeth Gymraeg a dwyieithog**

Mynegwyd cefnogaeth dros gydnabyddiaeth am ddarpariaeth ddwyieithog fel rhan o gynlluniau graddio Croeso Cymru. Fodd bynnag, cafwyd awgrymiadau gwahanol ynghylch telerau a natur y gymeradwyaeth.

Awgrymodd Mike Morgan lefel darpariaeth isafsymiol ym mhob sefydliad, efallai gyda normau gwahanol yn ôl sector a lefel Cymreictod yr ardal. Dadleuodd Catrin Elis dros un safon genedlaethol yn ôl sector am fod Cymry Cymraeg yn teithio i ardaloedd eraill.

Er i Catrin Ellis a Zoë Wright awgrymu y gallai gorfodaeth (e.e. deddfwriaeth, safonau iaith) fod yn effeithiol o ran gyrru'r agenda, gwell gan fwyafrif yr ymatebwyr oedd anogaeth a chyfraniad gwirfoddol. Soniodd Ian Rutherford am ymateb negyddol posib rhai atyniadau pe baent yn methu cael eu graddio o gwbl oherwydd diffyg darpariaeth Gymraeg.

Yn yr un modd, soniodd David Williams, Gwesty'r Ambassador, am y drafodaeth yn ystod ymgynghoriad diweddar am raddio:

> It's all right if it's an add-on. In the recent consultation with the industry....the message very much was, 'If you're a 3-Star, then you're a 3-Star'. For instance, you couldn't be brought down to 2-Star just because you didn't have Welsh menus. It was an added bonus rather than something in the criteria itself.

Cytunodd Glyn Heulyn, yr Harbwrfeistr:

> Os ych chi'n mynd lawr ffordd graddio'r Gymraeg, fe allai fe fod yn danjerus. Mae anogaeth yn dda, ond dwy ddim o blaid gorfodaeth.

Cytunodd Mike Morgan byddai anogaeth yn well na gorfodaeth: ‘Carrots rather than sticks.’

Ar y llaw arall, rhybuddiodd Stephen Bristow, Gelli Gyffwrdd, yn erbyn cael gormodedd o gynlluniau cydnabyddiaeth oherwydd perygl drysu’r defnyddwyr.

**Anogaeth, cefnogaeth a chyngor i’r diwydiant**

Bu cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr am ddilysrwydd egwyddor gwneud elfen o **ddarpariaeth ddwyieithog yn amod derbyn grantiau**.

Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai Croeso Cymru roi cyngor ar **feithrin lle**, gan gynnwys cyfieithu termau cyffredin.

Syniad Glyn Heulyn oedd creu ‘pecyn’ o gymorth – grantiau a chyngor.

> I fod yn deg, rwy’n credu mae tipyn o anogaeth wedi bod i fusnesau ddefnyddio’r Gymraeg o fewn Croeso Cymru. I gael grantiau mae rhaid cael arwyddion ayyb yn ddwyieithog. Rwy’n credu bod hwnna yn ffordd iawn o wneud e....O leia os yw’r arwyddion yn ddwyieithog, mae’n dangos rhyw naws Gymreig.

Ond awgrymodd hefyd nad oedd darpariaeth symbolaidd yn hollol foddhaol chwaith: mae angen staff sy’n siarad Cymraeg i gyflawni i’r eithaf.

> Os ych chi’n mynd i le lle mae bwydlen ddwyieithog ond does neb yn gallu siarad y ddwy iaith ac ymateb i chi, i fi, does dim pwynt gwneud.

Gwnaethpwyd sylw perthnasol tebyg gan Huw Roberts, Gwesty Cymru:

> Rhaid cael pobl â’r sgiliau perthnasol....Yn gyffredinol, mae cyflogaeth yn allweddol i ddyfodol yr iaith. Mae system addysg dwyieithog, ond beth sy’n digwydd wedyn? Rhaid rhoi cyfle i ddefnyddio’r iaith yn y gweithle: ‘Heb iaith, heb waith’ mewn sectorau penodol.

Mynegodd y farn bod rhaid **hybu gyrfaoedd mewn twristiaeth**, codi proffil a statws y diwydiant a chyflogaeth ynddo, fel ar y cyfandir.

Awgrymodd John Rowlands, Y Goeden Eirin, a Zoë Wright, Folly Farm, y byddai **dangos arfer da** yn helpu. Ymhellach, awgrymodd Zoë a Steve Bristow, Gelli Gyffwrdd, y byddai **dangos y manteision economaidd a masnachol** yn effeithiol iawn.

**Ystyriaethau'r brand: cysondeb gyda'r strategaeth genedlaethol**

Gwelodd Mike Morgan gysylltiad uniongyrchol rhwng darpariaeth ddwyieithog a'r strategaeth farchnata genedlaethol.

> Line up with the national marketing strategy – delivery on the ground. Wales the brand – what makes Wales different? Say, 'we require a level of commitment to the language but we're going to help you get it'.

Barn Stephen Bristow yw bod yr iaith a diwylliant yn ganolog i gyflwyno Cymru i'r byd ac y dylai Croeso Cymru arwain:

> I think this needs to be driven from the top. It's no good going to individual hotels and persuading people.... I've been making this point.... that Visit Wales should be leading on this. I said 'Why don't you welcome people to the Eisteddfod and say 'Come and see what we do in our language..... This is our culture – 2,000 years of Celtic history. We do wonderful poetry, we dance'. There's a whole market in Europe who would love to know about Celtic culture, and Visit Wales won't grasp this nettle......and that's a huge problem.

**Gwneud diwylliant / iaith yn fwy hygyrch**

Cafwyd trafodaeth fanwl, ddiddorol gyda Stephen Bristow am sut i wneud diwylliant Cymru yn fwy hygyrch. Mynegodd y farn bod y Cymry yn rhy amddiffynnol parthed yr iaith a'r diwylliant:

> If you want people to learn about Welsh, you've got to open it up a bit.

Ystyria'r iaith a'r diwylliant yn adnodd pwysig nad yw pobl yn ymwybodol ohono. Cred y dylid croesawu pobl i brofi'r diwylliant, ond ceir gwrthwynebiad.

Awgrymodd Stephen a sawl ymatebydd arall fod rhaid rhoi gwybodaeth gyfredol am ddigwyddiadau (megis ymarferion côr, eisteddfodau lleol ayyb), o bosib, ar ffurf bas data cenedlaethol a chreu cyfleodd i ymwelwyr 'gyffwrdd' â Chymreictod.

**YR YMCHWIL MEINTIOL**

Cynhaliwyd yr ymchwil i ymhelaethu ar y gyfres o brosiectau ar ganfyddiadau a amlinellir ar dud. 30-38. Yn wahanol i'r ymchwil i Rwystrau rhag ymweld â Chymru (Llywodraeth Cymru, 2013c), lluniwyd y ddau gwestiwn i edrych ar agweddau positif *a* negyddol, a ffocyswyd yn benodol ar sut mae *ieithoedd* yn cyfrannu i'r profiad gwyliau.

Pwrpas y cwestiwn cyntaf roedd sefydlu agweddau at gyfraniad ieithoedd lleol yn gyffredinol, a'r ail, ar yr un ffurf, agweddau at gyfraniad y Gymraeg i'r profiad gwyliau. Gofynnwyd y cwestiynau i bob ymatebydd (842) yn y samplau ar-lein yn ystod 8 wythnos yn olynol rhwng Ionawr a Mawrth 2015. Dewiswyd y sampl i adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Prydain o ran y prif newidynnau demograffig.

Roedd y canlyniadau yn ddisgwyliedig i raddau yn sgil yr ymchwil i Rwystrau, ond daeth yr ymchwil â gwybodaeth newydd i'r amlwg a gwnaeth gymariaethau newydd yn bosibl rhwng agweddau at ieithoedd yn gyffredinol ac at y Gymraeg yn benodol yng nghyd-destun gwyliau.

Roedd 'siâp' tebyg i'r atebion i'r ddau gwestiwn. Serch hynny, **roedd atebion i'r cwestiwn cyntaf am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol rywfaint yn fwy positif ar draws pob grŵp o newidynnau na'r atebion i'r ail gwestiwn am gyfraniad y Gymraeg**.

Yn sgil yr ymchwil a amlinellwyd ar dud. 30-38, bu ymatebion llai positif am y Gymraeg nag am ieithoedd yn gyffredinol yn ddisgwyliedig i ryw raddau. Nid oes gan y Gymraeg yr un defnyddioldeb a bri rhyngwladol ag ieithoedd fel Ffrangeg a Sbaeneg, a glywir yn aml ar deithiau gwyliau tramor. Ymhellach, cynhaliwyd yr ymchwil ym *Mhrydain*, nid tramor, ac o ganlyniad gellir dirnad rhywbeth o effaith yr hen baradeim (gweler tud. 19-22) y tu ôl i'r atebion.

**Tuedda'r ymatebwyr i fod llawer yn fwy positif am gyfraniad ieithoedd i'r profiad gwyliau nag yn negyddol**: roedd 45% yn Bositif/Rhywfaint yn bositif am ieithoedd yn gyffredinol (37% yn achos y Gymraeg), o gymharu â 12% yn Negyddol/Rhywfaint yn negyddol (17% yn achos y Gymraeg).

Bu 19% yn Bositif ynglŷn â chyfraniad ieithoedd yn gyffredinol (15% yn achos y Gymraeg), a 26% Rhywfaint yn bostif (22% yn achos y Gymraeg).

Diddorol nodi bod y canrannau sy'n Bositif/Rhywfaint yn bositif am y Gymraeg (37%) yn cyfateb yn fras i ganran y twristiaid diwylliannol (c.40% o ymwelwyr Prydeinig: 10% yn dwristiaid dwylliannol 'pur' a 30% yn yn dwristiaid diwylliannol 'hamddenol neu ar hap') a ddisgrifir ar dud. 28.

Fodd bynnag, y categori mwyaf o ran atebion i'r ddau gwestiwn oedd 'Nid yn bositif nac yn negyddol' (40% yn achos ieithoedd yn gyffredinol a 41% yn achos y Gymraeg), sy'n awgrymu nad yw iaith yn ystyriaeth bwysig i ddau mewn pob pump o'r boblogaeth (Tabl 6).

Dangosodd y canlyniadau nad yw agweddau at gyfraniad ieithoedd i'r profiad gwyliau yn debyg ar draws y boblogaeth gyfan. **Bu gwahaniaeth mawr yn yr atebion yn ôl grwpiau oedran** a chafwyd **gwahaniaeth sylweddol rhwng atebion menywod a dynion**. Unwaith eto, bu 'siâp' cyffredinol yr atebion i'r ddau gwestiwn yn debyg, gydag agweddau ychydig yn fwy positif at ieithoedd yn gyffredinol nag i'r Gymraeg yn benodol.

**Oedran** (gweler Tabl 7)

Roedd 27% o'r grŵp oedran 18-34 yn Bositif am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol i'r profiad gwyliau (21% yn achos yn Gymraeg), o gymharu â 19% y grŵp 35-54 oed a 12% o'r grŵp 55+ oed (16% a 9% yn achos y Gymraeg, yn y drefn honno).

Ymhellach, roedd 33% o'r grŵp oedran 18-34 Rhywfaint yn Bositif am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol i'r profiad gwyliau (28% yn achos yn Gymraeg), o gymharu â 28% y grŵp 35-54 oed a 17% o'r grŵp 55+ oed (23% a 15% yn achos y Gymraeg, yn y drefn honno).

Fel yn yr ymchwil i Rwystrau, mynegwyd yr agweddau lleiaf positif (a mwyaf negyddol) gan yr ymatebwyr 55+ oed a gan ddynion. Roedd 11% o'r grŵp oedran 55+ yn Negyddol am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol i'r profiad gwyliau (15% yn achos yn Gymraeg), o gymharu â 3% y grŵp 35-54 oed a 2% o'r grŵp 18-34 oed (5% a 4% yn achos y Gymraeg, yn y drefn honno).

Yn ogystal, roedd 13% o'r grŵp oedran 55+ Rhywfaint yn negyddol am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol i'r profiad gwyliau (18% yn achos yn Gymraeg), o'u cymharu â

2% y grŵp 35-54 oed a 3% o'r grŵp 18-34 oed (6% a 3% yn achos y Gymraeg, yn y drefn honno).

Dyma gyfansoddiad yr ymatebwyr Positif a Negyddol fesul oedran:

| | **18-34** | **35-54** | **55+** |
|---|---|---|---|
| **Ieithoedd yn gyffredinol** | | | |
| Positif | 41% | 38% | 22% |
| Negyddol | 11% | 19% | 70% |
| **Y Gymraeg** | | | |
| Positif | 39% | 41% | 20% |
| Negyddol | 13% | 21% | 66% |

DS: Rhaid cofio mai dim ond canran isel o'r cyfranogwyr (5% yn achos ieithoedd yn gyffredinol ac 8% yn achos y Gymraeg) sy'n ymateb yn negyddol. Daw'r mwyafrif o'r rhain o'r grŵp 55+ oed.

**Gellir casglu bod y grwpiau ifanc yn sylweddol fwy agored i gyfraniad ieithoedd na'r grwpiau hŷn.**

**Rhyw** (gweler Tabl 8)

Roedd 24% o fenywod yn Bositif am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol i'r profiad gwyliau (19% yn achos yn Gymraeg), o gymharu â 13% o ddynion (11% yn achos y Gymraeg).

Ymhellach, roedd 28% o fenywod Rhywfaint yn bositif am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol i'r profiad gwyliau (26% yn achos yn Gymraeg), o gymharu â 23% o ddynion (18% yn achos y Gymraeg).

Ar y llaw arall, roedd 8% o ddynion yn Negyddol am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol i'r profiad gwyliau (10% yn achos yn Gymraeg), o gymharu â 3% o fenywod (6% yn achos y Gymraeg).

Ymhellach, roedd 8% o ddynion Rhywfaint yn negyddol am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol i'r profiad gwyliau (14% yn achos yn Gymraeg), o gymharu â 4% o fenywod (5% yn achos y Gymraeg).

**Gellir casglu, felly, bod menywod yn gyffredinol yn fwy agored i gyfraniad ieithoedd na dynion.**

**Grŵp sosio-economaidd** (gweler Tabl 9)

Nid oedd cymaint o wahaniaeth rhwng atebion y grwpiau sosio-economaidd ag y disgwylid yn sgil canlyniadau yr ymchwil i Rwystrau (gweler tud. 33-38). Er i 21% o'r ymatebwyr AB fod yn Bositif, nid oedd y ganran yma mor wahanol i ganrannau'r ymatebwyr C1 a C2DE a oedd yn Bositif am gyfraniad ieithoedd i'r profiad gwyliau (16% ac 18% yn drefn honno). Ymhellach, nid oedd gwahaniaeth sylweddol yn y canrannau oedd Rhywfaint yn bositif ar draws y 3 grŵp (25%, 27% a 26%, yn y drefn honno).

Yn yr un modd, er i 39% o ymatebwyr AB fod yn Bositif/Rhywfaint yn bositif am gyfraniad y Gymraeg i'r profiad gwyliau, nid oedd y canrannau cyfatebol o ran y grwpiau C1 a C2DE mor wahanol (38% a 33% yn y drefn honno).

**Tarddiad daearyddol o fewn Prydain**

Nid oedd cymaint o wahaniaeth rhwng y canlyniadau fesul rhanbarthau Prydain. Fel yn achos canlyniadau'r boblogaeth gyfan ac yn ôl oedran, rhyw, a grŵp sosio-economaidd, 'siâp' tebyg oedd i'r atebion i Gwestiwn 1 a'r rheiny i Gwestiwn 2 (ynghylch y Gymraeg), ond gyda'r ymateb i ieithoedd yn gyffredinol rywfaint yn fwy positif na'r ymateb i'r Gymraeg.

Ynghylch cyfraniad ieithoedd yn gyffredinol, mynegwyd barn oedd yn Bositif uwch na'r cyfartaledd (19%) gan y canlynol:

| | |
|---|---|
| Cymru | 33% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 31% |
| Llundain | 24% |
| Yr Alban | 22% |

Ynghylch cyfraniad y Gymraeg, mynegwyd barn oedd yn Bositif uwch na'r cyfartaledd (15%) gan y canlynol:

| | |
|---|---|
| Cymru | 26% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 22% |
| Llundain | 19% |
| Yr Alban | 20% |

**Sylwadau air am air**

Bu cyfle i ymatebwyr ychwanegu sylwadau am gyfraniad ieithoedd i'r profiad gwyliau. Allan o'r sampl cyfan o 842, cafwyd rhyw 350 sylw, 50% yn ffafriol yn eu hanfod, 17% yn niwtral a 33% â gogwydd negyddol.

Roedd nifer helaeth o'r rhai positif yn sôn am naws lle, a phrofiad diwylliannol go iawn. Dyma ddetholiad bach:

> Adds to the authenticity
>
> Makes it more authentic
>
> Showing that Wales is not just like England
>
> It adds something unique that might differentiate [the destination]
>
> All part of the country's culture
>
> As it should be
>
> It gives a positive vibe – the people are proud of it
>
> It makes me feel that Wales is unique and it adds [to the experience]
>
> It can help make the experience more interesting
>
> It's nice to hear the local language
>
> Hearing the Welsh language would be a pleasure

Gwnaethpwyd nifer sylweddol o'r sylwadau mwyaf negyddol gan ymatebwyr 55+ oed. Derbyniwyd rhyw 15 sylw am bobl yn 'troi i'r Gymraeg' mewn siopau/tafarnau.

Crybwyllwyd gan rai y teimlad o gael eu cau allan gan yr iaith a drwgdybiaeth y byddai pobl lleol yn siarad am yr ymwelwyr heb iddynt ddeall. Dyma ddetholiad:

> Welsh people speak in Welsh to exclude you
>
> Can make me feel excluded
>
> In the past, went into a pub in Wales, felt out of [place]
>
> In Wales they frequently start talking in Welsh in [pubs and shops]
>
> You don't know if they're talking about you
>
> If they speak Welsh I could be insulted
>
> It's ignorant
>
> I think we should all speak English in the UK

Roedd ambell sylw yn ffafriol am ieithoedd tramor ond yn amheus am yn Gymraeg.

> European language can be educational but who would want to [learn Welsh]
>
> Abroad yes... but who wants to learn Welsh...

Mae'r sylwadau yma i gyd yn nodweddiadol o'r hen baradeim a amlinellir ar dud. 19-22 (gweler Tabl 2).

**Cymariaethau â'r ymchwil i Rwystrau**

**Gwrthodwyr gwyliau yng Nghymru a chanfyddiadau negyddol o'r Gymraeg**

Yn yr ymchwil i Rwystrau (tud. 33-38), crybwyllwyd (hyd at bum dewis, heb atebion awgrymedig) y Gymraeg gan 3% o wrthodwyr Cymru fel cyrchfan ar gyfer gwyliau (39% o'r boblogaeth gyfan). Cyfetyb y grŵp yma i ryw 1.15% o boblogaeth gyfan Prydain.

Gofynnwyd yr un cwestiwn ond gydag atebion awgrymedig (hyd at bump dewis). Crybwyllwyd yr iaith ymhlith y rhwystrau gan chwarter y gwrthodwyr. Pan ofynnwyd y cwestiwn i'r sampl gyfan, cynhwysodd 12% o'r boblogaeth yr iaith ymhlith y rhwystrau rhag dod i Gymru, ond roedd y mwyafrif helaeth (82%) ohonynt yn wrthodwyr gwyliau yng Nghymru yn gyffredinol.

Gellir casglu bod yr iaith yn broblem i 1.15% o'r boblogaeth, ond elfen rhwyfaint yn negyddol yn seice 12% o boblogaeth Prydain (er nid o anghenraid yn rhwystr sylweddol rhag dod).

Yn yr ymchwil presennol, mynegwyd barn negyddol am gyfraniad y Gymraeg i'r profiad gwyliau gan 8% o'r boblogaeth, gyda 9% Rhywfaint yn negyddol.

Awgrymodd yr ymchwil i Rwystrau fod gan broffil y gwrthodwyr yn gyffredinol, ac yn enwedig y rhai a grybwyllodd y Gymraeg fel rhwystr, ogwydd at fod yn hŷn, yn wrywaidd, ac yn tarddu o'r categorïau sosio-economaidd is a Chanolbarth a Gogledd Lloegr.

Cadarnhawyd gan yr ymchwil presennol ogwydd hŷn a gwrywaidd y rhai sy'n ystyried cyfraniad y Gymraeg yn negyddol, ond nid yw mor bendant o ran tarddiad daearyddol a dosbarth sosio-economaidd.

**Cyfraniad positif y Gymraeg i'r profiad gwyliau**

Roedd gan yr ymchwil presennol ddwy brif fantais dros yr ymchwil i Rwystrau:

1. Ymchwiliwyd i agweddau positif yn ogystal â negyddol
2. Ffocyswyd ar agweddau at iaith yn benodol

Yn ogystal â meintioli'r rhai sy'n ystyried y Gymraeg yn negyddol, mae'r astudiaeth bresennol yn taflu goleuni ar nifer a chyfansoddiad y rhai sydd ag agweddau positif at y Gymraeg yng nghyd-destun gwyliau.

Awgryma canlyniadau'r astudiaeth bresennol fod canran sylweddol uwch o'r boblogaeth o'r farn bod ieithoedd yn cyfrannu'n Bositif i'r profiad gwyliau nag yn Negyddol. Mae hyn yn wir yn achos ieithoedd yn gyffredinol a'r Gymraeg yn benodol.

Yn y boblogaeth gyfan, roedd 15% yn Bositif, 22% Rhywfaint yn bositif a 41% yn niwtral am gyfraniad y Gymraeg. Felly, roedd mwyafrif helaeth (78%) yn bositif neu'n niwtral am gyfraniad yr iaith. Ar y llaw arall, roedd 9% Rhywfaint yn negyddol ac 8% yn Negyddol – 17% os cyfunir y ddau gategori.

**O ganlyniad gellir casglu bod rhyw 4.5 gwaith mwy o'r boblogaeth gyfan yn bositif neu'n niwtral am y Gymraeg nag y sy'n negyddol.**

Ymhellach, mae'r ymatebwyr positif â gogwydd ifancach, benywaidd ac yn fwy tebygol o berthyn i'r grŵp sosio-economaidd AB.

**Cyfatebiaeth i segmentau dethol Croeso Cymru**

Fel yr adroddwyd yn barod, awgryma'r ymchwil i Rwystrau fod yr iaith yn rhwystr i nifer cyfyngedig gyda phroffil nad yw'n cyfateb i segmentau targed Croeso Cymru.

Awgryma'r ymchwil presennol fod y Gymraeg yn ffactor positif neu niwtral i fwyafrif y boblogaeth Brydeinig, ac yn debygol o apelio at segmentau targed Croeso Cymru, a luniwyd yn sgil yr ymchwil i Rwystrau (gweler tud. 33-38), fel a ganlyn:

**Fforwyr actif teuluol** (6% o boblogaeth Prydain)
94% dan 50 oed, 67% ABC1: 'I like to learn about the local way of life and culture of the places I visit'

**Fforwyr cyn-deuluol** (8% o boblogaeth Prydain)
72% dan 35 oed, 69% ABC1: 'I like to learn about the local way of life and culture of the places I visit'

**Teuluoedd ifanc â chyllideb gyfyngedig** (15% o boblogaeth Prydain)

Rhwng 25-29 oed: cyfleusterau i blant a gwerth am arian yn bwysig

**Fforwyr diwylliannol hŷn** (14% o boblogaeth Prydain)
96% 40+ oed, ABC1: 'I like to learn about the local way of life and culture of the places I visit'

**Fforwyr golygfaol hŷn** (15% o boblogaeth Prydain)
95% 40+ oed; pwyslais daearyddol Cymru a Chanolbarth Lloegr; teithwyr annibynnol; hoffi cefn gwlad, golygfeydd


Yn achos y grŵp olaf yma'n unig, awgrymodd yr ymchwil i Rwystrau y gallai'r iaith fod yn ystyriaeth negyddol.

Fel y sylwyd ar dud. 38, mae gan y segmentau dethol berthynas amlwg â thwristiaieth ddiwylliannol.


**Y goblygiad yw bod defnydd yr iaith a diwylliant Cymru yng ngwaith brandio a marchnata Croeso Cymru yn debygol o fod yn berthnasol ac yn apelgar i'r segmentau dethol. Ar y llaw arall, ni fyddai defnydd yr iaith yn effeithiol ymhlith rhai o'r grwpiau hŷn a fyddai, yn ôl canlyniadau'r ymchwil i Rwystrau, yn annhebygol o ddod i Gymru am resymau eraill beth bynnag.**

Tabl 6: Y boblogaeth gyfan

**Cwestiwn 1: Thinking about holidays and short breaks in general, how would seeing and hearing the local language contribute to your visit?**





**Cwestiwn 2: Thinking about holidays and short breaks in Wales, how would seeing and hearing the Welsh language contribute to your visit?**




__Tabl 7: Oedran__

**Cwestiwn 1: Thinking about holidays and short breaks in general, how would seeing and hearing the local language contribute to your  visit?**





**Cwestiwn 2: Thinking about holidays and short breaks in Wales, how would seeing and hearing the Welsh language contribute to your visit?**




**Tabl 8: Rhyw**

**Cwestiwn 1: Thinking about holidays and short breaks in general, how would seeing and hearing the local language contribute to your visit?**





**Cwestiwn 2: Thinking about holidays and short breaks in Wales, how would seeing and hearing the Welsh language contribute to your visit?**




## Tabl 9: Grŵp sosio-economaidd

**Cwestiwn 1: Thinking about holidays and short breaks in general, how would seeing and hearing the local language contribute to your visit?**




**Cwestiwn 2: Thinking about holidays and short breaks in Wales, how would seeing and hearing the Welsh language contribute to your visit?**



## ADSYMIAD, CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

### ADSYMIAD A CHASGLIADAU

Ar sail yr **ymchwil ansoddol**, gellir crynhoi prif fanteision ac anfanteision canfyddedig darpariaeth Gymraeg a dwyieithog fel a ganlyn:

**Manteision**

- Pwynt gwerthu unigryw sy'n gwahaniaethu'r cynnyrch oddi wrth y gystadleuaeth
- Adnodd i gyfoethogi profiad yr ymwelwyr
- Ffordd i normaleiddio defnydd y Gymraeg a chodi statws yr iaith
- Creu Naws lle
- Manteision economaidd
- Manteision cymunedol
- Datblygu'r Gymraeg yn adnodd

**Anfanteision**

- Costau ychwanegol
- Problemau dylunio
- Diffyg adnoddau staff, sgiliau priodol
- Anymarferoldeb a diffyg dilysrwydd yn rhai achosion

Y **prif newidynnau** (sy'n aml yn rhyngweithio â'i gilydd) a effeithia ar ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog mewn busnesau yw:

**1. Cefndir ieithyddol y perchnogion /rheolwyr a'u hagwedd at y Gymraeg**

Un o amodau sylfaenol darpariaeth lwyddiannus yw **rhywun mewn awdurdod yn y busnes sydd â'r weledigaeth, y gallu a'r ewyllys i yrru'r agenda. Rhaid i'r perchennog/rheolwr fod yn gefnogol i'r Gymraeg *ac* yn fodlon ei mabwysiadu yng nghyd-destun y busnes**.

**2. Proffil ieithyddol yr ardal**

Mae'r newidyn hwn yn bwysig am ddau brif rheswm: gofynion a disgwyliadau'r farchnad leol, a chronfa ddigonol o staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn cyflawni darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog.

**3. Proffil y cwsmeriaid: tarddiad daearyddol a gofynion y cwsmeriaid**

**4. Blaenoriaethau marchnata a brand y busnes**

Darpar yr **ymchwil meintiol**, yn seiliedig ar sampl sy'n adlewyrchu poblogaeth Prydain Fawr o ran ffactorau demograffig, y dystiolaeth ganlynol:

- Tuedda'r ymatebwyr i fod llawer yn fwy Positif am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol, a'r Gymraeg yn benodol, i'r profiad gwyliau nag yn Negyddol.
- Fodd bynnag, nid yw iaith yn ystyriaeth bwysig i ddau o bob pump o'r boblogaeth.
- Roedd atebion i'r cwestiwn am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol rywfaint yn fwy positif ar draws pob grŵp o newidynnau na'r atebion i'r ail gwestiwn am gyfraniad y Gymraeg.
- Bu gwahaniaeth mawr yn yr atebion yn ôl grwpiau oedran. Gellir casglu bod y grwpiau ifanc yn sylweddol fwy agored i gyfraniad ieithoedd na'r grwpiau hŷn.
- Cafwyd gwahaniaeth sylweddol rhwng atebion menywod a dynion. Gellir casglu bod menywod yn gyffredinol yn fwy agored i gyfraniad ieithoedd na dynion.
- Nid oedd cymaint o wahaniaeth rhwng atebion y grwpiau sosio-economaidd ag y disgwylid yn sgil canlyniadau'r ymchwil i Rwystrau. Serch hynny, roedd canran uwch o'r grwpiau AB yn Bositif/Rhywfaint yn bositif am gyfraniad ieithoedd yn gyffredinol, a'r Gymraeg yn benodol, nag yn y grwpiau sosio-economaidd eraill.
- Gellir casglu bod rhyw 4.5 gwaith mwy o'r boblogaeth gyfan yn bositif neu'n niwtral am gyfraniad y Gymraeg i'r profiad gwyliau nag y sy'n negyddol.
- Y goblygiad yw bod defnydd yr iaith a diwylliant Cymru yng ngwaith brandio a marchnata Croeso Cymru yn debygol o fod yn berthnasol ac yn apelgar i'r segmentau dethol. Ar y llaw arall, ni fyddai defnydd yr iaith yn effeithiol ymhlith rhai o'r grwpiau hŷn a fyddai'n annhebygol o ddod i Gymru am resymau eraill beth bynnag yn ôl canlyniadau'r ymchwil i Rwystrau.

**ARGYMHELLION A'R CAMAU NESAF**

1. **Dylid cael cynllun gwaith eglur a phenodol mewn perthynas â dwyieithrwydd yn y sector twristiaeth.** Dylai'r cynllun gynnwys blaenoriaethau, anelu at ddeilliannau penodol, a chymryd i ystyriaeth gwestiynau sylfaenol a amlinellir gan Cooper (1989: 98) mewn perthynas â chynllunio iaith sef:

Pwy i'w dargedi?
Pa ymddygiad mae angen effeithio arno?
I ba bwrpas?
Dan ba amgylchiadau a sut (e.e. gorfodaeth, awdurdod, hyrwyddo, perswadio)?
Trwy ba foddion a phrosesau penderfynu? Gyda pha ddeilliannau?

Wrth weithredu'r cynllun, dylid defnyddio cyfuniad o'r dulliau gweithio y cyfeirir atynt gan French a Bell (1990: 85-86), sef **darparu gwybodaeth**, **addysgu** a chreu **deddfwriaeth**, sydd yn eu tro, ac yn ôl trefn, yn cyfeirio at y tair strategaeth ar gyfer newid a nodwyd gan Chin a Benne (1976):

- Strategaeth **empeiraidd-resymegol** yn seiliedig ar y dybiaeth bod pobl yn rhesymegol ac yn newid eu hymddygiad yn ôl yr hyn sydd yn fanteisiol iddynt (e.e. cyflwyno tystiolaeth sy'n dangos manteision dwyieithrwydd).
- Strategaeth **normadol ail-addysgu** sydd yn seiliedig ar y dybiaeth bod ymddygiad y mwyafrif yn cydymffurfio â normau cymdeithasol, ac felly sydd yn ffocysu ymdrechion er mwyn newid y normau yma (e.e. cyflwyno enghreifftiau arfer da).
- Strategaethau **pŵer-gorfodol** yn seiliedig ar y dybiaeth bod newid yn bosibl trwy orfodaeth (e.e. gwneud elfennau o ddwyieithrwydd yn amod derbyn grantiau a, lle bo'n addas, ymestyn safonau iaith).

Ymhellach, dylid defnyddio egwyddorion MINDSPACE (Institute for Government / Cabinet Office, 2010) i **newid y cyd-destun lle ystyrir dwyieithrwydd gan fusnesau**, e.e. dangos buddion pellach dwyieithrwydd, **gosod dwyieithrwydd mewn cyd-destun di-fygythiol newydd sy'n pwysleisio iaith yn adnodd** (Ruiz, 1984).

2.  Dylai Croeso Cymru **ddatblygu pecyn deniadol i hybu a hyrwyddo dwyieithrwydd yn y diwydiant**, gan gynnwys cyngor (e.e. ar Naws lle a dwyieithrwydd sylfaenol) a defnydd detholus o gymorth grantiau.

3. Dylai **darpariaeth ddwyieithog fod yn amod derbyn cymorth ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru**.  Yn y sector twristiaeth, dylai Croeso Cymru amlinellu'r gofynion.

4. Dylid anelu at **gysondeb rhwng darpariaeth gan y diwydiant a'r strategaeth frand genedlaethol**.

5. Dylid **cydnabod ymrwymiad i'r iaith Gymraeg/dwyieithrwydd ac i Naws lle** ar draws pob sector**.**  Gallai hyn fod yn ychwanegol at, neu yn rhan o  gynlluniau graddio a sicrhau ansawdd Croeso Cymru.  Er i rai ymatebwyr awgrymu y gallai gorfodaeth (e.e. deddfwriaeth, safonau iaith) fod yn effeithiol o ran gyrru'r agenda, **gwell gan fwyafrif yr ymatebwyr anogaeth a chyfraniad gwirfoddol**. Gallai'r gydnabyddiaeth roi pwynt gwerthu unigryw - mantais o ran marchnata - i'r busnesau.

Darpara cynllun blaenorol Croeso Cynnes Cymraeg sail bosib ar gyfer cydnabod darpariaeth ddwyieithog a Naws lle, ond nid oes rhaid i'r gydnabyddiaeth fod yn gysylltiedig â rhaglen hyfforddi megis yn y cynllun blaenorol.

6. Dylid **dangos arfer da** (e.e. astudiaethau achos) a chyflwyno **tystiolaeth i ddangos manteision economaidd a masnachol dwyieithrwydd**.

7. Dylid ystyried **ailsefydlu gwasanaeth cyfieithu i'r sector twristiaeth**. Soniodd sawl ymatebydd am wasanaeth cyfieithu cynt Bwrdd yr Iaith.  Gwerthfawrogwyd y gwasanaeth ac awgrymodd sawl ymatebydd y dylid ei ailsefydlu, o bosib dan nawdd Croeso Cymru ar gyfer y sector twristiaeth (e.e. rhywun ar gytundeb). Gallai bas data o dermau twristiaeth/lletygarwch arwain at gysondeb o ran terminoleg.

8. Dylid **codi statws y diwydiant** a **hybu gyrfaoedd mewn twristiaeth ymhlith siaradwyr Cymraeg**, fel ar y cyfandir.

9. Dylid **gwneud yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn fwy hygyrch i ymwelwyr** (e.e. drwy ddarparu wybodaeth ar ddigwyddiadau megis ymarferion côr, eisteddfodau ayyb)

10. Dylid **defnyddio'r iaith a diwylliant Cymru fel adnodd yng ngwaith brandio a marchnata Croeso Cymru**. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai defnydd dethol o Gymreictod fel rhan annatod o'r brand yn berthnasol ac yn apelgar i'r segmentau dethol. Ar y llaw arall, rhaid cydnabod na fyddai defnydd Cymreictod yn effeithiol ymhlith rhai segmentau/grwpiau.

## Y CAMAU NESAF

Derbyniwyd yr argymhellion uchod gan Croeso Cymru fel sail ar gyfer cynllun gwaith mewn perthynas â hybu'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn y sector twristiaeth. Mae trafodaethau mewnol wedi dechrau. Ar hyn o bryd (Ionawr 2016) mae manylion Argymhellion 1, 2, 3, 5, 6 a 10 dan ystyriaeth.

### Awgrymiadau ar gyfer ymchwil pellach

Awgryma'r ymchwil fod y tri grŵp canlynol yn gorgyffwrdd â'i gilydd i raddau sylweddol: (a) rhai sy'n bositif ynglŷn â chyfraniad y Gymraeg i'r profiad gwyliau; (b) segmentau dethol Croeso Cymru; (c) twristiaid diwylliannol. Gellir cynnal ymchwil neu ddadansoddiad pellach i fireinio'n dealltwriaeth o'r berthynas rhwng y tri grŵp.

Gellir cynnal ymchwil, e.e. cyfres o astudiaethau achos, i ddangos manteision dwyieithrwydd, yn enwedig manteision economaidd a masnachol.

Gellir ymgynghori â'r diwydiant ynglŷn â natur a thelerau cynlluniau newydd i roi cydnabyddiaeth i ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog ac am Naws lle.

**NODIADAU**

1. Cyn uno â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006, Bwrdd Croeso Cymru oedd yn cyflawni cyfrifoldebau marchnata a datblygu twristiaeth yng Nghymru. Ers 2006, mae Croeso Cymru, rhan annatod o Lywodraeth Cymru, a leolir yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn cyflawni cyfrifoldebau/swyddogaethau twristiaeth.

2. Gyda Kizzy Crawford yn canu *Yr Alwad/Shout Out*

3. Naill ai fersiynau cyfochrog Cymraeg a Saesneg neu yn ddwyieithog

4. Ystadegau'r sectorau blaenoriaethol Llywodraeth Cymru http://llyw.cymru/statistics-and-research/priority-sector-statistics/?skip=1&lang=cy (Ymgynghorwyd ar 1 Mawrth 2015) a *Tourism: jobs and growth - The economic contribution of the Tourism economy in the UK* (Deloitte / Oxford Economics ar gyfer VisitBritain, 2013), tud. 2.

5. *Furlan* yn yr iaith honno

6. Canlyniadau Cyfrifiadau 1911 a 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol

7. Dyfynnwyd mewn erthygl yn *The Guardian*, 24 Awst 2010: *Who still wants to learn languages?* http://www.theguardian.com/education/2010/aug/24/who-still-wants-learn-languages?guni=Article:in%20body%20link (Ymgynghorwyd 1 Mawrth 2015)

8. Cynllunio corpws: agweddau ieithyddol megis geirfa a therminoleg gyfoes, cysondeb o ran ffurfiau safonol, orgraff ayyb

9. Cynllunio caffael: hybu trosglwyddiad a dysgu'r iaith, ar yr aelwyd, mewn meithrinfaoedd ac ysgolion ac mewn addysg ar gyfer oedolion.

10. Er enghraifft, diffiniad y World Tourism Organization (WTO), sef: 'movements of persons essentially for cultural motivations such as study tours, performing arts and cultural tours, travel to festivals and other events, visits to sites and monuments, travel to study nature, folklore or art, and pilgrimages.'

11. Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2013 http://gov.wales/statistics-and-research/great-britain-tourist-survey/?skip=1&lang=cy [Darllenwyd 3 Mawrth 2016]

12. Arolwg Teithiau Undydd Prydain Fawr 2013 http://gov.wales/statistics-and-research/great-britain-day-visits-survey/?lang=cy [Darllenwyd 1 Mawrth 2015]

13. Llythrenw yw MINDSPACE, fel a ganlyn:

**Messenger**: we are heavily influenced by who communicates information
**Incentives**: our responses to incentives are shaped by predictable mental shortcuts such as strongly avoiding losses
**Norms**: we are strongly influenced by what others do
**Defaults**: we 'go with the flow' of pre-set options
**Salience**: our attention is drawn to what is novel and seems relevant to us
**Priming**: our acts are often influenced by sub-conscious cues
**Affect**: our emotional associations can powerfully shape our actions

**Commitments**: we seek to be consistent with our public promises, and reciprocate acts
**Ego**: we act in ways that make us feel better about ourselves

14. Cyfartaledd hyd y cyfweliadau wyneb-yn-wyneb oedd 85 munud, a’r rhai dros y ffôn 44 munud, a 61 munud ar draws y ddau ddull.

15. Cadeiriwyd gan yr Athro Nigel Morgan (Prifysgol Surrey) a chyflwynwyd adroddiad gydag argymhellion i’r Bwrdd Cynghori Twristiaeth yn Ionawr 2015.

16. Y contractwyr yw Kubi Kalloo

**CYFEIRIADAU**


Appel, R. a Muyskens, P. (1987) *Language Contact and Bilingualism*. Llundain: Edward Arnold.

Baker, C. (2011) *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism – 5th Edition*. Bryste: Multilingual Matters.

Bassey, M. (1981) Pedagogic research: on the relative merits of search for generalisation and study of single events. *Oxford Review of Education*, 7(1) 73-94.

Bourdieu, P. (1991) *Language and Symbolic Power*. Cambridge, Mass.: Gwasg Prifysgol Harvard.

Bruyèl-Olmedo, A. a Juan-Garau, M. (2015) *Minority languages in the linguistic landscape of tourism: the case of Catalan in Mallorca*. Journal of Multilingual and Multicultural Development (Cyhoeddwyd ar-lein)

Bwrdd Croeso Cymru (1985) *Attitudes to Wales as a Tourist Destination: Summary Report of an in Depth Investigation Into the Attitudes and Images of Wales Among Existing and Potential English Holidaymakers*. Caerdydd: Bwrdd Croeso Cymru.

Bwrdd Croeso Cymru (2003) *Cultural Tourism Report*. Bwrdd Croeso Cymru: Caerdydd.

Chin, R. a Benne, K.D. (1976) General strategies for effecting changes in human systems. Yn Bennis, W.G., Benne, K.D. a Chin, R. (goln), *The Planning of Change*. Efrog Newydd: Holt, Rinehart & Wilson.

Cohen, L., Mannion, L. a Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education*. Abingdon: Routledge.

Comisiynydd y Gymraeg (2014) *Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru.*

Cooper, R.L. (1989) *Language Planning and Social Change*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru)/Cyngor Celfyddydau Cymru (2009) *Ymchwil i Dwristiaeth Ddiwylliannol*.

Crystal, D. (2000) *Language Death*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2011) *Mesur y Gymraeg.* http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf [darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Ferguson, C. (1959) Diglossia*. Word, 15*, 325-340.

Fishman, J.A. (1972) *The Sociology of Language*. Rowley, Mass.: Newbury House.

Font, J. a Vidal-Folch, E. (2003) El turisme cultural a Catalunya: l'anàlasi del turisme estranger; de la formulació d'expectatives a la gestió d'una realitat. Yn *Nota d'economia. Núm. 76-77, 65-81*. Barcelona: Departament de Economia i Finances de la Generalitat de Catalunya.

French, W.L. a Bell, C.H. (1990). *Organization Development: Behavioural science interventions for organization improvement.* Englewood Cliffs, NJ: Prentice Hall.

García, O. (1992) *Societal Bilingualism and Multilingualism*. Efrog Newydd: Prifysgol Efrog Newydd.

Geertz, C. (1993) *The Interpretation of Cultures*. Llundain: Fontana.

Glaser, B. G. (1998) *Doing grounded theory: Issues and discussions*. Mill Valley, CA: Sociology Press.

Hall, C.M. a Page, S.J. (2014) The Geography of Tourism and Recreation: Environment, place and space. Llundain: Routledge.

Hornberger, N.H. a King, K.A. (2001) Reversing Quechua language shift in South America. Yn J.A. Fishman (gol.) *Can threatened languages be saved?* Clevedon: Multilingual Matters.

Institute for Government / Cabinet Office (2010) MINDSPACE – influencing behaviour through public Policy.

Kleif, B.B. (1980) *Language, Ethnicity and Education in Wales*. Efrog Newydd: Mouton.

Lewis, R.M. (1980) *The role of industrial heritage in regional and local tourism development.* Traethawd MSc, Prifysgol Ystrad Clud (Strathclyde).

Lewis, R.M. (2010) *Wenglish, the dialect of the South Wales Valleys, as a medium for narrative and performance*. Traethawd PhD, Prifysgol Morgannwg.

Llywodraeth Cymru (2003) *Iaith pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog.* http://gov.wales/depc/publications/welshlanguage/iaithpawb/iaithpawbw.pdf?lang=cy [darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Llywodraeth Cymru (2006) *Cyflawni ein Potensial - strategaeth dwristiaeth i Gymru.*

Llywodraeth Cymru (2011) *Y Rhaglen Lywodraethu.* http://gov.wales/about/programmeforgov/archive?skip=1&lang=cy [darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Llywodraeth Cymru (2012a) *Iaith fyw: iaith byw.* http://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/wlstrategy2012/?lang=cy [darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Llywodraeth Cymru (2012b) *Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Ddiwylliannol 2012 – 2015.* http://gov.wales/docs/drah/publications/Tourism/121004culturalcy.pdf [darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Llywodraeth Cymru (2013a) *Partneriaeth ar gyfer Twf - Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020.* http://gov.wales/docs/drah/publications/Tourism/130613partnershipforgrowthcy.pdf [darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Llywodraeth Cymru (2013b) *Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020 - Cynllun Gweithredu Fframwaith Blynyddoedd 1-3.* http://gov.wales/docs/drah/publications/Tourism/130617frameworkactionplanyr123cy.pdf [darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Llywodraeth Cymru (2013c) *Understanding Barriers to visiting Wales.* http://gov.wales/topics/tourism/developmentl1/partnershipforgrowth/barriersviswales/?skip=1&lang=cy
[darllenwyd 3 Mawrth 2015]

Llywodraeth Cymru (2013d) *Wales Tourism Business Survey 2013 – Wave 3.* http://gov.wales/statistics-and-research/wales-tourism-business-survey/?skip=1&lang=cy
[darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Llywodraeth Cymru (2014) *Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg.* http://gov.wales/docs/dcells/publications/140106-consultation-on-standards-relating-to-the-welsh-language-cy.pdf
[darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (1993) *Deddf yr Iaith Gymraeg.* http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/pdfs/ukpga_19930038_en.pdf
[darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2006) *Deddf Llywodraeth Cymru.* http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/pdfs/ukpga_20060032_en.pdf
[darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Longhurst, R. (2003) Semi-structured interviews and focus groups. Yn N. J. Clifford & G. Valentine (goln.), *Key methods in geography* (tud. 117–132). Llundain: Sage.

Mc Kercher, B. a du Cros, H. (2002) *Cultural Tourism: The Partnership between Tourism and Cultural Heritage Managment*. Abingdon: Routledge.

Ó Riagáin, P. (2000) Irish language production and reproduction 1981-1996. Yn J.A. Fishman (gol.) *Can threatened languages be saved?* Clevedon: Multilingual Matters.

Phillips, D. (2014) Croeso i Gymru yn *Golwg*, (yn sgil Fforwm: Twristiaeth ac Iaith yng Ngorllewin Ewrop, Aberystwyth, Ebrill 2001: cyhoeddwyd ar wefan Prifysgol Cymru) http://www.wales.ac.uk/cy/YGanolfanGeltaidd/ResearchProjects/CompletedProjects/SocialHistoryoftheWelshLanguage/CroesoiGymru.aspx
[darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Pujolar, J. (2006) *Language, culture and tourism: Perspectives in Barcelona and Catalonia*. Barcelona: Turisme de Barcelona.

Richards, G. (1996) *Cultural Tourism in Europe.* Wallingford: CAB International.

Richards, G. (2003) What is Cultural Tourism? Yn van Maaren, A. (gol.) *Erfgoed voor Tourisme*. Nationaal Contact Monumenten (Yr Iseldireoedd).

Ruiz, R. (1984) Orientations in Language Planning. *NABE Journal 8*(2), 25-34.

Schein, E.H. (2010) *Organizational Culture and Leadership: A Dynamic View, 4th edition*. San Francisco, CA: Jossey-Bass.

Sillani, S. (2006) *Comunicazione in lingua locale e percezioni dei consumatori: Risultati di una ricerca sperimentale sugli effetti delle etichette in friulano*. Udine: Forum.

Spolsky, B. (2004) *Language Policy.* Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Strubell, M. (2001) Catalan a decade later. Yn J.A. Fishman (gol.) *Can threatened languages be saved?* Clevedon: Multilingual Matters.

Thomas, G.P. (2014*) Linguistic and economic resilience in the recent recession: A case study of Welsh and English speakers in the Tourism sector*. Traethawd MA, Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth.

Tigue, A.J. (1986) The arts/tourism partnership. *Journal of Travel Research* 24(3): 2-5.

UNESCO (2003) *Confensiwn ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anfaterol*.
http://www.unesco.org/culture/ich/en/convention
[darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Viallon, P. (2004) La Méditeranée au risque de la communication touristique. Yn F. Baider et al. *La Communication Touristique. Approches Discoursives de l'Idententité et l'Altérité*. Paris: Harmattan.

Villatoro, V. (2010) The 'normalisation' of Catalan: A qualified success. Yn *Catalan International Review*, 5, Gaeaf 2009-10.
http://issuu.com/catalan-international-view/docs/civ_5
[darllenwyd 3 Mawrth 2016]

VisitScotland (2013) *Scotland Visitor Survey 2011 & 2012: Consumer Interest in Gaelic Language & Culture – Extract.*
http://www.visitscotland.org/pdf/Interest%20in%20Gaelic%20-%20Scotland%20Visitor%20Survey%2011-12_pptx.pdf
[darllenwyd 3 Mawrth 2016]

Williams, C.H. (1991) Language planning and social change: Ecological speculations. Yn D.F. Marshall (gol.), *Language Planning, Volume III*. Philadelphia: John Benjamins.

**ATODIAD 1**

**Canllawiau / penawadau ar gyfer cyfweliadau**

**1. CEFNDIROL** - y busnes, proffil, pryd sefydlwyd
- ieithyddol: perchnogion/rheolwyr; staff
- cwsmeriaid, proffil : pa ganran o:
  Gymry Cymraeg
  Cymru di-Gymraeg
  Trigolion gwedill y DU
  Gwesteion o dramor (pa wledydd?)
-Beth yw cenhadaeth y busnes?

**2. PA DDARPARIAETH** - yn Gymraeg; yn ddwyieithog; ieithoedd eraill?
- gwefan
- arwyddion
- hysbysebion
- llyfrynnau
- bwydlenni

**3. PA ALWAD am ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog/amlieithog?**
- pa rôl / swyddogaeth?
- ymateb i'r ddarpariaeth
- agweddau gwesteion / cwsmeriaid

**4. MANTEISION / BUDDION - i'r busnes**
- economaidd
- i'r ardal, i Gymru
-marchnata
-datblygu ewyllys da, rhwydweithiau

**5. ANFANTEISION / COSTAU : Beth fyddai rhaid digwydd er mwyn i fusnesau newid eu hymddygiad? Gorfodaeth? Esiampl? Dangos manteision?**

**6. PYNCIAU TRAFOD: Iaith a diwylliant yn adnodd i wahaniaethu Cymru o ran marchnata ond yn aml ystyrir darpariaeth ddwyieithog yn gost ychwanegol gan fusnesau unigol. Sut mae dangos mantesion?**

**7. 'NAWS AM LE' – beth sydd ei angen?**
Hunaniaeth –cf Iwerddon, yr Alban (Guinness, Tartan, Chwisgi – hunaniaeth symbolaidd)

**8. Sut mae gwneud diwylliant/iaith yn fwy hygyrch / cyffwrddadwy?**
- dehongli / esbonio
- cyfleoedd i brofi
- canolfannau cf Celtica

**9. Paradeim economaidd / paradeim ieithyddol a diwylliannol: oes gwrthdaro?**

**ATODIAD 2: PROFFILIAU BUSNESAU AC YMATEBWYR YN YR YMCHWIL ANSODDOL**

**GWESTY CYMRU, ABERYSTWYTH: HUW ROBERTS**

**Y Busnes**

Gwesty moethus, 8 ystafell a bwyty safonol ar lan y môr yn nhref Aberystwyth, yn dathlu cynnyrch Cymreig, Cymreictod a'r iaith Gymraeg. Agorwyd ar 07.07.07, wedi cynllun busnes manwl iawn yn dilyn y syniad gwreiddiol 2 flynedd gynt.

Gwelwyd bwlch yn y farchnad - 'Aberystwyth has very poor accommodation'. Roedd angen benthyciad a grant a gwnaethpwyd cynllun busnes manwl i'w gyfiawnhau. Prynwyd yr adeilad (gynt y Brandon Guest House). Ymestynnwyd y tu ôl i'r adeilad. Lleoliad ar y ffrynt. Lawnt o flaen – cyfle i roi byrddau allan.

Mae trosiant blynyddol o £700K, targed £500K, felly mae'r busnes yn llwyddiannus. 22 o staff - mae'r busnes yn cynnal teuluoedd yn y dref. Amcangyfrifir bod 90% o'r trosiant yn aros yn yr economi lleol.

**Yr ymatebydd: Huw Roberts, Perchennog**

Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i HR, yn ganolog yn ei fywyd. Fe'i ganwyd ym Mangor, fe'i magwyd yn Aberystwyth. Gweithiodd dros y BBC yng Nghaerdydd. Cafodd ei wraig Beth (o Ferthyr Tudful, a oedd hefyd yn gweithio yn y BBC) ei haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Staff**

22 o staff, 13 yn Gymraeg iaith gyntaf. Mae polisi iaith pendant: mae rhaid i staff blaen y tŷ allu siarad Cymraeg er mwyn cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwsmeriaid**

Gwesteion y gwesty: 10% yn siarad Cymraeg, 90% di-Gymraeg. O'r 90%, 50% o Gymru, 30% o weddill y DU, 10% o dramor (yn bennaf America, Swistir, Yr Almaen). Cymry di-Gymraeg â chydymdeimlad, ychydig o eiriau/dealltwriaeth. 'Ymateb gwych' o ran gwesteion o weddill y DU. Yn dangos bod siarad Cymraeg yn arfer naturiol.

Cwsmeriaid y Bwyty: hyd at 60% yn bobl lleol.

**Cenhadaeth y busnes**

Heblaw am wneud elw a rhoi bywoliaeth i HR a'i deulu a'i staff, popeth yn adlewyrchu Cymru, Ceredigion, Aberystwyth. Busnes dwyieithog – nid Cymraeg yn unig, nid 'ghetto'. Hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith y gwesteion drwy siarad, gwrando, dysgu.

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**

Popeth yn ddwyieithog heblaw am enw'r gwesty ac englyn Mererid Hopwood yn y bwyty (sydd yn annog trafodaeth ymhlith y gwesteion, pobl eisiau cyfieithiad ayyb), gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol (Twitter ayyb) a thalebau electronig.

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 3

**Y GOEDEN EIRIN, Y DOLYDD, GER CAERNARFON:** (Y diweddar) **JOHN ROWLANDS** (bu farw ar 23 Chwefror 2015, rhyw ddau fis ar ôl y cyfweliad)

**Y Busnes**

Gwely a brecwast, 3 ystafell (1 yn y tŷ, 2 mewn adeilad arall) yn y Dolydd, ger Penygroes, Caernarfon. Dechreuodd y busnes wedi i JR ymddeol (10 mlynedd yn ôl) ond wedi bod ar agor ers 6 blynedd. Peth gwaith ail-wneud cyn agor. Hen feudy yw'r tŷ. Nid yw JR yn holl-ddibynnol ar y busnes: 'Hobi, mewn ffordd'. Wedi ymddeol, y syniad oedd byw yn wyrdd, twristiaeth gyfrifol, cynaliadwyedd. Mae llyfrau Cymraeg niferus yn yr ystafelloedd.

Teimlai JR nad yw'r busnes wedi gwireddu ei botensial eto. Cafodd sylw yn *Good Hotel Guide*, *The Times* a chan newyddiadurwyr tramor, ond ychydig o sylw yng Nghymru (*Golwg 360* ond nid y cylchgrawn; *Y Wawr*).

**Yr ymatebydd: John Rowlands, Perchennog**

Mae JR yn enedigol o Drawsfynydd. Athro prifysgol (wedi ymddeol) yn y Gymraeg: BA Cymraeg ym Mangor, MA ar Ddafydd ap Gwilym, DPhil yn Rhydychen. Bu'n darlithio yn Abertawe a Chaerfyrddin. Athro Anrhydedd Prifysgol Bangor. Diddordeb mawr mewn Cerddoriaeth. Eluned, ei wraig, o Fethesda. Mae ganddi radd mewn Daearyddiaeth o Aberystwyth. Y Gymraeg yn holl-bwysig ac yn ganolog yn eu bywydau.

**Staff**

Ychydig o staff (glanhawyr) hefyd yn siarad Cymraeg.

**Cwsmeriaid**

Rhyw 15% yn Gymry Cymraeg, efallai 10-15% o dramor. Efallai 10% o Gymry di-Gymraeg. Y gweddill o Loegr, h.y. c.65%.

**Cenhadaeth y busnes**

Gwely a brecwast safonol, cynaliadwy, gwyrdd. Cymreictod a'r iaith yn rhan o hyn.

'Unigryw – wedi ymddeol, gallen ni drefnu popeth i'n siwtio ni ein hunain.' 'Hobi mewn ffordd.' 'Rydyn ni'n hoffi teithio. Dweud 'Dim lle' os ydyn ni i ffwrdd.'

Byw yn wyrdd, yn gynaliadwy. Iaith a diwylliant fel rhan o hyn.

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**

Gwefan – y Gymraeg yn dod yn gyntaf. Dim llawer o arwyddion ac ychydig o hysbysebion/llyfrynnau. Bwydlenni yn ddwyieithog.

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 3

**FOLLY FARM, GER CILGETI, SIR BENFRO: ZOE WRIGHT**

**Y busnes**

Sefydlwyd ym 1988 gan Glyn Williams (perchennog y fferm) a'i wraig (prif-athrawes yr ysgol leol) fel prosiect amrywiaethu fferm. Bu'n fferm laeth ar y prif ffordd o Ogledd Sir Benfro i Ddinbych-y-Pysgod. Bu rhaid i'r traffig aros pan oedd y gwartheg yn croesi i gael eu godro. Gwahoddwyd pobl i ddod i wylio, gyda sylwebaeth o'r platfform uwchben, felly yr oedd agwedd addysgol bwysig. Datblygwyd y fferm ar gyfer plant (geifr ayyb) ac wedyn reidiau a'r sŵ. Daeth 419,614 o ymwelwyr i Folly Farm yn 2013, un o'r atyniadau mwyaf poblogaidd yng Nghymru.

**Yr ymatebydd: Zoë Wright, Rheolwraig Marchnata**
Mae ZW, yn enedigol o Gaint, yn byw yng Nghrymych, Gogledd Sir Benfro, 'surrounded by Welshness'. Mae ei phlant yn mynychu'r ysgol Gymraeg leol ac mae hi'n dysgu Cymraeg. Mae ei hagwedd at yr iaith Gymraeg yn bositif iawn. Astudiodd ZW Newyddiaduriaeth, Ffilm a Darlledu yng Nghaerdydd ac mae ganddi Ddiploma Ôl-radd mewn Astudiaethau Newyddiaduriaeth (yn arbenigo mewn Cysylltiadau Cyhoeddus). Cyn ymuno â Folly Farm, ZW oedd Rheolwraig Marchnata Parc Thema Oakwood, Sir Benfro. Hi yw Cadeirydd Fforwm Twristiaeth De-Orllewin Cymru.

Mae ZW wedi cefnogi a phledio achos y Gymraeg yn y busnes ers ymuno yn 2008. Mae rhaid iddi gyfiawnhau pob darpariaeth i'r cyfarwyddwyr. Soniodd am beth sgeptigaeth a gwrthwynebiad ymhlith y staff. Lleolir y busnes yn Ne Sir Benfro, ar ochr dde ffin ieithyddol hanesyddol y Landsger.

**Staff**
Mae 90 o staff parhaol ond dim ond 2/3 o siaradwyr Cymraeg. Mae rhyw 120 o staff tymhorol, gan gynnwys tua 10 siaradwr Cymraeg. Mae felly rhyw 210 o staff yn yr haf.

Profwyd anhawster wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg.

Ar hyn o bryd, does dim siaradwr rhugl ar yr ochr Farchnata/Rheolaeth, sydd yn gwneud newidiadau i'r wefan o ddydd i ddydd yn anodd.

**Cwsmeriaid**
Mae 40% ar eu gwyliau a 60% yn ymwelwyr undydd o gartref. Ar draws y flwyddyn gyfan, mae rhyw 15% yn siaradwyr Cymraeg, rhyw 30% yn Gymry di-Gymraeg, 50%+ o Loegr, llai na 5% o dramor (efallai 2/3% o Iwerddon). Ar ddyddiau Cyw (S4C), mae rhyw 50% yn siaradwyr Cymraeg.

**Cenhadaeth y busnes**
Addysgu a difyrru. Cynnig gwasanaeth rhagorol i'r cwsmeriaid, buddsoddi bob blwyddyn i gadw'r atyniad yn ffres a chreu atgofion teuluol gwych.

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**
Arwydd Croeso dwyieithog. Pob arwydd newydd yn ddwyieithog. Llwybr Cymraeg gyda chrynodebau yn Gymraeg. Llwybr Dysgwyr Cymraeg gydag ymadroddion Cymraeg i ymwelwyr allu siarad am eu diwrnod yn Folly Farm, ac i greu naws lle. Derbyniwyd cyngor a grant oddi wrth Fwrdd yr Iaith. Gwefan yn Saesneg ar hyn o bryd.

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 2

**PORTMEIRON: ROBIN LLYWELYN**

**Y busnes**

Portmeirion Cyf., gwesty moethus ac atyniad ymwelwyr, sefydlwyd 1926. Mae’r gwesty yn un o’r enwocaf yng Nghymru. Daeth 193,240 o ymwelwyr i’r atyniad yn 2013. Ffilmiwyd y gyfres boblogaidd *The Prisoner* ym Mhortmeirion yn y 60au.

Adeiladwyd Portmeirion gan y pensaer Syr Clough Williams-Ellis o 1925 i 1973, ar fodel pentref Eidalaidd. Rhan o'i fwriad oedd dangos bod modd datblygu safle hardd heb ei ddifetha a'i bod hyd yn oed yn bosibl i ychwanegu at yr harddwch naturiol gydag adeiladau oedd mewn cytgord â'r tirlun.

**Yr ymatebydd: Robin Llywelyn, Rheolwr Gyfarwyddwr**

Fe’i ganwyd yn Llanfrothen, Meirionnydd ac fe’i addysgwyd yn Ysgol Ardudwy, Harlech a Phrifysgol Aberystwyth. Graddiodd yn y Gymraeg a’r Wyddeleg. Mae RLl yn ŵyr i Syr Clough Williams-Ellis, pensaer Portmeirion. Mae RLl wedi ysgrifennu tair nofel Gymraeg. Enillodd Fedal Rhyddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol (1992 a 1994) gyda dwy o’r nofelau.

**Staff**

235 o staff rhwng y siopau, yr atyniad a’r gwesty, 95% yn Gymry Cymraeg.

**Cwsmeriaid**

Cymry Cymraeg 10%   Cymry di-Gymraeg  5% Trigolion gweddill y DU 80%,  Gwesteion o dramor 5% (UDA, Ffrainc, yr Almaen, Sbaen, Asia)

**Cenhadaeth y busnes**

Creu digon o adnoddau i fuddsoddi yn strwythur y lle.
Coleddu’r Gorffennol, Harddu’r Presennol, Adeiladu ar gyfer y Dyfodol.
Cyfrifoldeb dros yr amgylchedd. Cynaliadwyedd: amgylchedd naturiol, wedi’i adeiladu a diwylliant a iaith.

Nod ac amcanion swyddogol y cwmni yw:

- i hyrwyddo cadwraeth yr adeiladau, tiroedd, planhigion a bywyd gwyllt o dan ei ofal.
- i hyrwyddo defnydd cynaliadwy ar hyd y flwyddyn o'r adeiladau a'r tiroedd o dan ei ofal.
- i hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy ar hyd y flwyddyn ac i gefnogi datblygiad staff trwy hyfforddiant.
- i arddel polisi dwyieithog gan gynnig gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg i staff, cyflenwyr a chwsmeriaid yn unol â'u dewis.

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**

Gwefan, arwyddion, hysbysebion, llyfrynnau a bwydlenni dwyieithog. Yn rhoi blaenoriaeth i’r Gymraeg.

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 3

**LLANSANTFFRAED COURT, GER Y FENNI: MIKE MORGAN**

**Y busnes**
Gwesty annibynnol moethus gyda 21 o ystafelloedd. Pwyslais ar fwyd: 'Would be a 'restaurant with rooms' if not quite so big.' Lleolir ger Y Fenni, Sir Fynwy. Prynwyd oddi wrth y derbynwyr yn 1996. Aelod o'r grŵp marchnata *Welsh Rarebits*. (MM yw cyfarwyddwr y grŵp.)

Trosiant £1.2 milwn yn flynyddol. Yn gyffredinol, £20-30,000 yr wythnos ond gallai hwn godi i £100,000 yr wythnos yn yr haf. 50% o drosiant yn dod o fwyd, traean o lety a'r gweddill o ddiodydd ayyb.

**Yr ymatebydd: Mike Morgan, Cyfarwyddwr/Perchennog**
Ganwyd yn Swydd Gaerwrangon (ei dad a'i dadcu o Bont-y-Pŵl). Addysgwyd yn Ysgol y Brenin, Caerwrangon a Phrifysgol De Montfort, Caerlŷr, lle graddiodd mewn Rheolaeth Tir. Bu gynt yn Rheolwr Cyffredinol yng ngrŵp gwestai Hilton.

Mae MM yn Gyd-berchennog a Chyfarwyddwr Rare Hospitality Ltd., grŵp marchnata sy'n cynrychioli tua 300 o'r busnesau gorau yn y sector lletygarwch yng Nghymru, gan gynnwys gwestai *Welsh Rarebits*, gwestai bach, tafarnau a ffermdai *Great Little Places* a gwasanaethau teithio *Wales in Style*.

Mae'n aelod o'r Bwrdd Ymgynghori Twristiaeth.

**Staff**
Busnes tymhorol iawn. 50-60 staff yn yr haf, 30-35 yn y gaeaf. Staff yn lleol iawn nawr: cyflogir yn lleol am resymau ymarferol (teithio, hyblygrwydd). Yn 2006-8 cyn y dirwasgiad, deuai rhyw 30% o'r staff o Ddwyrain Ewrop. Erys ond un aelod o staff o wlad Pwyl.

Un aelod o'r staff yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd, Alys, yn gyfrifol dros Adnoddau Dynol a'r swyddfa flaen. Mae hi'n 'frwdfrydig iawn' dros yr iaith Gymraeg, ac wedi cyflwyno llofnodion e-bost dwyieithog a geiriau Cymraeg yn anffurfiol i'r staff. MM yn gefnogol ond yn amharod i fynd yn rhy bell: petai Alys yn gadael, ni fyddai'r gallu ieithyddol ar gael i barhau'r mentrau hyn. Roedd y Rheolwr Digwyddiadau blaenorol yn siarad Cymraeg.

**Cwsmeriaid**
Cymru Cymraeg: yn cynyddu, ond dim ond tua 5%.
Cymru di-Gymraeg: c.30%
Gweddill y DU: 50-60%
Tramor: 12% - Yr Iseldiroedd, Yr Almaen, UDA, yn drefn honno.

**Cenhadaeth y fusnes**
'All about food.' 'Doing business should always be fun but also provide a comfortable lifestyle.' 'Not going to sell my soul to do it'. 'Not a lifestyle business – it needs to be profitable.' 'We include Sense of Place in everything we do. Emphasis on food.'

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**
Ambell air ar y wefan, y gair 'Croeso' mewn hysbysebion, llofnodion e-bost, penawdau'r bwydlenni.

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 1/2

**CADW: CATRIN ELIS**

**Y busnes**

Corff llywodraethol gyda chyfrifoldeb dros archaeoleg, rhestru, gofalu, cynnal y dreftadaeth adeiledig, dehongli hanes a gofalu am ymwelwyr a thwristiaid. Rhyw 120 o safleoedd, 30 wedi'u staffio. Y rhai mwyaf: Caernarfon, Conwy, Harlech, Biwmares, Abaty Tyndyrn, Caerffili, Castell Coch a Rhaglan.

**Yr ymatebydd: Catrin Elis, Pennaeth Marchnata a Datblygu Twristiaeth**

Addysgwyd yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon a Phrifysgol Caerdydd. Graddiodd yn y Gymraeg. Diploma Sefydliad Siartredig Marchnata. Gweithiodd dros Faes Awyr Caerdydd cyn symud i Cadw yn 2012.

**Staff**

200 o staff, gan gynnwys y pencadlys, staff technegol ac ar y safleoedd. Rhai staff/safleoedd tymhorol. Ansicr ynglŷn â chanran siaradwyr y Gymraeg.

**Cwsmeriaid**
Yn arolwg 2013 (Gorffennaf/Awst) – 25% o Gymru (ond yn codi fel canran allan o dymor), efallai rhyw draean (34%) ar gyfartaledd blynyddol. Gweddill y DU: 50% - Lloegr yn bennaf; Tramor 16% (dim rhaniad pendant o ran gwledydd, ond yn debyg i ffigurau Croeso Cymru).

**Cenhadaeth y busnes**

Pwrpas(au) Cadw: Corff amgylcheddol, hanes, gwarchod hanes a threftadaeth Cymru.
Codi ymwybyddiaeth o hanes a threftadaeth Cymru.
Dysgu am hanes a threftadaeth Cymru.

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**

Yn unol â pholisi'r Llywodraeth, mae popeth yn ddwyieithog. Yr unig eithriad yw un neu ddau lyfr tywys sydd yn 15 oed neu'n fwy erbyn hyn.

Y mwyafrif yn ddogfennau dwyieithog. Yn achos Cricieth a Dinbych, mae 2 fersiwn am resymau ymarferol.

Darpariaeth glyw-weledol (audio tours).

Yn y prif safleoedd - peth deunydd argraffedig yn Eidaleg, Sbaeneg, Ffrangeg ac Almaeneg ond nod yn gyfatebol i'r Saesneg/Cymraeg.

Mae asiantaeth gwasanaeth llawn (Equinox) – cytundeb 3 mlynedd. Dylunio, pamffledi ayyb a chysylltiadau cyhoeddus yn ddwyieithog (yn is-gytundebu peth).

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 2/3

**GWESTY'R VALE, HENSOL: STEPHEN LEEKE**

**Y busnes**

Busnes manwerthu a'r gwesty/cyfleusterau hamdden yn ddau gwmni annibynnol.

Sefydlwyd y busnes gwesty a hamdden yn 1994, yn Hensol, ger Llantrisant, rhyw 10 milltir o Gaerdydd, yn agos i'r M4. Agorwyd y clwb iechyd yn 1998 a'r gwesty yn 1999. Gwesty moethus 4*, gyda chyfleusterau sba, hamdden a chwaraeon. 2 gwrs golff. Cyfleusterau ymarfer ar gyfer tîmau rygbi a phêl-droed Cymru. Defnyddir y gwesty yn aml gan dîmau enwog pan chwaraeant yn Ne Cymru, e.e. Real Madrid. Arhosodd tri phennaeth gwladwriaeth yno yn ystod Uwchgynhadledd NATO yn 2014.

**Yr ymatebydd: Stephen Leeke, Rheolwr Gyfarwyddwr**
Fe'i ganwyd yng Nghaerdydd ac fe'i magwyd yn ymyl y gwesty. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Sherborne a Phrifysgol Sheffield, lle astudiodd Sbaeneg a Chatalaneg. Treuliodd flwyddyn ym Mhrifysgol Valencia ac ysgrifennodd draethawd ar y Gatalaneg. 'I didn't have the opportunity of learning Welsh at school. I would have, had I had the opportunity.' Serch hynny, mae ganddo ambell air ac ymadrodd yn Gymraeg.

Mae SL yn cadeirio Cymdeithas Gwesteiwyr Caerdydd ac yn aelod o'r Bwrdd Cynghori Twristiaeth.

**Staff**
Mae 200 o staff parhaol (ond dim ond rhyw 6 siaradwr Cymraeg, efallai mor isel ac 1), yn cynnwys rhyw 30 ar raddfa Goruchwyliwr neu'n uwch, ond dim siaradwyr Cymraeg yn eu plith. Cyfanswm o 500 o staff gan gynnwys staff tymhorol, rhan-amser a gweini.

**Cwsmeriaid**
Gwesteion y gwesty:

Cymru 15% (yn bennaf o Abertawe a Gorllewin Cymru, felly'n adlewyrchu proffil ieithyddol yr ardal honno), gweddill y DU 75-80%, tramor 5-10% (Ewrop, yn enwedig yr Almaen a'r Iseldiroedd; rhai o'r Dwyrain Pell a Gogledd America).

Gwesteion di-breswyl:

Tuedda ymwelwyr â'r Sba a chwaraewyr golff ddod o Gymru ar deithiau undydd ond mae rhai yn aros. Rhyw 90% o Gymru, yn eithaf lleol. Canran y siaradwyr Cymraeg yn gymharol isel – 5-10%.

**Cenhadaeth y busnes**
1. Elw
2. Uchelgais i fod yn gyrchfan o safon ryngwladol
3. Pwyslais ar ansawdd y cyfleusterau (yn gyffredinol o safon 5* ond mae lefelau staffio a'r prisiau'n fwy ar lefel 4*)

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**
Dim byd ar y wefan. Mwyafrif yr arwyddion yn ddwyieithog. Dim darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog o ran llyfrynnau a bwydlenni. 'Generally signage is translated – not a lot else.'

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 0/1

**LABYRINTH Y BRENIN ARTHUR, CORRIS: IAN RUTHERFORD**

**Y busnes**
Gloddfa lechi Braich Goch yn flaenorol. Sefydlwyd Corris Caverns Ltd. yn 1994. Prynwyd Canolfan Grefft Corris oddi wrth Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn 1996. Trydedd gangen y grŵp yw Chwilotwyr Chwarel Corris.

Yn y Labyrinth, ar daith danddaearol mewn cwch, mae ymwelwyr yn cael eu trin i sioeau clyw-weledol, yn seiliedig ar hanesion am y Brenin Arthur a chwedlau Cymreig hynafol. Yn ogystal, yn y ’ddrysfa droellog’ adroddir Chwedlau Coll y Cylch Cerrig trwy ddarpariaeth glywedol (yn Gymraeg a Saesneg).

**Yr ymatebydd: Ian Rutherford, Rheolwr Gyfarwyddwr**
Fe’i ganwyd ym Manceinion ac fe’i magwyd yn Buckinghamshire. Dilynodd gwrs Wlpan ‘amser maith yn ôl’. Medra ddilyn sgyrsiau syml a thestunau ysgrifenedig ond ni ddisgrifia ei hun yn rhugl yn y Gymraeg. Daeth i Ogledd Cymru yn 1972. Priododd â merch o Ddolgellau.

Mae IR yn wweithgar fel aelod o Gymdeithas Atyniadau Cymru ac roedd yn aelod o’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymchwil Twristiaeth yn 2014-15.

**Staff**
Mae’n fusnes tymhorol iawn. Staff craidd: 2 yn y caffi, cyfrifydd rhan-amser, rheolwr marchnata rhan-amser, 3 thywysydd ar y teithiau tanddaearol ac IR.  35 o staff yn yr haf (rhyw 20% yn siarad Cymraeg ac eraill a ‘ddylai siarad Gymraeg’). Canran ‘syfrdanol’ isel o siardwyr Cymraeg ar y staff. 3 a addysgwyd yn yr ardal, ond ni siaradant Gymraeg fel arfer (ond y gallent pe bai rhaid).

**Cwsmeriaid**
‘Welsh-speaking? No idea. They will speak to us in English.’

Ymwelwyr o Gymru: rhyw 20% allan o dymor, efallai 15% ar y cyfan. Tramor: efallai 5-8%. Y gweddill o Loegr. Does dim poblogaeth leol sylweddol ac mae’n rhy bell o’r trefi mawr i ddenu ymwelwyr undydd.

**Cenhadaeth y busnes**

Dull gwahanol o adrodd chwedlau Cymreig. Cyflwyno agwedd ar ddiwylliant Cymreig i ymwelwyr ac i drigolion Cymru.

Busnes y Labyrinth yw adrodd storïau. Yn ogystal, adroddir Chwedlau Coll y Cylch Cerrig yn y ’ddrysfa droellog’.

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**
Y brif-wefan yn ddwyieithog (fersiynau Cymraeg a Saesneg).  Chwedlau Coll y Cylch Cerrig yn ddwyieithog – darpariaeth glywedol drwy wasgu’r botwm Cymraeg neu Saesneg.  Y prif arwyddion yn ddwyieithog (neu gyda pheth Cymraeg arnynt).  Teithiau tanddaearol ar gael yn Gymraeg a Saesneg ond mae’n rhaid cael llond cwch – un iaith neu’r llall. Hysbysebion yn uniaith Saesneg – yn targedu’r farchnad yn Lloegr.

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 2

**GELLI GYFFWRDD (GREENWOOD FOREST PARK), Y FELINHELI: STEPHEN BRISTOW**

**Y busnes**
Sefydlwyd ym 1993, yn wreiddiol fel sefydliad addysg amgylcheddol. Parc anturiaeth awyr-agored poblogaidd. Denodd 134, 832 o ymwelwyr yn 2013. Bob blwyddyn o 2011 i 2014, Gelli Gyffwrdd sydd wedi ennill y wobr am yr Atyniad Teuluol Gorau yng Ngogledd Cymru. Mae'r safle yn cynnwys nifer o reidiau a gweithgareddau i blant yn bennaf. Trefnir digwyddiadau arbennig yn gyson.

**Yr ymatebydd: Stephen Bristow, Rheolwr Gyfarwyddwr**
Yn enedigol o Surrey, cefndir SB yw coedwigaeth a datblygu tramor. Mae ganddo Ddiploma mewn Garddwriaeth o Kew a gradd mewn Coedwigaeth Amaethyddol a Botaneg o Brifysgol Bangor. Ar ôl graddio, gweithiodd ar brosiectau amgylcheddol yn Affrica cyn dychwelyd i Ogledd Cymru gyda'i wraig, Andrea, o Fienna, sydd hefyd â diddordeb mawr mewn planhigion. Gweithiodd yn rhan-amser fel darlithydd prifysgol tra'n sefydlu'r busnes ac hefyd fel ymgynghorydd amgylcheddol yn Affrica yn y gaeaf.

Roedd diddordeb mawr ganddo mewn garddwriaeth organig a materion amgylcheddol a chynaliadwyedd yn y 70au, cyn i'r pethau yma ddod yn ffasiynol. Dechreuodd y busnes i helpu i godi'r teulu.

Mae ganddo beth Gymraeg. Gwnaeth gyrsiau yn y gorffennol ond ni chwblhaodd y rhain oherwydd gofynion teithio gyda'i waith. Mae ei wraig wedi meistroli Cymraeg llafar.

**Staff**
15 o staff parhaol, y Gymraeg yn famiaith i hanner ohonynt.
110 o staff tymhorol, 80% ohonynt yn Gymry Cymraeg.

**Cwsmeriaid**
Yn y gwanwyn a'r hydref – rhyw 60% o Gymru (a'r mwyafrif helaeth yn Gymry Cymraeg), 40% yn siaradwyr Saesneg.
Yn y tymor brig, 40% Cymraeg, 60% Saesneg.
Dim llawer o ymwelwyr tramor. Rhai Almaenwyr/Iseldirwyr. Mae'r atyniad yn addas i farchnad teuluoedd ifanc. Nis defnyddir gan oedolion heb blant.

**Cenhadaeth y busnes**
Darparu diwrnod allan gwych i'r teulu, llawer o ymarfer, ffres aer, profiadau diddorol ac anarferol. Gwneud elw: nid yw talu'r costau ddim yn ddigon. Ail-fuddsoddi elw yn y busnes. 'Not a lifestyle business. There is a lifestyle element, but it must support my family.' 'Huge responsibility to staff'.

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**
Gwefan: yn bennaf yn Saesneg 'Would need to double the size.'
Arwyddion: o leiaf 95% yn ddwyieithog
Llyfrynnau: rhannau Cymraeg – dewis masnachol
Cerrig y Cerddi: detholiad o farddoniaeth Gymraeg (dewiswyd yn bennaf gan Myrddin ap Dafydd, Gwasg Carreg Gwalch) wedi'i cherfio ar 16 llechen fawr o Chwarel y Penrhyn , Bethesda. Agorwyd gan Alun Ffred Jones AC.
Cyfryngau cymdeithasol

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 2

**TYWYSYDD BATHODYN GLAS: NIA RHYS JONES**

**Y Busnes**

Gweithia NRJ fel darlithydd mewn Twristiaeth yng Ngholeg Llandrillo Menai ym Mangor. Yn 2008 ymgymhwysodd fel Tywysydd Bathodyn Glas.

**Yr Ymatebydd: Nia Rhys Jones**

Cymraes o Sir Fôn. Fe'i ganwyd ym Mangor. Mynychodd ysgolion yng Nghaernarfon, Tywyn a Llangefni - roedd ei thad yn Rheolwr Banc ac, felly, roedd rhaid symud bob 4 mlynedd. Graddiodd mewn Hanes a Hanes Cymru o Brifysgol Bangor, ac yna fe wnaeth Ddiploma Ôl-radd ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn fwy diweddar gwnaeth hi Radd Sylfaen mewn Tywys Proffesiynol drwy UWIC.

Gweithiodd dros Fwrdd Croeso Cymru yn Llundain a Chaerdydd ac i Dwristiaeth Gogledd Cymru cyn dechrau gyrfa ddarlithio mewn twristiaeth yng Ngholeg Llandrillo. Roedd Nia yn Bennaeth Adran Twristiaeth ers 2007, ond ers 2014 hi yw Rheolwr Bagloriaeth Gymraeg Cymru yng Ngholeg Llandrillo Menai.

Bu Nia yn un o Gyfarwyddwyr Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru ac yn awr mae hi'n Ddirprwy Gadeirydd Cymdeithas Twristiaeth Ynys Môn, yn Ymddiriedolwr Canolfan Thomas Telford ac yn berchen ar dri thŷ haf.

**Cwsmeriaid**

Mae NRJ yn tywys trwy gyfrwng y Gymraeg 'fel bo'r gofyn'. Mae rhai aelodau eraill o Gymdeithas y Tywysyddion (WOTGA) yn gweithio yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, ond ar hyn o bryd cysyllta Nia yn fwy â'r llongau mordaith (yn enwedig o'r Almaen) sy'n dod i mewn i Gaergybi ac, o ganlyniad, nid yw'r Gymraeg yn ganolog i'w gwaith tywys ar y foment.

**Cenhadaeth y busnes**

Gwêl NRJ dywys twristiaid 'fel gyrfa mewn efallai deng mlynedd' a'r Bathodyn Glas fel 'Cymhwyster gwerthfawr – llawer iawn o waith iddo. Yn ôl ei disgrifiad ar wefan WOTGA (Wales Best Guides), ei phrif ddiddordebau yw 'twristiaeth fwyd a'r cyfoeth o olygfeydd ac atyniadau sydd gennym i gynnig i ymwelwyr o bedwar ban y byd'.

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**

Mae NRJ yn tywys trwy gyfrwng y Gymraeg 'fel bo'r gofyn'. Cyflwyna eiriau ac ymadroddion Cymraeg i grwpiau o Loegr neu o dramor a dehongla hanes a diwylliant Cymru i'w grwpiau.

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 2

**YR HARBWRFEISTR, ABERAERON: GLYN HEULYN**

**Y busnes**

Gwesty/bwyty moethus, 13 ystafell mewn 3 adeilad hanesyddol ar lan yr harbwr. Busnes hollol ddwyieithog.

Ers adnewyddu'r gwesty a'i ail agor yn 2002 mae'r Harbwrfeistr wedi ei restru yn y *Good Hotel Guide*. Gradd 5 seren Tafarn gan Croeso Cymru ac yn perthyn i'r casgliadau *Welsh Rarebits, Mr and Mrs Smith ac Alastair Sawday.*

Mae bar/bwyty Baravin yn Aberystwyth dan yr un berchnogaeth gyda'r un polisïau dwyieithog.

**Yr ymatebydd: Glyn Heulyn, Perchennog**

Agorwyd y gwesty gan Glyn Heulyn a'i wraig Menna yn 2002 ar ôl newid gyrfa i'r ddau. Bu GH yn gweithio ym maes Cyllid yn Aberystwyth a Menna ym Marchnata gyda Bwrdd Datblygu Cymru ac S4C. Roedd ganddynt awydd i greu rhywbeth yn eu hardal frodorol a chanddynt syniad eglur o'r hyn yr oeddynt am wneud. Gwyddent y byddai'r awyrgylch anffurfiol ond proffesiynol yn llwyddo yn yr ardal ac yng Nghymru yn gyffredinol.

**Staff**

35 llawn amser, 20 rhan amser.

Pawb ym mlaen y tŷ (pawb sydd â chyswllt â'r cyhoedd) yn siarad Cymraeg: rhyw 70% o'r staff i gyd. Staff i gyd o'r ardal**.**

**Cwsmeriaid**

Cymry Cymraeg: 15%
Cymry di-Gymraeg: 40%
Trigolion gweddill y DU: 40%
Tramor: bach iawn 5% (Ffrainc, Yr Almaen, Y Swistir, Yr Iseldiroedd – Ewrop yn fwyaf, rhai Americanwyr)

**Cenhadaeth y busnes**

'Mae'r busnes yn bwysig iawn i'r ardal ac i'r dre, yn ogystal â gwneud elw ayyb. Mae'n rhan annatod o fywyd Aberaeron a mae'n bwysig iawn i fusnesau eraill yn y dre achos mae'n denu pobl i'r dre sydd ag arian, rhywbeth falle oedd ddim yn digwydd cyn i ni fod.'

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**

Popeth yn ddwyieithog.

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 3

**GWESTY'R AMBASSADOR HOTEL, LLANDUDNO: DAVID WILLIAMS**

**Y Busnes**

Gwesty safonol annibynnol ar y prom yn Llandudno. 57 o ystafelloedd, pob un â chyfleusterau preifat. Sefydlwyd hanner y gwesty (dan enw Gwesty'r Richmond) yn 1958. Prynwyd yr eiddo drws nesaf (Gwesty'r Brinkburn) yn 1986. Cyfunwyd gyda'r Richmond i greu yr Ambassador. Canran uchel o westeion yn dychwelyd. Pwysleisiwyd ansawdd y cyfleusterau, y gwasanaeth, a'r cyfeillgarwch.

**Yr ymatebydd: David Williams, Perchennog**

Mae DW yn dod o'r ardal, yn siarad 'tipyn bach' a chanddo ddealltwriaeth gyffredinol o'r Gymraeg. DW yn drydedd genhedlaeth o deulu Williams i gadw gwesty. Mae DW yn westeiwr uchel ei barch, wedi bod yn weithgar yn nghylchoedd twristiaeth yng Ngogledd Cymru, ac yn un o Gyfarwyddwyr Masnach Twristiaeth Gogledd Cymru.

**Staff**

24 o staff i gyd, efallai 5% gydag o leiaf peth dealltwriaeth o'r Gymraeg. Un siaradwr rhugl, y Rheolwr *Pâtisserie*, sy'n delio gyda'r cwsmeriaid bob dydd. Siaredir sawl iaith arall yn dibynnu ar gyfuniad y staff ar y pryd, e.e. Pwyleg, Latfieg, Eidaleg, Sbaeneg, Ffrangeg, Almaeneg. Tua 50% y staff o dramor. Penaethiaid adran i gyd yn lleol ac yn Brydeinwyr.

**Cwsmeriaid**

Cymry Cymraeg 2%
Cymry di-Gymraeg 3%
Trigolion gweddill y DU 94% (80% o Ogledd Lloegr). Effeithia cysylltiadau trafnidiaeth a'r tywydd ar lefel yr ymweliadau o Dde Lloegr.
Tramor 1%

Mae 70% yn fusnes grwpiau, yn bennaf cwmnïau coetsis o Ogledd Lloegr.

Mwyafrif yr arosiadau am tua 4 diwrnod, hyd yn oed gyda grwpiau, e.e. dydd Llun i ddydd Gwener, ac wedyn grŵp arall dydd Gwener i ddydd Sul/Llun. Dim llawer o fusnes 7 diwrnod nawr.

Lefel uchel o fusnes dychwelyd ymhlith grwpiau ac unigolion.
Un bwyty yn unig, fel arfer mewn defnydd gan westeion sy'n aros. Tua 5% o drosiant yn fusnes lleol: ciniawau bar, coffi, cyfarfodydd bach.

**Cenhadaeth y busnes**

'To increase the quality of the service in terms of updating the fabric of the building.'

**Darpariaeth Gymraeg bresennol**

'We have one or two 'bits and pieces' the equivalent of 'Bore da', 'Good Morning', those sort of little phrases that you come across.'

**Lefel ymrwymiad sefydliadol o ran dwyieithrwydd (Schein)** Lefel 0